Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Memorandwm Esboniadol

# Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru)

DYDDIAD CYFLWYNO:
21 Hydref 2024



“A thrwy gyngor a chytundeb y doethion a ddaeth yno, archwiliwyd yr hen gyfreithiau, gadawyd rhai ohonynt i barhau, diwygiwyd eraill, a dilëwyd eraill yn gyfan gwbl, a gosodwyd rhai eraill o’r newydd.”

*Llyfr Iorwerth 1240*

OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG50733, ISBN digidol 978-1-83625-662-5

## Memorandwm Esboniadol ar gyfer Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru)

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Swyddfa Cwnsleriaid Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru.

Cafodd ei baratoi a'i osod yn wreiddiol yn unol â Rheol Sefydlog 26.6 ym mis Hydref 2024, a gosodir yn awr Femorandwm diwygiedig yn unol â Rheol Sefydlog 26.28.

## Cynnwys


Datganiad yr Aelod ..... 5

Mynegai sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 26.6A ..... 7

Rhan 1 – Amcanion polisi'r Bil ..... 9

Disgrifiad ..... 9

Y problemau presennol ..... 9

Gwneud a chyhoeddi deddfwriaeth Cymru ..... 9

Darpariaethau deddfwriaethol nad ydynt o ddefnyddioldeb ymarferol neu o fudd mwyach ..... 14

Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 ..... 15

Yr amcanion polisi ..... 16

Gwneud a chyhoeddi deddfwriaeth Cymru ..... 16

Diddymiadau a diwygiadau i ddarpariaethau nad ydynt o ddefnyddioldeb ymarferol neu o fudd mwyach ..... 17

Diwygiadau i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 ..... 18

Cymhwysedd deddfwriaethol ..... 19

Dulliau eraill o gyflawni'r amcanion polisi ..... 20

Gwneud a chyhoeddi deddfwriaeth Cymru ..... 20

Diddymiadau a diwygiadau i ddarpariaethau nad ydynt o ddefnyddioldeb ymarferol neu o fudd mwyach ..... 20

Diwygiadau i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 ..... 21

Rhan 2 – Ymgynghori ..... 23

Ymgyngoriadau a gynhaliwyd cyn cyflwyno'r Bil ..... 23

Crynodeb o ganlyniadau ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Bil drafft ..... 24

Diwygiadau yn sgil yr ymgynghoriad ..... 24

Bwriad i ddiddymu darpariaethau sy'n ymwneud â hawliau tramwy heb eu cofnodi ..... 28

Materion yn y Bil nad ymgynghorwyd arnynt eisoes ... 29
Gwneud a chyhoeddi deddfwriaeth Cymru ... 29
Diddymu a diwygio darpariaethau nad ydynt o ddefnyddioldeb ymarferol neu o fudd mwyach ... 29
Diwygiadau i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 ... 32
Rhan 3 – Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth ... 33
Pwerau a gynhwysir yn y Bil a diwygiadau a wnaed i Ddeddf 2019 ... 33
Rhan 4 – Asesiad effaith rheoleiddiol ... 41
Crynodeb ... 41
Rhannau 1 a 2 o'r Bil – opsiynau, manteision, costau a chasgliadau ... 43
Opsiwn 1 – Cynnal y trefniadau presennol ar gyfer gwneud a chyhoeddi deddfwriaeth Cymru ... 43
Opsiwn 2 – Datblygu darpariaethau pwrpasol ar gyfer gwneud a chyhoeddi deddfwriaeth Cymru ... 47
Asesiad cystadleuaeth ... 51
Casgliad (a'r opsiwn a ffefrir) ... 52
Nodyn ychwanegol ynghylch ffurf offerynnau statudol Cymreig ... 52
Rhannau 3 a 4 o'r Bil ... 53
Cronfa Gyfunol Cymru ... 54
Rhan 5 – Asesiadau effaith ac adolygiad ôl-weithredu ... 55
Asesiad effaith integredig ... 55
Asesiad o'r effaith ar gyfiawnder ... 55
Adolygiad ôl-weithredu ... 55
Atodiad A – Nodiadau Esboniadol i Fil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) ... 57
Atodiad B – Tabl tarddiadau ... 104
Atodiad C – Eglurhad o effaith diwygiadau arfaethedig i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 ... 105

# Datganiad yr Aelod

Yn fy marn i, byddai darpariaethau Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru), a gyflwynir gennyf i ar 21 Hydref 2024, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.

Julie James, AS

Y Cwnsler Cyffredinol a’r Gweinidog Cyflawni
Yr Aelod o'r Senedd sy'n gyfrifol am y Bil

6 Mai 2025

*Gadawyd y dudalen hon yn wag yn fwriadol*

# Mynegai sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 26.6A

| Gofynion Rheol Sefydlog 26.6 | | Lleoliad yn y Memorandwm Esboniadol |
|---|---|---|
| 26.6 (i) | Datganiad yr Aelod ar gymhwysedd deddfwriaethol. | Datganiad yr Aelod<br>Tudalen 5 |
| 26.6 (ii) | Amcanion polisi'r Bil | Rhan 1, paragraffau 30 i 46 |
| 26.6 (iii) | Ystyried ffyrdd eraill o gyflawni'r amcanion polisi | Rhan 1, paragraffau 49 i 54 |
| 26.6 (iv) | Ymgynghori ar yr amcanion polisi, manylion y Bil a'r Bil Drafft | Rhan 2, paragraffau 55 a 56 |
| 26.6 (v) | Crynodeb o ddeilliant yr ymgynghoriad | Rhan 2, paragraffau 57 i 62 |
| 26.6 (vi) | Rhesymau dros beidio â chyhoeddi'r Bil (neu Ran o'r Bil) fel drafft | Rhan 2, paragraffau 63 i 77 |
| 26.6 (vii) | Crynodeb o fwriadau pob un o'r darpariaethau | Atodiad A |
| 26.6 (viii) | Yr amcangyfrifon gorau o'r costau a'r arbedion | Rhan 4, paragraffau 86, 88 a 113 i 118 |
| 26.6 (ix) | Manteision ac anfanteision (na ellir eu mesur yn ariannol) | Rhan 4, paragraffau 119 i 121 |
| 26.6 (x) | Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth | Rhan 3 |
| 26.6 (xi) | Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar ddarpariaethau sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru | Nid yw Rheol Sefydlog 26.6. (xi) yn gymwys i'r Bil hwn (gweler paragraff 131) |
| 26.6 (xii) | Yr effaith bosibl ar y system gyfiawnder | Rhan 5, paragraff 133 |
| 26.6B | Tabl tarddiadau | Atodiad B |
| 26.6C | Atodlen o eiriad deddfwriaeth bresennol sy'n cael ei diwygio'n sylweddol gan y Bil | Atodiad C |

*Gadawyd y dudalen hon yn wag yn fwriadol*

# Rhan 1 – Amcanion polisi'r Bil

## Disgrifiad

1. Diben y Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) yw:

   a. tynnu ynghyd a ffurfioli:
      i. y trefniadau gweithdrefnol ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth Cymru; a
      ii. y gofynion ar gyfer cyhoeddi Deddfau Senedd Cymru ac offerynnau statudol Cymreig, ac is-ddeddfwriaeth arall nas gwneir drwy offeryn statudol.

   b. gwella hygyrchedd cyfraith Cymru drwy:
      i. ddiddymu, diwygio a datgymhwyso fel arall o ran Cymru ddarpariaethau a deddfiadau nad ydynt o ddefnyddioldeb ymarferol neu o fudd mwyach; a
      ii. gwneud mân ddiwygiadau i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019.

## Y problemau presennol

***Gwneud a chyhoeddi deddfwriaeth Cymru***

2. Mae Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 ('Deddf 2019') yn gwneud darpariaeth ynghylch dehongli a gweithredu deddfwriaeth Cymru, ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidogion Cymru gymryd camau i wella hygyrchedd cyfraith Cymru.

3. Yn ei adroddiad ar *Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru*[1], a oedd yn rhagflaenu cyflwyno Deddf 2019, ystyriodd Comisiwn y Gyfraith Cymru a Lloegr (Comisiwn y Gyfraith) y trefniadau ar gyfer cyhoeddi deddfwriaeth ynghyd â materion ehangach sy'n ymwneud â'i hygyrchedd (ymhlith materion eraill).

4. Ar yr adeg yr oedd y Bil a ddaeth yn Ddeddf 2019 yn cael ei ystyried gan y Senedd, esboniodd y Llywodraeth[2] ei bod yn bwriadu:

> *... ystyried y trefniadau presennol ar gyfer cyhoeddi deddfwriaeth a'r weithdrefn offerynnau statudol ar gyfer y dyfodol, gyda'r bwriad o sefydlu darpariaeth*

---

[1] Ar gael yn: Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru - Law Commission

[2] Llywodraeth Cymru (Mehefin 2019) *Memorandwm Esboniadol - Bil Deddfwriaeth (Cymru),* para 81 (ar gael yn: pri-ld11927-em-r-w.pdf (senedd.cymru).)

*benodol i Gymru sy'n debyg i'r trefniadau hynny sy'n bodoli eisoes yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban.*

5. Mae'r Llywodraeth wedi dod i'r casgliad bod y sail ddeddfwriaethol ar gyfer gwneud a chyhoeddi deddfwriaeth Cymru yn anghyflawn ar hyn o bryd mewn sawl agwedd, ei bod ar gael yn Saesneg yn unig, a'i bod wedi ei gwasgaru ar draws tri neu bedwar deddfiad, y mae rhai ohonynt yn hynafol. Pan fo'r ddeddfwriaeth bresennol hon yn rhagddyddio creu deddfwrfa Cymru, fe'i haddaswyd o bryd i'w gilydd ar gyfer Cymru. Ond fel y disgwylid o addasiadau ôl-weithredol, gall fod yn anodd deall y darpariaethau hyn ac mewn rhai agweddau nid ydynt yn adlewyrchu'r trefniadau cyfansoddiadol ar gyfer Cymru. Mae diffyg rhwymedigaeth ddeddfwriaethol glir i argraffu Deddfau Senedd Cymru, ac nid yw deddfwriaeth Cymru yn cael ei chydnabod yn ffurfiol yng nghylch gwaith Argraffydd Deddfau Seneddol y Brenin. Er bod offerynnau statudol a wneir yng Nghymru yn cael eu labelu'n "Offerynnau Statudol Cymreig", nid oes cydnabyddiaeth ffurfiol o'r cysyniad hwn mewn deddfwriaeth, ac (yn wahanol i'r trefniadau cyfatebol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon) maent yn cael eu cyhoeddi fel rhan o "gyfres" y DU yn ehangach o offerynnau statudol. Yn gyffredinol, trefniadau anffurfiol yn unig sydd ar waith ar gyfer cyhoeddi is-ddeddfwriaeth nas gwneir drwy offeryn statudol.

6. Mae'r problemau hyn yn cael eu hystyried yn fanylach isod.

*Deddfau Senedd Cymru*

7. Mae adran 115 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn gwneud darpariaeth ynghylch y broses y mae Deddfau Senedd Cymru yn cael y Cydsyniad Brenhinol drwyddi (a, chan hynny, yn cael eu deddfu wedi iddynt gael eu pasio gan y Senedd). Mae adrannau 115(5) i (5F) yn cyfeirio at y fersiwn "official print" o Ddeddf gan Senedd Cymru ac at y "certified copy" o'r fersiwn print swyddogol. Maent hefyd yn cynnwys gofynion ynghylch ble y dylid anfon y rhain, ac ynghylch yr wybodaeth benodol sydd i gael ei chofnodi ar y fersiwn print swyddogol. Rhaid i Lyfrgell Genedlaethol Cymru gadw, a rhoi ar gael i'r cyhoedd, y fersiwn print swyddogol a'r Breinlythyrau sy'n dynodi'r Cydsyniad Brenhinol (adran 115(5F)).

8. O dan adran 115(5A), rhaid ysgrifennu'r flwyddyn galendr ac *"any prefix and number which has been assigned to that Act"* ar y fersiwn print swyddogol o'r Ddeddf. Mae Deddf Rhifo ac Enwi Deddfau Seneddol 1962 yn ymdrin â rhifo, i raddau, ar gyfer Deddfau gan Senedd y DU, ac mae adrannau 38(1) i (5) o Ddeddf Dehongli a Diwygio Deddfwriaethol (Yr Alban) 2010 (Deddf yr Alban 2010) yn gwneud darpariaeth ar gyfer rhifo Deddfau gan Senedd yr Alban.

9. Mae adran 39(2) o Ddeddf yr Alban 2010 hefyd yn darparu bod rhaid i Argraffydd y Brenin ar gyfer yr Alban weithredu fel a ganlyn:

> (a) must …. print copies of the certified Act and make them available for sale,
> (b) may make other arrangements for the publication of the certified Act.

10. Ni wneir darpariaeth debyg ar gyfer argraffu a chyhoeddi Deddfau Senedd Cymru yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 (nac mewn unrhyw ddeddfiad arall). Fodd bynnag, er nad yw'n ofynnol iddo wneud hynny, mae Argraffydd Deddfau Seneddol y Brenin yn ymgymryd â'r swyddogaeth hon mewn ymarfer.

11. Cyhoeddir y Breinlythyrau ar gyfer pob Deddf gan Senedd Cymru ar-lein yn *The Gazette* ac mewn print yn Gazettes Llundain, Belfast a Chaeredin (ni cheir "*Cardiff Gazette*"). Dyletswydd[3] Prif Weinidog Cymru, yn rhinwedd swyddogaeth Prif Weinidog Cymru fel Ceidwad y Sêl Gymreig, yw trefnu hyn.

*Offerynnau Statudol*

12. Mae'r gofynion sy'n ymwneud â chraffu ar OSau a wneir gan Weinidogion Cymru, a'u cyhoeddi, wedi eu nodi yn Neddf Offerynnau Statudol 1946 (Deddf 1946) a'r Rheoliadau Offerynnau Statudol 1947 (Rheoliadau 1947) cysylltiedig. Mae Deddf 1946 yn gymwys i Weinidogion Cymru, ac i offerynnau a wneir ganddynt, yn rhinwedd adran 11A o'r Ddeddf honno[4].

13. Ar hyn o bryd, nid oes y fath gysyniad cyfreithiol ag "offeryn statudol Cymreig", ond mae "offerynnau statudol" a wneir gan Weinidogion Cymru (neu awdurdod Cymreig datganoledig[5]), neu ar eu rhan, yn cael eu hargraffu mewn fformat sydd â phennyn bloc sy'n dwyn y teitl "Offerynnau Statudol Cymru". Maent yn ffurfio rhan o rywbeth a elwir (yn anffurfiol) yn 'gyfres o offerynnau statudol y DU' ac maent yn cael eu rhifo yn unol â hynny.

14. Fel yr esbonnir ar wefan legislation.gov.uk[6]:

> *Caiff Offerynnau Statudol y DU eu rhifo yn ddilyniannol bob blwyddyn. Caiff Offerynnau Statudol Cymru a'r Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor a wneir o dan Ddeddfau Gogledd Iwerddon eu cynnwys yn yr un dilyniant rhifau ag Offerynnau Statudol y DU. O fewn y dilyniant hwnnw, defnyddir rhif atodol*

---

[3] Erthygl 4, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Breinlythyrau) 2011 (OS 2011/752)
[4] Mewnosodwyd gan adran 160 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 3 o Atodlen 10 iddi
[5] O fewn yr ystyr a roddir i "devolved Welsh authority" gan adran 157A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006
[6] Gweler: "Cyfeirio a Rhifo" (gwelwyd ddiwethaf ar 19/09/24)

*mewn cromfachau ar ôl y rhif Offeryn Statudol (e.e. '(Cy. 22)'/'(W. 22)', (N.I. 15), ac ati) i'w dynodi. Mae Offerynnau Statudol gan y DU sy'n berthnasol i'r Alban yn unig wedi eu cynnwys yn nilyniant rhifo y DU hefyd. Dynodir y rhain gan rif atodol (e.e. '(S. 27)'). Ni ddylid cymysgu rhwng y rhain ac Offerynnau Statudol yr Alban - sydd â'u dilyniant rhifo 'SSI' eu hunain. Mae hyn yn wir hefyd am Reolau Statudol Gogledd Iwerddon - sydd â'u dilyniant rhifo 'SR' eu hunain ar wahân i ddilyniant 'SI' y DU.*

15. Felly, mae hyn yn rhoi darlun dryslyd. Gelwir Offerynnau Statudol a wneir yng Nghymru yn "Offerynnau Statudol Cymreig" er nad oes offeryn o'r fath yn bodoli mewn deddfwriaeth, a rhoddir iddynt rif Cymreig ond dim ond fel rhan (atodol) o system rifo'r DU. Nid yw Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor sy'n ymwneud â Chymru yn unig yn dwyn y teitl 'Offeryn Statudol Cymreig' ac nid yw'n cael y rhif atodol[7].

16. Mae'r gofynion ar gyfer argraffu a chyhoeddi Offerynnau Statudol yr Alban (SSIs) wedi eu nodi yn Neddf yr Alban 2010 a Rheoliadau Offerynnau Statudol yr Alban 2011 (OS 2011/195) (Rheoliadau yr Alban 2011). Mae Deddf yr Alban 2010 a Rheoliadau yr Alban 2011 yn ailddatgan yn fras, gyda rhai addasiadau, ddarpariaethau a wnaed yn wreiddiol yn y Gorchmynion Trosiannol ("Transitional Orders")[8]. Cafodd y Gorchmynion Trosiannol eu deddfu gan ragweld y byddai Senedd yr Alban yn dod i fodolaeth ac roeddent yn cynnwys Gorchymyn OS ("SI Order") ag iddo'r effaith o ddatgymhwyso adrannau 2 i 8 o Ddeddf 1946 o ran is-ddeddfwriaeth yr Alban gan greu math newydd o offeryn: "Scottish Statutory Instrument". Mae Rhan 2 o Ddeddf yr Alban 2010 a Rheoliadau yr Alban 2011 yn ailddatgan yn fras ddarpariaethau'r Gorchymyn OS.

17. Yng Ngogledd Iwerddon, y brif ffurf y gwneir is-ddeddfwriaeth arni yw drwy gyfrwng "statutory rule". Gwneir y rhain o dan Orchymyn Rheolau Statudol (Gogledd Iwerddon) 1979 (OS 1979/1573 (NI 12))[9]. Mae Ei Fawrhydi hefyd yn penodi "Government Printer for Northern Ireland" drwy Freinlythyrau.

18. Ni wnaed darpariaeth gyfatebol i honno ar gyfer yr Alban neu Ogledd Iwerddon ar gyfer Cymru ym 1999 pan sefydlwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, fel yr oedd ar y pryd, nac yn 2006 drwy'r newidiadau cyfansoddiadol a ddaeth yn sgil Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Felly, mewn gwirionedd, "offerynnau statudol" yn syml yw'r

---

[7] Gweler er enghraifft Gorchymyn Addysg (Arolygwyr Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru) (Rhif 2) 2023 (OS 2023/1212)

[8] Roedd y rhain fel a ganlyn: Gorchymyn Deddf yr Alban 1998 (Darpariaethau Darfodol a Throsiannol) (Cyhoeddi a Dehongli etc. Ddeddfau Senedd yr Alban) 1999 (OS 1999/1379); Gorchymyn Deddf yr Alban 1998 (Darpariaethau Darfodol a Throsiannol) (Offerynnau Statudol) 1999 (OS 1999/1096); a Gorchymyn Deddf yr Alban 1998 (Darpariaethau Darfodol a Throsiannol) (Gorchmynion sy'n ddarostyngedig i Weithdrefn Seneddol Arbennig) 1999 (OS 1999/1593).

[9] A wnaeth ddisodli Deddf Cyhoeddi Rheolau (Gogledd Iwerddon) 1925 (c. 6)

offerynnau sydd wedi eu labelu'n "Offerynnau Statudol Cymreig" ac maent yn rhan o'r gyfres o offerynnau statudol y DU. Mae Deddf 1946 wedi cael ei haddasu, i raddau, i ddarparu ar gyfer bodolaeth deddfwrfa Cymru, yn hytrach na bod darpariaeth bwrpasol yn cael ei gwneud, ac, o ganlyniad, yn Saesneg yn unig y nodir y gofynion ar gyfer yr offerynnau statudol a wneir gan Weinidogion Cymru. Mae'r gofyniad i gyhoeddi'r offerynnau statudol hyn yn gorwedd gydag Argraffydd Deddfau Seneddol y Brenin.

19. Er ei bod yn ymddangos fel pe bai Deddf 1946 yn darparu ar gyfer y gweithdrefnau y gwneir yr offerynnau yn unol â hwy, mewn gwirionedd dim ond y weithdrefn sydd wedi dod i'w hadnabod fel y "weithdrefn negyddol" sy'n cael ei thrin yn fanwl. Mae adran 4 o Ddeddf 1946, y mae angen ei darllen ar y cyd ag adran 7, yn darparu ar gyfer "statutory instruments which are subject to annulment by resolution of either House of Parliament" (y dylid ei darllen, o ran offerynnau statudol a wneir yng Nghymru, fel "subject to annulment by resolution of Senedd Cymru"). Fodd bynnag, nid yw hyn ond yn rhoi rhan o'r darlun. Mae defodau ac arferion wedi datblygu dros yr wyth degawd diwethaf sy'n golygu bod pedair prif weithdrefn yn cael eu defnyddio yn awr i wneud offerynnau statudol: gelwir y rhain yn aml yn "y weithdrefn negyddol", y "weithdrefn gadarnhaol ddrafft", y "weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed'" ac, os yw offeryn i gael ei osod ond nad oes rheolaeth Seneddol arall yn cael ei chymhwyso iddo, fe'i hadwaenir fel "dim gweithdrefn". Labeli anffurfiol yw'r rhain, fodd bynnag, ac mae'r deddfiadau sy'n rhoi'r pwerau i wneud yr is-ddeddfwriaeth yn egluro pa weithdrefn a ddilynir, yn fanwl mewn rhai achosion. Defnyddir gweithdrefnau eraill, er yn llawer mwy anfynych na'r pedair prif weithdrefn; ac mewn rhai achosion, addasiadau ydynt o brif weithdrefn. Yn gyffredinol, nid oes rheswm amlwg pam mae'r gweithdrefnau sy'n fwy anfynych, neu'r addasiadau, wedi cael eu mabwysiadu.

*Is-ddeddfwriaeth nas gwneir fel offeryn statudol*

20. Mae'r wefan legislation.gov.uk (a weithredir gan yr Archifau Gwladol) yn rhoi mynediad at Ddeddfau Senedd Cymru a Mesurau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ynghyd ag offerynnau statudol a wneir yng Nghymru. Nid yw'r wefan, fodd bynnag, yn cyhoeddi is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru, neu ar eu rhan, nas cynhwysir mewn offeryn statudol. Mynegwyd pryderon ynghylch argaeledd a hygyrchedd y fath is-ddeddfwriaeth "nad yw'n OS" ers sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol (fel yr oedd ar y pryd). Er enghraifft, cynigiwyd gwelliannau yn Nhŷ'r Arglwyddi, i'r Bil a fyddai'n dod yn Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, i osod dyletswyddau ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi pob darn o ddeddfwriaeth, neu i sefydlu cofrestr o'r holl is-ddeddfwriaeth nas gwneir drwy offeryn statudol.

21. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn cyhoeddi copïau o'r is-ddeddfwriaeth sydd ar y ffurf hon ar ei gwefan. Ond mae'r arfer wedi amrywio dros y blynyddoedd o ran a gaiff

ei rhifo, a'i chatalogio ai peidio, a sut, a sut y caiff ei rhoi ar gael yn y lle cyntaf i'r cyhoedd ei gweld a'i chadw felly wedi hynny. Ar hyn o bryd, yn unol â gweithdrefnau'r Llywodraeth, gwneir cofnod o'r ddeddfwriaeth ar gofrestr ganolog fewnol, dyrennir rhif adnabod unigryw i bob eitem o is-ddeddfwriaeth nad yw'n OS, a chyhoeddir yr is-ddeddfwriaeth honno ar wefan y Llywodraeth. Fodd bynnag, nid yw sicrhau bod y weithdrefn yn cael ei dilyn bob amser yn syml, yn rhannol oherwydd gall penderfynu a oes gan ddogfen nodweddion deddfwriaeth ai peidio fod yn agored i ddehongliad.

22. Mae cyfran sylweddol o'r is-ddeddfwriaeth nad yw'n OS a wneir bob blwyddyn gan Weinidogion Cymru yn ymwneud â gorchmynion ffyrdd dros dro, y cyfeirir atynt yn gyffredinol fel "gorchmynion cau priffyrdd". Ochr yn ochr â'r rhain, mae Gweinidogion Cymru hefyd yn gwneud nifer o orchmynion ffyrdd dros dro drwy offeryn statudol[10] – dros y pedair blwyddyn ariannol ddiwethaf (a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2024), cafodd ychydig o dan 500 o orchmynion o'r math hwn eu gwneud. Yn gyffredinol, mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi'r rhain ar ei gwefan, er eu bod hefyd yn cael eu cyhoeddi ar wefan legislation.gov.uk a weithredir gan yr Archifau Gwladol (yn wahanol i'r gorchmynion cau priffyrdd). Gan fod y ddau fath o'r gorchmynion hyn yn cael eu cyhoeddi arni, gellir dadlau bod gwefan y Llywodraeth yn darparu ffynhonnell fwy cynhwysfawr i ddefnyddwyr sy'n ceisio darganfod a oes cyfyngiadau neu drefniadau dros dro ar waith, neu wedi bod ar waith, ar gyfer ffyrdd penodol.

23. At hynny, mae'r gofyniad i wneud gorchmynion ffyrdd dros dro penodol fel offerynnau statudol yn arwain at gostau i'r Llywodraeth – gweler paragraff 117 isod. Nid yw gorchmynion ffyrdd dros dro cyfatebol a wneir o ran Lloegr, gan National Highways, yn cael eu gwneud drwy offeryn statudol.

### ***Darpariaethau deddfwriaethol nad ydynt o ddefnyddioldeb ymarferol neu o fudd mwyach***

24. Mae gan y Llywodraeth raglen barhaus i wella hygyrchedd cyfraith Cymru[11]. Mae'r rhaglen hon yn ceisio mynd i'r afael â phroblemau sy'n ymwneud â chymhlethdod y gyfraith, a chyflwr anhrefnus ein llyfr statud anferth a gwasgarog. Caiff problemau cyfraith nad yw'n hygyrch eu hachosi nid yn unig gan y swm enfawr o ddeddfwriaeth ond hefyd oherwydd bod y ddeddfwriaeth honno wedi cael ei diwygio, ei hailddiwygio a'i hail-wneud mewn ffyrdd anghyson dros amser. Weithiau, gall y newidiadau hynny arwain at ddarpariaethau deddfwriaethol nad ydynt yn angenrheidiol mwyach. Gall

[10] Mae'r rhain yn cael eu dosbarthu'n offerynnau "lleol" ac, o dan yr esemptiadau y darperir ar eu cyfer yn Rheoliadau 1947, nid ydynt yn cael eu hargraffu gan Argraffydd y Brenin, er eu bod ar gael ar wefan legislation.gov.uk

[11] Mae'r rhaglen bresennol ar gael yn: Dyfodol cyfraith Cymru: rhaglen ar gyfer 2021-2026 | GOV.CYMRU

ddigwydd hefyd na fydd darpariaethau yn cael eu defnyddio mwyach neu ni fyddant yn dod i rym o gwbl (yn aml oherwydd bod amgylchiadau eraill wedi eu gwneud yn ddiangen).

25. Gall tynnu darpariaethau diangen o'r llyfr statud helpu i'w "dacluso" ac mae diwygio darpariaethau fel nad ydynt yn gymwys mwyach o ran Cymru yn helpu i ddarparu eglurder ynghylch pa gyfreithiau sy'n berthnasol i Gymru.

26. Os canfyddir y darpariaethau diangen mewn Deddfau (gan Senedd y DU neu gan Senedd Cymru) gall fod angen rhagor o ddeddfwriaeth sylfaenol i'w dileu. Yn hytrach nag aros am Fil addas sy'n ymdrin â newidiadau eraill i'r maes hwnnw o'r gyfraith, gellir cyflwyno Bil sydd, yn syml, yn diddymu neu'n datgymhwyso darpariaethau deddfwriaethol o unrhyw ran o'r llyfr statud. Pan fydd Biliau o'r fath wedi bod drwy Senedd y DU, maent fel arfer wedi cael eu hadnabod fel Biliau 'Cyfraith Statud (Diddymiadau)'. Mae tua 20 o Filiau o'r fath wedi cael eu deddfu gan Senedd y DU (wedi iddynt gael eu drafftio gan Gomisiwn y Gyfraith), er nad oes yr un wedi bod ers 2013 yn sgil toriadau yng nghyllideb Comisiwn y Gyfraith, ac nid oes yr un wedi ei ystyried gan Senedd Cymru eto.

27. Mae "Bil diddymiadau" yn helpu i wella hygyrchedd cyfraith Cymru drwy foderneiddio a symleiddio'r gyfraith, gan leihau maint y llyfr statud a'i wneud yn haws ei ddefnyddio. Mae hyn yn arbed amser cyfreithwyr a defnyddwyr deddfwriaeth eraill, yn helpu i osgoi costau diangen ac yn atal pobl rhag cael eu camarwain gan gyfreithiau darfodedig. Rhagwelir y bydd Bil sy'n ymdrin â'r math hwn o ddiddymiadau yn ymddangos yn y rhan fwyaf o raglenni'r Llywodraeth i wella hygyrchedd cyfraith Cymru.

### *Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019*

28. Yn ystod hynt y Bil a ddaeth yn Ddeddf 2019, gwnaed ymrwymiad i adolygu'r Ddeddf ran o'r ffordd yn ystod y Senedd bresennol. Cynhaliwyd yr adolygiad hwnnw yn 2023 a ffurfiodd y casgliadau ran o adroddiad blynyddol y Cwnsler Cyffredinol ar gyfer 2022-23 ar gynnydd o dan raglen y Llywodraeth i wella hygyrchedd cyfraith Cymru[12].

29. Nododd yr adolygiad agweddau penodol ar Ran 2 o Ddeddf 2019 (sy'n gwneud darpariaeth ynghylch dehongli a gweithredu deddfwriaeth) a allai fod yn fwy eglur, yn enwedig yng ngoleuni'r profiad o ddrafftio Biliau cydgrynhoi a oedd wedi digwydd ers i'r Bil gael ei ddeddfu. Byddai angen deddfwriaeth sylfaenol i wneud y newidiadau hynny, ac felly mae angen cyfrwng deddfwriaethol addas i sicrhau bod Deddf 2019 yn gweithio yn effeithiol.

---

[12] Ar gael yn: [dyfodol-cyfraith-cymru-adroddiad-blynyddol-2022-i-2023.pdf (llyw.cymru)]

## Yr amcanion polisi

30. Fel y cyfeirir ato uchod, diben y Bil yw tynnu ynghyd y trefniadau ar gyfer gwneud a chyhoeddi deddfwriaeth Cymru, a ffurfioli'r trefniadau hynny, a gwella hygyrchedd cyfraith Cymru. Ystyrir pob agwedd ar ei gynnwys isod.

***Gwneud a chyhoeddi deddfwriaeth Cymru***

31. Mae'r Bil yn mewnosod dwy Ran newydd a thair Atodlen newydd yn Neddf 2019 ynghylch gwneud a chyhoeddi deddfwriaeth Cymru. Mae hyn yn osgoi gwneud darpariaeth 'annibynnol' mewn Deddf ar wahân ac yn sicrhau, yn hytrach, fod y darpariaethau hyn yn ffurfio rhan o'r ddeddf Gymreig sydd eisoes yn ymdrin â hygyrchedd, dehongli a gweithredu deddfwriaeth Cymru.

32. Mae'r Rhan 2A newydd arfaethedig o Ddeddf 2019 yn symleiddio ac yn codeiddio gweithdrefnau'r Senedd ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth a, thrwy wneud hynny, mae'n adlewyrchu'n briodol fodolaeth yr "offeryn statudol Cymreig". Mae'r Rhan 2B newydd yn cynnig mynegiant clir a modern o'r broses o gyhoeddi deddfwriaeth (Deddfau Senedd Cymru, offerynnau statudol Cymreig ac is-ddeddfwriaeth arall).

33. O ganlyniad, bydd Deddfau Senedd Cymru yn y dyfodol yn darparu y dylid gwneud is-ddeddfwriaeth a wneir oddi tanynt fel "offeryn statudol Cymreig" yn hytrach na thrwy "offeryn statudol" (gan olygu y bydd yr agweddau perthnasol ar Ran 2B ynghylch rhifo, cyhoeddi a chadw'r fath offerynnau yn berthnasol).

34. At hynny, mae'r darpariaethau i bob pwrpas yn codeiddio gweithdrefnau presennol Senedd Cymru ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth drwy roi iddynt enwau ffurfiol (neu labeli). Gan fod Rhan 2A yn pennu'r hyn y mae pob enw yn ei olygu, gall Deddfau Senedd Cymru yn y dyfodol ddefnyddio'r termau hyn yn hytrach na nodi'r gofynion ar gyfer pob gweithdrefn ym mhob Deddf (fel sy'n digwydd ar hyn o bryd). Fel gydag agweddau eraill ar Ddeddf 2019, mae hyn yn helpu i fyrhau a symleiddio deddfwriaeth y dyfodol, a hyrwyddo cysondeb yn iaith, ffurf a gweithrediad deddfwriaeth y dyfodol.

35. Mae Rhan 2A hefyd yn sicrhau y bydd pwerau presennol mewn Deddfau, sy'n arferadwy gan Weinidogion Cymru neu awdurdod Cymreig datganoledig, i wneud is-ddeddfwriaeth ar ffurf offeryn statudol yn y dyfodol yn cael eu harfer ar ffurf offeryn statudol Cymreig. Bydd y gweithdrefnau presennol sy'n gymwys i wneud is-ddeddfwriaeth yn cael eu 'trosi' yn un o weithdrefnau codeiddiedig Senedd Cymru. Gwneir hyn gan yr Atodlen 1A newydd arfaethedig.

36. Yn yr un modd, mae Rhan 2A yn cymhwyso gweithdrefnau codeiddiedig Senedd Cymru i is-ddeddfwriaeth arall a wneir drwy offeryn statudol, na chaiff ei gwneud drwy offeryn statudol Cymreig ond y creffir arni gan Senedd Cymru serch hynny. Yn benodol, mae hyn yn berthnasol i: (1) is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru ynghyd â pherson arall (heblaw awdurdod Cymreig datganoledig) – i bob pwrpas, Gweinidog y Goron (gweinidog Llywodraeth y DU); a (2) Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor (is-ddeddfwriaeth benodol, o natur gyfansoddiadol yn gyffredinol, a wneir gan y Cyfrin Gyngor). Gwneir darpariaeth ar gyfer pob un yn Atodlenni 1B ac 1C, sy'n cynnwys nodi union weithdrefn godeiddiedig Senedd Cymru ar ffurf a addaswyd ychydig (gan newid y derminoleg fel y bo'n briodol).

37. Mae adran 2 o'r Bil yn diwygio deddfiadau traffig ffyrdd penodol fel na fydd Gweinidogion Cymru yn gwneud gorchmynion traffig ffyrdd lleol dros dro penodol ar ffurf offerynnau statudol Cymreig (neu offerynnau statudol) mwyach. Darperir esboniad llawnach o adran 2 a'r Rhannau 2A a 2B newydd i Ddeddf 2019 yn y Nodiadau Esboniadol i'r Bil (yn Atodiad A o'r Memorandwm hwn).

***Diddymiadau a diwygiadau i ddarpariaethau nad ydynt o ddefnyddioldeb ymarferol neu o fudd mwyach***

38. Rhoddwyd ystyriaeth neilltuol i ddileu darpariaethau diangen penodol mewn deddfwriaeth bresennol sy'n ymwneud â'r system gynllunio, neu sy'n gysylltiedig â'r system honno. Gwnaed hyn oherwydd mai un o'r prosiectau allweddol yn rhaglen y Llywodraeth i wella hygyrchedd cyfraith Cymru yw mynd i'r afael â chymhlethdodau ac aneffeithlonrwydd y gyfraith cynllunio yng Nghymru. Bydd y Llywodraeth, yn ystod tymor y Senedd hon, yn cyflwyno Bil cydgrynhoi i symleiddio a moderneiddio'r gyfraith cynllunio yng Nghymru. Mae'r angen am y Bil yn hirsefydledig, fel y dangoswyd yn glir pan ddaeth adroddiad Comisiwn y Gyfraith, *Cyfraith Cynllunio yng Nghymru*[13], i'r casgliad ei fod yn faes o'r gyfraith y mae angen rhoi sylw iddo ar fyrder. Tynnodd ei adroddiad sylw at yr effeithiau niweidiol y mae diffyg hygyrchedd, ansawdd a chymhlethdod y gyfraith yn eu cael ar weithrediad y system gynllunio – canfyddiadau sydd wedi eu derbyn gan y Llywodraeth.

39. Bydd mynd i'r afael â rhai o'r darpariaethau cynllunio diangen yn y Bil hwn yn golygu y bydd yn bosibl i rywfaint o'r gwaith o dacluso'r llyfr statud o ran cynllunio fynd rhagddo yn gynharach nag a fyddai'n digwydd fel arall, a bydd hefyd yn osgoi cynnwys darpariaethau ynghylch y diddymiadau hynny yn y Bil Cynllunio. Bwriad y Llywodraeth yw y bydd y Bil Cynllunio yn sefyll fel y datganiad o sylwedd ar y gyfraith cynllunio yng Nghymru, ac ni fydd darpariaethau a ddisbyddwyd, sy'n ddiangen neu sy'n ddarfodedig ond yn ychwanegu at hyd a chymhlethdod y Bil hwnnw. Mae'r Bil Deddfwriaeth

[13] Ar gael yn: [Cyfraith Cynllunio yng Nghymru | Comisiwn y Gyfraith]

(Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru), felly, yn diddymu ac yn diwygio darpariaethau ynghylch:

a. Byrddau Datblygu Gwledig;
b. ardaloedd parthau menter;
c. ymddiriedolaethau gweithredu tai;
d. cynlluniau lleol, cynlluniau strwythur a chynlluniau datblygu unedol;
e. polisïau ynni mewn cynlluniau datblygu; ac
f. symud ymaith bridd ar gyfer datblygu heb gydsyniad.

40. Yn ychwanegol at y cynigion ynghylch cynllunio, mae'r Bil hefyd yn diddymu ac yn diwygio darpariaethau sy'n ymdrin ag:

a. ad-drefnu llywodraeth leol;
b. datganiadau o anghenion addysgol arbennig;
c. byrddau cynllunio Parciau Cenedlaethol;
d. Awdurdod Datblygu Cymru;
e. Bwrdd Datblygu Cymru Wledig;
f. Awdurdod Tir Cymru;
g. rhywogaethau estron goresgynnol;
h. hawliau tramwy cyhoeddus sydd heb eu cofnodi;
i. materion amrywiol yn Neddf Llywodraeth Cymru 1998 a Deddf Llywodraeth Cymru 2006; a
j. croesgyfeiriad diangen yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024.

41. Mae'r Bil hefyd yn diddymu, yn gyfan gwbl, Fesur a Deddf gan Senedd Cymru:

a. Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011; a
b. Deddf Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021.

42. Mae esboniad o gefndir y darpariaethau sy'n cael eu diddymu neu eu diwygio, ynghyd â'r sail resymegol ar gyfer eu cynnwys yn y Bil hwn, wedi eu nodi yn y Nodiadau Esboniadol ar gyfer y Bil (yn Atodiad A o'r Memorandwm hwn).

***Diwygiadau i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019***

43. Mae'r Bil yn gwneud mân ddiwygiadau i Ran 2 o Ddeddf 2019 i gynnig eglurdeb ynghylch tri mater a nodwyd gan ddrafftwyr arbenigol deddfwriaeth sylfaenol y Llywodraeth:

a. cymhwyso adran 16 o Ddeddf 2019 (ynghylch arfer pwerau a dyletswyddau nad ydynt mewn grym eto);

b. dod â Mesurau gan Eglwys Loegr o fewn ystyr "deddfiad" at ddibenion adrannau 21, 25 a 32 i 35 o Ddeddf 2019; ac

c. effaith adran 35 o Ddeddf 2019 ar gymhwyso is-ddeddfwriaeth i'r Goron.

44. Yng ngoleuni'r newidiadau ehangach sy'n cael eu gwneud i Ddeddf 2019 o ran gwneud a chyhoeddi mewn deddfwriaeth, mae'r Bil yn gwneud newidiadau pellach i'r Ddeddf honno drwy:

a. diwygio ystyr is-offerynnau Cymreig yn adran 3 o Ddeddf 2019;

b. mewnosod darpariaeth newydd (adran 12A) ynghylch gosod dogfennau gerbron Senedd Cymru;

c. ychwanegu at adran 36 (a'i hailenwi) o ran cyfeirio at ddeddfiadau ar ôl iddynt gael eu diddymu a'u dirymu;

d. rhoi yn lle'r adran 40 bresennol (cyfuno is-ddeddfwriaeth sy'n ddarostyngedig i weithdrefnau gwahanol yn y Senedd) adran newydd 37G, a fydd yn dod o fewn y Rhan 2A newydd.

45. Darperir esboniad llawnach o'r diwygiadau arfaethedig yn y Nodiadau Esboniadol i'r Bil (yn Atodiad A o'r Memorandwm hwn) a darperir eglurhad o'r diwygiadau yn eu cyd-destun sy'n deillio o Atodlen 2 yn Atodiad C o'r Memorandwm hwn.

46. Ymdrinnir â diwygiadau canlyniadol pellach i Ddeddf 2019, sy'n deillio o'r Bil hwn, yn Atodlen 3 i'r Bil (gweler, yn benodol, baragraffau 9 i 15 o'r Atodlen honno).

## Cymhwysedd deddfwriaethol

47. Mae gan Senedd Cymru y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud y darpariaethau yn y Bil yn unol â Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017. Mae angen cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol, serch hynny, o ran y darpariaethau sy'n effeithio ar Argraffydd Deddfau Seneddol y Brenin (y cyfeirir ato fel Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru i'r graddau ag y bo arfer y swyddogaethau hyn o dan sylw). Cafwyd y cydsyniad hwnnw ar 27 Ionawr 2025.

48. Mae'r Cwnsler Cyffredinol, fel yr Aelod sy’n Gyfrifol am y Bil hwn, wedi gwneud datganiad yn unol â Rheol Sefydlog 26.6(i) – gweler tudalen 5 o’r Memorandwm Esboniadol hwn.

## Dulliau eraill o gyflawni'r amcanion polisi

***Gwneud a chyhoeddi deddfwriaeth Cymru***

49. Mae'r Llywodraeth eisoes wedi ymrwymo i ystyried y trefniadau ar gyfer gwneud a chyhoeddi deddfwriaeth Cymru. A’r rhain wedi cael eu hadolygu bellach, heb ddiwygio deddfwriaethol, ni fyddai’n bosibl cyflawni’r amcan o dynnu ynghyd y trefniadau ar gyfer gwneud a chyhoeddi deddfwriaeth Cymru, a ffurfioli’r trefniadau hynny. O’r herwydd, yr unig opsiwn arall fyddai parhau â phethau fel y maent ar hyn o bryd. Gallai’r Llywodraeth a Senedd Cymru barhau i weithredu gan ddefnyddio’r gweithdrefnau presennol ar gyfer gwneud deddfwriaeth ac, ar gyfer y Llywodraeth, byddai hyn hefyd yn cynnwys cyhoeddi is-ddeddfwriaeth sy’n cael ei gwneud heblaw drwy offeryn statudol. Fodd bynnag, byddai hyn yn golygu na fyddai’r gyfraith yn adlewyrchu’n llawn ac yn gywir y trefniadau ar gyfer cyhoeddi deddfwriaeth a byddai’r gyfraith yn Saesneg yn unig.

***Diddymiadau a diwygiadau i ddarpariaethau nad ydynt o ddefnyddioldeb ymarferol neu o fudd mwyach***

50. Fel y nodwyd uchod, mae’n bosibl[14] y bydd angen deddfwriaeth sylfaenol i ddileu darpariaethau nad ydynt yn angenrheidiol mwyach mewn Deddfau gan Senedd Cymru neu Ddeddfau gan Senedd y DU. Gellir gwneud hyn pan gyflwynir Bil diwygio’r gyfraith sy’n ymdrin â phwnc penodol[15], ond nid oes sicrwydd y bydd cyfrwng addas ar gael ar adeg addas. Gall cynnwys diddymiad arfaethedig hefyd gael goblygiadau ar gyfer cwmpas y Bil sydd o dan sylw, a’r ffordd yr ymdrinnir ag ef, os nad yw’n ymwneud yn uniongyrchol â’r maes o’r gyfraith lle mae’r mater yn codi.

51. Gall darpariaethau diangen barhau yn y llyfr statud am flynyddoedd lawer, felly, yn aros i Fil addas fynd i’r afael â hwy. Gallai Llywodraeth Cymru barhau i weithredu fel hyn, ond ni fyddai hynny yn cefnogi’r amcan polisi cyffredinol o wella hygyrchedd cyfraith Cymru.

[14] Gan gydnabod y gallai rhai diddymiadau fod yn bosibl gan ddefnyddio pwerau i wneud diwygiadau canlyniadol a diwygiadau eraill mewn is-ddeddfwriaeth

[15] Gweler, er enghraifft, adran 62(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 y cafodd darpariaeth ddiangen (adran 106(6)) yn Neddf Llywodraeth Leol 2000) ei hepgor ganddi.

***Diwygiadau i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019***

52. Heb ddiweddaru Rhan 2 o Ddeddf 2019 o ran y materion a nodir ym mharagraffau 43 a 44 uchod, byddai’n rhaid aros cyn rhoi eglurhad ac ymdrin â hyn fesul achos mewn deddfiadau unigol yn y dyfodol. Er enghraifft, byddai angen i Fil ar fater y byddai Mesurau gan Eglwys Loegr yn berthnasol iddo, neu y gallent fod yn berthnasol iddo, gael darpariaeth benodol i fynd i’r afael â hynny yn y Bil ei hun, yn hytrach na dibynnu ar y trefniadau cyffredinol y darperir ar eu cyfer yn Neddf 2019. Fel arall, gallai’r mân amwyseddau presennol barhau, gan danseilio (er mai cyfyngedig fyddai’r effaith) fwriad Deddf ddehongli.

53. I’r graddau y mae’r pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth cyn unrhyw ddarpariaethau eraill o dan sylw, mae’n agored i Weinidogion Cymru arfer pwerau sydd ganddynt yn gyffredinol i ddod â Deddfau i rym. Ar y cyfan mae hyn yn cynnwys y gallu i ddod â darpariaethau penodol i rym at ddibenion gwahanol ar adegau gwahanol. Fel hyn, gall Gweinidogion ddod â phwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i rym cyn y daw gweddill y Ddeddf i rym (ac fe wneir hyn yn aml). Fodd bynnag, mae hyn yn arwain at gryn gymhlethdod ychwanegol wrth ddod â deddfwriaeth i rym ac nid oes iddo unrhyw ddiben defnyddiol i’r sawl sy’n defnyddio deddfwriaeth.

54. Ni fyddai angen i’r newidiadau ychwanegol i Ddeddf 2019, sy’n codi o ganlyniad i’r newidiadau ehangach sy’n cael eu gwneud ynghylch gwneud a chyhoeddi deddfwriaeth Cymru, gael eu gwneud (ar y cyfan) mwyach.

*Gadawyd y dudalen hon yn wag yn fwriadol*

# Rhan 2 – Ymgynghori

## Ymgyngoriadau a gynhaliwyd cyn cyflwyno'r Bil

55. Cyhoeddwyd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ddrafft o "Fil Cyfraith Statud (Diddymiadau) (Cymru)" ar 7 Hydref 2022 ar wefan y Llywodraeth[16]. Fe'i tynnwyd at sylw rhanddeiliaid hysbys sydd â diddordeb yn hygyrchedd y gyfraith, yn ogystal â'r rhai sydd â diddordeb posibl mewn elfennau penodol o'r cynigion. Ysgrifennodd y Prif Weinidog ar y pryd at y Llywydd ar ddechrau'r ymgynghoriad, gan fod y cynigion yn cynnwys dirymu Deddf Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021. Cafodd y rhanddeiliaid posibl eu hatgoffa'n rheolaidd o'r ymgynghoriad a'r dyddiad cau. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn am 13 wythnos, gan gau ar 6 Ionawr 2023.

56. Mae pedwar ymgynghoriad arall yn berthnasol i'r Bil hwn:

   a. Fel rhan o'i waith cyn ei adroddiad, *Cyfraith Cynllunio yng Nghymru*, ymgynghorodd Comisiwn y Gyfraith ar y rhan fwyaf o'r cynigion yn y Bil hwn sy'n ymdrin â materion paratoadol ar gyfer y Bil Cynllunio, gan gynnwys, er enghraifft, y darpariaethau sy'n ymwneud ag ymddiriedolaethau gweithredu tai. Cafodd manylion a chanfyddiadau'r ymgynghoriad hwnnw eu nodi yn ei adroddiad a'u crynhoi (mewn perthynas â diddymiadau) yn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y fersiwn ddrafft o Fil Cyfraith Statud (Diddymiadau) drafft (Cymru).

   b. Mae Rhan 7 o Atodlen 1 i'r Bil yn diddymu Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011 (gweler isod). Ym mis Tachwedd 2020, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar gynigion i ddiwygio'r Rheoliadau Adeiladu i wneud mesurau awtomatig ar gyfer llethu tanau yn ofynnol mewn cartrefi gofal plant. Cynhaliwyd ymgynghoriad pellach[17] rhwng 14 Rhagfyr 2022 a 7 Mawrth 2023 ar y diwygiadau penodol y byddai angen eu gwneud i'r Rheoliadau Adeiladu.

   c. Mae Rhan 11 o Atodlen 1 i'r Bil yn diddymu Deddf Diwydiant 1979 a Deddf Awdurdod Datblygu Cymru 1997 yn ogystal â diwygio Deddf Diwydiant 1980. Cynigiwyd y tri mater yn adroddiad Comisiwn y Gyfraith, *Statute Law Repeals: Twentieth Report Draft Statute Law (Repeals) Bill*, Mehefin 2015, a luniwyd ar ôl ymgynghoriad a thrafodaeth helaeth.

[16] Gweler: [Bil Cyfraith Statud (Diddymiadau) (Cymru) | LLYW.CYMRU]
[17] Gweler: [Systemau awtomatig ar gyfer llethu tân mewn cartrefi gofal plant | LLYW.CYMRU]

d. Mae Rhan 14 o Atodlen 1 i'r Bil yn diwygio Atodlen 9 i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (Deddf 1981), er mwyn dileu cyfeiriad at dair rhywogaeth anfrodorol. Mae adran 22 o Ddeddf 1981 ac erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, ac Atodlen 1 iddi, yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ddiwygio Atodlen 9 drwy Orchymyn; mae adran 26 o Ddeddf 1981 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi cyfle i unrhyw awdurdod lleol ac unrhyw berson arall yr effeithir arno gyflwyno gwrthwynebiadau neu sylwadau ar fater y Gorchymyn arfaethedig. Er nad yw adran 26 yn gymwys i ddiwygio Atodlen 9 drwy'r Bil hwn, mae'n werth nodi bod y Gangen Iechyd Planhigion a Diogelu'r Amgylchedd o fewn Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu ym mis Ionawr 2021 at y 22 awdurdod lleol yng Nghymru, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) yn gofyn am farn am ddileu'r tair rhywogaeth o Atodlen 9. Cadarnhaodd CNC a JNCC eu bod yn fodlon â'r cynnig. Dim ond un awdurdod lleol ymatebodd, gan ofyn cwestiwn anghysylltiedig am ddosbarthiad llyngyr lledog o Seland Newydd yng Nghymru.

## Crynodeb o ganlyniadau ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Bil drafft

57. Cafodd Llywodraeth Cymru wyth ymateb i'r ymgynghoriad ar Fil Cyfraith Statud (Diddymiadau) drafft (Cymru). Cafodd saith o'r rhain eu cyhoeddi, ynghyd ag adroddiad yn crynhoi’r ymatebion i'r ymgynghoriad. Ni chyhoeddwyd yr wythfed ymateb yn unol â chais yr ymatebydd.

58. Roedd y rhan fwyaf o’r ymatebion yn gwneud sylwadau ar un neu ddau o faterion yn unig ac roeddent yn bennaf o blaid y cynigion. Nid oedd un ymatebydd yn cytuno ag unrhyw un o'r diddymiadau a'r diwygiadau arfaethedig yn y Bil drafft. Roedd rhai o'r sylwadau manylach a ddaeth i law yn ymwneud â mân bwyntiau technegol a mân bwyntiau drafftio, sydd wedi cael eu hadolygu ers hynny gan ddrafftwyr deddfwriaethol y Bil.

### *Diwygiadau yn sgil yr ymgynghoriad*

59. Ar ôl ystyried yr ymatebion i’r ymgynghoriad ac yn sgil gwaith parhaus i ddatblygu’r darpariaethau, mae nifer o fân newidiadau i'r Bil bellach wedi eu gwneud. Crynhoir y rhain yn Nhabl 1 isod.

*Tabl 1 – Crynodeb o'r newidiadau a wnaed yn dilyn ymgynghori*

| **Newid a wnaed**<br>(Mae cyfeiriadau at adrannau, Rhannau neu baragraffau yn cyfeirio at adran yn y Bil Drafft, neu at Ran neu baragraff o'r Atodlen iddo) | **Rheswm dros y newid** |
|---|---|
| Diweddaru’r enw hir i adlewyrchu cwmpas y Bil terfynol | Nodwyd gan y cwnsleriaid deddfwriaethol |
| Diweddaru enw adran 1 a diwygio’r rhagdestun gan fod mwy nag un Atodlen yn y Bil terfynol | Nodwyd gan y cwnsleriaid deddfwriaethol |
| Disodli adran 2 i adlewyrchu’r Bil terfynol ac arferion drafftio cyfredol | Nodwyd gan y cwnsleriaid deddfwriaethol |
| Cynnwys disgrifiadau o adrannau neu Atodlenni ym mharagraffau 1(3), 4(2), 4(3), 4(4), 7(a) i (d), 23(1), 27(2), 27(3)(a) i (d), 27(3)(f), 27(5), 31, 33, 43(6), 43(7) a 54 o'r Atodlen<br>Mae'r disgrifiad o adran ym mharagraffau 26 a 43(3), a'r disgrifiad o baragraff ym mharagraff 53(l), wedi eu diweddaru | Cysondeb y dull drafftio ac i gynyddu hygyrchedd Bil |
| Ychwanegu rhifau penodau Deddfau at benawdau italig uwchben paragraffau 16, 27, 49 ac ym mharagraff 51(3)(b)(i) | Cysondeb y dull drafftio |
| Ailstrwythuro a diwygio paragraff 1(2) i osgoi awgrymu nad yw'r darpariaethau o dan sylw yn rhychwantu'r Alban | Yn ymateb i'r ymgynghoriad ac ystyriaeth bellach gan y cwnsleriaid deddfwriaethol |
| Hepgor testun paragraff 2 | Nodwyd gan y cwnsleriaid deddfwriaethol |
| Hepgor paragraff 4(5) | Dangosodd dadansoddiad pellach fod y ddarpariaeth hon yn ddiangen |
| Mân ddiwygiadau i baragraffau 5 a 6 i wella'r modd y mae’r Bil wedi ei ddrafftio a gwella cysondeb | Nodwyd gan y cwnsleriaid deddfwriaethol |

| **Newid a wnaed**<br>(Mae cyfeiriadau at adrannau, Rhannau neu baragraffau yn cyfeirio at adran yn y Bil Drafft, neu at Ran neu baragraff o'r Atodlen iddo) | **Rheswm dros y newid** |
|---|---|
| Ehangu a diwygio Rhan 3 (sy’n ymdrin â diwygiadau i Ran 3 o Ddeddf Tai 1988 a ddaeth i rym ar ôl i’r Bil Drafft gael ei orffen, a materion cysylltiedig eraill a ddaeth i’r amlwg wrth ymdrin â’r diwygiadau hynny) | Nodwyd gan y cwnsleriaid deddfwriaethol |
| Ailstrwythuro a diwygio paragraff 9 i roi eglurder a rhoi sylw i fân ddiwygiad angenrheidiol pellach | Nodwyd gan y cwnsleriaid deddfwriaethol |
| Diweddaru teitl Rhan 4 i adlewyrchu darpariaethau newydd sydd wedi eu cynnwys (gweler paragraff 68 o’r Memorandwm Esboniadol isod) | Sicrhau bod y Rhan yn cael ei disgrifio'n briodol |
| Mân ddiwygiadau i baragraff 16 i wella’r modd y mae’r Bil wedi ei ddrafftio, a rhoi sylw i fân ddiwygiad angenrheidiol pellach | Nodwyd gan y cwnsleriaid deddfwriaethol |
| Mân ddiwygiadau ac ailstrwythuro paragraffau 19 i 21 i sicrhau cysondeb o ran drafftio'r Bil | Nodwyd gan y cwnsleriaid deddfwriaethol |
| Ail-rifo paragraff 18 (O.S. 2005/2847) | Nodwyd gan y cwnsleriaid deddfwriaethol |
| Ail-rifo Rhan 6 (Polisïau ynni mewn cynlluniau datblygu) yn Rhan 5 | Nodwyd gan y cwnsleriaid deddfwriaethol |
| Diwygio paragraff 27(3)(d) i roi eglurder | Nodwyd gan y cwnsleriaid deddfwriaethol |
| Symud paragraff 27(4)(a) ac (c) i baragraff newydd yn y Bil sy'n ymdrin â darpariaethau trosiannol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, ynghyd â pharagraff 36 o'r Bil Drafft. Ailddrafftio rhagdestun paragraff 27(4) a 27(4)(b) o ganlyniad. | Nodwyd gan y cwnsleriaid deddfwriaethol |
| Mân ddiwygiad i baragraff 30 ac ailstrwythuro paragraffau 37 i 39 i sicrhau cysondeb o ran drafftio'r Bil | Nodwyd gan y cwnsleriaid deddfwriaethol |

| **Newid a wnaed**<br>(Mae cyfeiriadau at adrannau, Rhannau neu baragraffau yn cyfeirio at adran yn y Bil Drafft, neu at Ran neu baragraff o'r Atodlen iddo) | **Rheswm dros y newid** |
|---|---|
| Diwygio Rhan 8 i wella eglurdeb | Nodwyd gan y cwnsleriaid deddfwriaethol |
| Diwygio paragraff 43(4) i wella eglurder | Nodwyd gan y cwnsleriaid deddfwriaethol |
| Mân ddiwygiadau i baragraff 43(9), a'i ailstrwythuro, i roi eglurder a sicrhau cysondeb o ran drafftio'r Bil | Nodwyd gan y cwnsleriaid deddfwriaethol |
| Cynnwys darpariaeth newydd (nawr ym mharagraff 47 o'r Bil) i ddiwygio Deddf Diwydiant 1980 | Ystyriaeth bellach gan y cwnsleriaid deddfwriaethol |
| Mân ddiwygiadau i baragraff 46(a)(i) a (iii) i wella'r modd y mae'r Bil wedi ei ddrafftio | Nodwyd gan y cwnsleriaid deddfwriaethol |
| Symud darpariaeth a oedd gynt ym mharagraff 46(b)(iii) yn Rhan 10 i'r hyn sydd bellach yn baragraff 51(4) yn Rhan 12, i adlewyrchu cysylltiad agosach â phwnc y Rhan honno | Nodwyd gan y cwnsleriaid deddfwriaethol |
| Rhan 13 (Hawliau tramwy cyhoeddus heb eu cofnodi) | Diwygiwyd y Bil yn nhrafodion Cyfnod 2 i gynnwys darpariaethau; gweler hefyd isod, paragraffau 60 i 62 |
| Mân ddiwygiadau i baragraff 53(a) i (e), (g), (j) ac (o) i (q) i sicrhau bod penawdau italig cyn paragraffau perthnasol yn cael eu hepgor, er mwyn osgoi amheuaeth | Nodwyd gan y cwnsleriaid deddfwriaethol |
| Cynnwys darpariaethau newydd (nawr ym mharagraff 54(i)(vii) ac (x) o'r Bil) i sicrhau eglurder yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 unwaith y bydd hepgoriadau gan y Bil yn dod i rym. O ganlyniad, mae angen diwygiadau i'r hyn a oedd gynt yn baragraff 53(i) o'r Bil Drafft | Nodwyd gan y cwnsleriaid deddfwriaethol |

| **Newid a wnaed**<br>(Mae cyfeiriadau at adrannau, Rhannau neu baragraffau yn cyfeirio at adran yn y Bil Drafft, neu at Ran neu baragraff o'r Atodlen iddo) | **Rheswm dros y newid** |
|---|---|
| Cyfuno a diwygio paragraffau 3(l) ac (m) i gynnwys diddymiadau o ddarpariaethau trosiannol ychwanegol | Nodwyd eu bod wedi dod i ben gan y cwnsleriaid deddfwriaethol |
| Cynnwys darpariaeth newydd (nawr ym mharagraff 60 o'r Bil) i roi sylw i ddiwygiad angenrheidiol ychwanegol sy'n gysylltiedig â darpariaeth arall yn y Rhan | Nodwyd gan y cwnsleriaid deddfwriaethol |

***Bwriad i ddiddymu darpariaethau sy'n ymwneud â hawliau tramwy heb eu cofnodi***

60. Pan gyflwynwyd Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru), nid oedd yn cynnwys diddymu adrannau 53, 54, 55 a 56 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 a oedd wedi eu cynnig yn y Bil Cyfraith Statud (Diddymiadau) (Cymru) drafft. Y rheswm dros hyn oedd oherwydd i Lywodraeth y DU, ym mis Mawrth 2023, gyhoeddi'n sydyn newid yn ei safbwynt ac wedi hynny gychwyn adrannau 53 i 56 o Ddeddf 2000 mewn perthynas â Lloegr. Er nad yw hyn yn effeithio ar safbwynt Llywodraeth Cymru na chaiff yr adrannau hynny eu cychwyn mewn perthynas â Chymru, cafodd effaith ar barhau i gynnwys yr adrannau hynny yn y Bil.

61. Ym mis Rhagfyr 2024, ar ôl i'r Bil gael ei gyflwyno, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei fwriad i ddiddymu'r dyddiad olaf ar gyfer cofnodi hawliau tramwy hanesyddol. Yn ystod trafodion Cyfnod 1 ar y Bil, cadarnhaodd y Cwnsler Cyffredinol i'r Pwyllgor cyfrifol fwriad Llywodraeth Cymru i geisio diwygio'r Bil i adfer diddymu adrannau 53 i 56 o Ddeddf 2000. Cyflwynwyd hyn wedi hynny yn nhrafodion Cyfnod 2 ar y Bil.

62. Ar yr un pryd, cytunodd y Senedd i ddiddymu, mewn perthynas â Chymru, baragraff 4 o Atodlen 5 i Ddeddf 2000. Nid ymgynghorwyd ar hyn cyn hynny fel rhan o'r Bil Cyfraith Statud (Diddymiadau) (Cymru) drafft, ond cafodd y Pwyllgor cyfrifol dystiolaeth oddi wrth y Gymdeithas Mannau Agored yn ystod Cyfnod 1 fod hyn yn addas i'w ddiddymu. Cytunodd y Llywodraeth a chynhwyswyd hyn yn un o'i gwelliannau i'r Bil.

## Materion yn y Bil nad ymgynghorwyd arnynt eisoes

***Gwneud a chyhoeddi deddfwriaeth Cymru***

63. Nid ymgynghorwyd yn ffurfiol ar y trefniadau ar gyfer gwneud a chyhoeddi deddfwriaeth Cymru, er i gyfeiriad byr gael ei wneud at hyn mewn ymgynghoriad[18] yn 2018 ar Fil drafft a ddaeth yn Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019. Daeth rhai sylwadau ynghylch materion ehangach argaeledd deddfwriaeth i law ar y pryd oddi wrth randdeiliaid (er nad yw'r rhain yn ymwneud â'r materion a gwmpesir yn y Bil y mae'r Memorandwm hwn yn ymwneud â hwy).

64. Er bod gan holl ddefnyddwyr deddfwriaeth ddiddordeb amlwg yn hygyrchedd y ddeddfwriaeth, ni fynegwyd fawr ddim diddordeb hyd yn hyn gan randdeiliaid allanol i'r Llywodraeth yn y gyfraith sy'n sail i'r trefniadau cyffredinol ar gyfer cyhoeddi a chraffu ar ddeddfwriaeth. Mae hyn yn ddealladwy gan mai'r tri chorff sydd â diddordeb uniongyrchol yn y cynigion yw'r Senedd (sy'n penderfynu ar ffurf a manylion y broses graffu ar gyfer Offerynnau Statudol Cymreig), y Llywodraeth (sy'n ymwneud ag effeithlonrwydd prosesau'r Senedd ar gyfer ymdrin â'i rhaglen o is-ddeddfwriaeth) ac Argraffydd y Brenin/Yr Archifau Gwladol (sy'n gyfrifol am gyhoeddi'r rhan fwyaf o ddeddfwriaeth).

65. Mae'r Llywodraeth wedi ymgysylltu'n rheolaidd â'r Archifau Gwladol ar y trefniadau arfaethedig ar gyfer Offerynnau Statudol Cymreig (yn ddiweddar a thros y 15 mlynedd diwethaf). Mae eu profiad o weithredu Deddf 1946 a'r rheoliadau cysylltiedig wedi helpu i lywio'r cynigion yn y Bil. Mae craffu ar is-ddeddfwriaeth yn rhan sylweddol o'r gwaith a wneir (yn bennaf) gan Bwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Senedd, ac mae'r Pwyllgor Busnes wedi penderfynu mai'r Pwyllgor hwnnw fydd yn gyfrifol am graffu ar y Bil hwn. Nid yw'r Llywodraeth, felly, wedi cyhoeddi'r cynigion hyn fel Bil drafft.

66. Yn yr un modd, oherwydd bod y darpariaethau ynghylch cyhoeddi Deddfau'r Senedd yn cael eu hailddatgan o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac nad oes unrhyw newidiadau sylfaenol yn cael eu cynnig, ni chynhaliwyd ymgynghoriad ar yr agwedd hon ar y Bil.

***Diddymu a diwygio darpariaethau nad ydynt o ddefnyddioldeb ymarferol neu o fudd mwyach***

[18] Ar gael yn: Bil Deddfwriaeth Ddrafft (Cymru) | LLYW. CYMRU

67. Yn ogystal â chynnwys Deddf Diwydiant 1980 (gweler uchod), mae dau fater bellach wedi eu cynnwys yn y Bil nad oeddent yn rhan o'r ymgynghoriad ar y Bil Drafft.

*Cynlluniau datblygu unedol*

68. Nodwyd mater pellach i helpu i baratoi'r ffordd ar gyfer cydgrynhoi'r gyfraith cynllunio ar ôl yr ymgynghoriad ar y Bil Drafft – diddymu adran 186 o Ddeddf Cynllunio 2008. Nid yw'r ddarpariaeth hon erioed wedi ei dwyn i rym, ac mae bellach yn ddiangen. Byddai wedi diwygio pwerau'r Uchel Lys ar heriau cyfreithiol llwyddiannus i gynlluniau datblygu unedol a fabwysiadwyd o dan Ran 2 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Mabwysiadwyd yr olaf o'r rhain yng Nghymru yn 2011. Ni ellir mabwysiadu rhagor o gynlluniau datblygu unedol yng Nghymru, oherwydd unwaith y mae gan awdurdod gynllun datblygu unedol mae'n ofynnol iddo ddechrau symud drosodd i'r system "newydd" o gynlluniau datblygu lleol o dan Ran 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. Pan ymgynghorwyd ar y Bil Drafft, roedd dau gynllun datblygu unedol yn weddill, ond mae treigl amser yn golygu na ellid dwyn her gyfreithiol y byddai adran 186 yn gymwys iddi yn eu herbyn. Mae adran 186 o Ddeddf Cynllunio 2008 bellach wedi ei disbyddu a gellir ei diddymu. Gan nad yw adran 186 erioed wedi ei dwyn i rym ac na ellir ei defnyddio mwyach, nid oeddem o'r farn fod angen ymgynghori ar wahân ynglŷn â'i diddymu.

69. Ers ymgynghori ar y Bil Drafft, mae Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Wrecsam ill dau wedi mabwysiadu Cynlluniau Datblygu Lleol. Felly, ar adeg cyflwyno'r Bil, nid oedd unrhyw gynlluniau datblygu unedol yng Nghymru mwyach; ystyriwyd felly fod gweddill y darpariaethau sy'n ymwneud â chynlluniau datblygu unedol yng Nghymru wedi dod i ben ac y gellid eu diddymu. Gan nad oedd unrhyw gynlluniau datblygu unedol yng Nghymru, nid oeddem o'r farn fod angen ymgynghori ar wahân ar gynnwys y darpariaethau a oedd wedi dod i ben.

70. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa gyfreithiol mewn perthynas â chynllun datblygu unedol Cyngor Wrecsam wedi newid eto a bydd y Llywodraeth yn ceisio ymdrin â'r mater hwn yng Nghyfnod 3 o ystyriaeth y Senedd. Mae'r Nodiadau Esboniadol (yn Atodiad A) yn parhau i adlewyrchu'r Bil ar yr adeg y gosodwyd y Memorandwm Esboniadol diwygiedig hwn gerbron y Senedd o dan Reol Sefydlog 26.68.

*Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011*

71. Cyflwynwyd Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (ar y pryd) gan Ann Jones AC yn dilyn ei hymgyrch i wella diogelwch tân a lleihau nifer yr achosion o farwolaeth ac anafiadau mewn lleoliadau preswyl. Cyflwynodd y Mesur ofynion newydd ar gyfer cynnwys systemau awtomatig i lethu tân (y cyfeirir atynt fel

arfer fel systemau chwistrellu) ym mhob preswylfa newydd a phob preswylfa sydd wedi ei throsi yng Nghymru. Adeg cyflwyno'r Mesur, cyfrifoldeb Llywodraeth y DU oedd rheoli adeiladau, gan gynnwys y Rheoliadau Adeiladu (y brif ffordd o sicrhau cydymffurfiad â safonau adeiladu). Felly, bernid mai'r Mesur oedd y mecanwaith deddfwriaethol mwyaf effeithiol a oedd ar gael i'r Cynulliad Cenedlaethol ar y pryd i'w gwneud yn ofynnol gosod systemau chwistrellu ar gyfer tân mewn adeiladau newydd ac addasiadau.

72. Pasiwyd y Mesur gan y Cynulliad Cenedlaethol a rhoddwyd cyfnod gweithredu ar waith i alluogi'r sectorau adeiladu a thai i baratoi ar gyfer y newid hwn o ran gofynion. Yn ystod y cyfnod hwnnw cafodd cyfrifoldeb dros y system rheoli adeiladu ei ddatganoli i Weinidogion Cymru. Yn dilyn ymgynghoriad ar roi Mesur 2011 ar waith, ac am fod Gweinidogion Cymru bellach yn gallu gwneud diwygiadau i'r Rheoliadau Adeiladu, dim ond adran 1 o Fesur 2011 a ddaeth i rym yn y pen draw. Mae'r defnydd o'r Rheoliadau Adeiladu (a'r Dogfennau Cymeradwy cysylltiedig) i sicrhau bod systemau awtomatig i lethu tân yn cael eu gosod yn parhau hyd heddiw.

73. Nid ymgynghorwyd ar ddiddymu Mesur 2011 fel rhan o'r prif ymgynghoriad ar gyfer y Bil hwn. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, bu ymgynghoriad ar wahân yn ystyried cynigion i ddiwygio'r Rheoliadau Adeiladu i wneud mesurau awtomatig ar gyfer llethu tân yn ofynnol mewn cartrefi gofal i blant. I'r graddau y gallai unrhyw fylchau gael eu gadael ar ôl diddymu'r Mesur hwn, byddai'r bylchau hynny'n cael eu llenwi gan y newid arfaethedig i'r Rheoliadau Adeiladu. Yng ngoleuni'r ymgynghoriad hwnnw gwnaed diwygiadau i'r Rheoliadau Adeiladu gan Reoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2024 (OS 2024/742 (Cy. 103))[19]. O ganlyniad, yn hytrach nag aros am Fil sy'n ymdrin â'r pwnc hwn, mae'n briodol defnyddio'r Bil hwn i ddiddymu Mesur 2011, yn llawn. Mae Rhan 7 o Atodlen 1 i'r Bil yn diddymu Mesur 2011. Nid oeddem o’r farn fod angen ymgynghori ymhellach ynglŷn â diddymu Mesur 2011 (y tu hwnt i’r ddau ymgynghoriad i ddiwygio’r Rheoliadau Adeiladu).

*Diwygio Atodlen 9 i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981*

74. Fel y nodwyd uchod, mae Rhan 14 o Atodlen 1 i’r Bil yn diwygio Atodlen 9 i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 er mwyn dileu’r cyfeiriad at dair rhywogaeth estron. Mae paragraff 56(d) uchod yn nodi â phwy y cysylltwyd mewn perthynas â’r diddymiad hwn. Nid oeddem o’r farn fod angen ymgynghori ar ddrafft o’r diddymiad hwn gan ei fod yn rhoi effaith lawn i benderfyniad blaenorol gan y Senedd.

*Deddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024*

[19] Gwnaed y Rheoliadau ar 7 Mehefin 2024 a byddant yn dod i rym ar 17 Rhagfyr 2024

75. Cytunodd y Senedd i hepgor adran ddrafft o'r Bil a ddaeth yn Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024, yn ystod trafodion Cyfnod 3 ar y Bil hwnnw. Er hynny, mae croesgyfeiriad o hyd yn y trosolwg o'r Ddeddf at yr adran sydd wedi ei hepgor. Mae Rhan 19 o Atodlen 1 i'r Bil hwn yn diddymu'r croesgyfeiriad hwn.

76. Nodir gwybodaeth bellach am y materion ychwanegol hyn yn y Nodiadau Esboniadol (yn Atodiad A).

***Diwygiadau i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019***

77. Ni chynhaliwyd ymgynghoriad ar y mân ddiwygiadau i Ddeddf 2019 a nodir yn Atodlen 1 i’r Bil. Cododd y materion hyn o adolygiad y Llywodraeth o Ddeddf 2019, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2023. Mae'r mân newidiadau eraill i Ddeddf 2019 yn deillio o'r newidiadau ehangach sy'n cael eu cynnig mewn perthynas â gwneud a chyhoeddi deddfwriaeth Cymru.

# Rhan 3 – Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth

## Pwerau a gynhwysir yn y Bil a diwygiadau a wnaed i Ddeddf 2019

78. Mae'r Bil yn cynnwys un pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth ac mae'n mewnosod pwerau newydd i wneud is-ddeddfwriaeth yn Neddf 2019. Crynhoir y rhain yn Nhablau 2 a 3 yn y drefn honno (yn dilyn). Mae'r Tablau hyn hefyd yn darparu'r wybodaeth sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 26.6(x).

79. Mae datganiad byr o fwriad polisi ar gyfer sut y caniateir defnyddio'r pwerau i'w weld o dan bob tabl.

80. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth hefyd ynghylch gweithdrefnau'r Senedd sy'n gymwys i is-ddeddfwriaeth a wneir fel offeryn statudol Cymreig (adrannau newydd 37C i 37F o Ddeddf 2019 ac Atodlen 1A iddi) a gweithdrefnau addasedig y Senedd sy'n gymwys i is-ddeddfwriaeth a wneir fel offeryn statudol (Atodlenni newydd 1B ac 1C i Ddeddf 2019). Tynnir sylw hefyd at:

    a. adran 37G newydd yn Neddf 2019, sy'n disodli'r adran 40 bresennol, ac sy'n ymwneud â chyfuno, mewn un offeryn statudol Cymreig, is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru a fyddai’n ddarostyngedig i weithdrefnau gwahanol yn y Senedd, ac sy'n sicrhau bod yr offeryn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn fwyaf llym ohonynt.

    b. y ffurf y mae arfer pwerau penodol i wneud gorchmynion traffig ffyrdd i'w harfer (gweler adran 2 o'r Bil sy'n diwygio Deddf Priffyrdd 1980 a Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984).

***Tabl 2 – Crynodeb o'r pwerau a'r dyletswyddau i wneud is-ddeddfwriaeth a fyddai'n aros yn Neddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2025 (os caiff ei deddfu)***

| Adran | Rhoddwyd y pŵer i | Dull | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Y rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| Adran 7(4) | Gweinidogion Cymru | Gorchymyn (fel Offeryn Statudol) | Er mai'r bwriad yw dod ag adrannau 1, 3 a 6 (ac felly Atodlen 3) i rym ar gyfer 1 Ionawr 2026, bernir ei bod yn briodol i Weinidogion Cymru gael y pŵer i bennu'r diwrnod (neu'r diwrnodau) y daw'r darpariaethau hyn i rym drwy orchymyn, rhag ofn bod oedi cyn i'r Bil gael y Cydsyniad Brenhinol neu unrhyw newid arall mewn amgylchiadau. | Dim gweithdrefn y Senedd | Gorchymyn cychwyn yw hwn |

81. Y bwriad polisi yw y bydd adran 1 a Rhan 2 o’r Bil (ac felly hefyd y darpariaethau canlyniadol) yn dod i rym yn llawn ar ddechrau blwyddyn galendr, fel y bydd yn bosibl dweud o’r flwyddyn a fydd wedi ei chynnwys yn nheitl offeryn ei fod yn Offeryn Statudol Cymreig a wnaed yn unol â Rhan 2A o Ddeddf 2019 (a bod gofynion rhifo a chyhoeddi Rhan 2B o Ddeddf 2019 yn gymwys iddo). Fel y nodir yn nhabl 2, y bwriad presennol yw y bydd y darpariaethau hyn yn dod i rym ar 1 Ionawr 2026.

***Tabl 3 – Crynodeb o'r pwerau a'r dyletswyddau i wneud is-ddeddfwriaeth a fewnosodir yn Neddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 drwy'r Bil***

Noder: mae'r weithdrefn sy'n gymwys i'r is-ddeddfwriaeth a wneir fel rheoliadau yn y tabl isod wedi ei nodi yn adran (newydd) 43 i Ddeddf 2019 (o ran hyn, gweler paragraff 15 o Atodlen 3 i'r Bil)

| Adran | Rhoddwyd y pŵer i | Dull | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Y rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| Adran 37D(4)(c) | yr awdurdod cyfrifol[20] | Gorchymyn (fel offeryn statudol Cymreig) | Rhaid arfer y pŵer hwn os yw'r Senedd wedi penderfynu bod is-ddeddfwriaeth a oedd wedi ei gwneud yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhau'r Senedd, yn peidio â chael effaith. Rhaid i'r awdurdod cyfrifol ddirymu'r is-ddeddfwriaeth wedyn. | Dim gweithdrefn y Senedd heblaw gosod | O gofio bod y pŵer hwn yn cael ei ddefnyddio i roi effaith i benderfyniad y Senedd, ni fyddai'n briodol i weithdrefn bellach y Senedd fod yn gymwys |
| Adran 37E(4)(c) | yr awdurdod cyfrifol | Gorchymyn (fel offeryn statudol Cymreig) | Rhaid arfer y pŵer hwn os yw'r Senedd wedi diddymu is-ddeddfwriaeth a oedd wedi ei gwneud yn ddarostyngedig i weithdrefn ddiddymu'r Senedd. Rhaid i'r awdurdod cyfrifol ddirymu'r is-ddeddfwriaeth wedyn. | Dim gweithdrefn y Senedd heblaw gosod | O gofio bod y pŵer hwn yn cael ei ddefnyddio i roi effaith i benderfyniad y Senedd, ni fyddai'n briodol i weithdrefn bellach y Senedd fod yn gymwys |

[20] Mae adran 37B newydd yn Neddf 2019 yn diffinio “awdurdod cyfrifol” mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth a gynhwysir mewn offeryn statudol yng Nghymru

| Adran | Rhoddwyd y pŵer i | Dull | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Y rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| Adran 37F(2)(c) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau (fel offeryn statudol Cymreig) | Yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru bennu deddfiadau (neu bwerau penodol o fewn un neu ragor o ddeddfiadau) lle nad yw'n ofynnol gosod is-ddeddfwriaeth sydd i'w gwneud fel offeryn statudol Cymreig gerbron y Senedd. Mae hyn yn sicrhau nad oes angen deddfwriaeth sylfaenol bellach os oes angen ychwanegu at y rhestr gyfredol o fathau o is-ddeddfwriaeth na fyddai angen eu gosod gerbron y Senedd. | Gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd | Lle y mae rheoliadau yn diwygio neu'n diddymu deddfwriaeth sylfaenol, neu'n ei haddasu fel arall, ac y gall y newidiadau effeithio'n sylweddol ar y ddeddfwriaeth honno, mae'r weithdrefn gadarnhaol yn briodol. |
| Atodlen 1A, para 6(3)(c), | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau (fel offeryn statudol Cymreig) | Gweler y cofnod ar gyfer adran 37F(2)(c). Mae'r pŵer hwn yn gweithredu mewn perthynas â deddfiadau cyn-gychwyn pan fo'r offeryn i'w wneud fel offeryn statudol Cymreig. | Gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd | Gweler y cofnod ar gyfer adran 37F(2)(c). |
| Atodlen 1A, para 7 | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau (fel offeryn statudol Cymreig) | Yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio deddfiadau cyn-gychwyn ac ôl-gychwyn yn uniongyrchol i adlewyrchu gweithdrefnau newydd y Senedd. | Gweithdrefn ddiddymu'r Senedd | Er y byddai'r rheoliadau'n diwygio, yn diddymu neu fel arall yn addasu deddfwriaeth sylfaenol, ni fyddai'r newidiadau yn effeithio'n sylweddol ar y ddeddfwriaeth honno, ond yn syml byddent |

| Adran | Rhoddwyd y pŵer i | Dull | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Y rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | yn adlewyrchu effaith Atodlen 1A. O'r herwydd, mae gweithdrefn ddiddymu'r Senedd yn briodol |
| Atodlen 1B, para 13(4)(c), | Ei Fawrhydi yn y Cyfrin Gyngor | Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor (fel offeryn statudol) | Caniateir arfer y pŵer hwn os yw'r Senedd wedi penderfynu bod is-ddeddfwriaeth a oedd wedi ei gwneud yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhau (addasedig) y Senedd mewn cyd-offeryn neu offeryn cyfansawdd, yn peidio â chael effaith. Caiff Ei Fawrhydi ddirymu'r is-ddeddfwriaeth wedyn. Mae hyn yn gyson â'r egwyddor sy'n sail i adran 5 o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 | Dim gweithdrefn y Senedd heblaw gosod | Gweler y cofnod ar gyfer adran 37E(4)(c). |
| Atodlen 1B, para 14(4)(c), | Ei Fawrhydi yn y Cyfrin Gyngor | Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor (fel offeryn statudol) | Caniateir arfer y pŵer hwn os yw'r Senedd wedi penderfynu bod is-ddeddfwriaeth a oedd wedi ei gwneud yn ddarostyngedig i weithdrefn ddiddymu (addasedig) y Senedd mewn cyd-offeryn neu offeryn cyfansawdd, wedi ei dirymu. Caiff Ei Fawrhydi ddirymu'r is-ddeddfwriaeth wedyn. Mae hyn yn cynnal effaith adran 5 o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 | Dim gweithdrefn y Senedd heblaw gosod | Gweler y cofnod ar gyfer adran 37E(4)(c). |

| Adran | Rhoddwyd y pŵer i | Dull | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Y rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| Atodlen 1B, para 16 | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau (fel offeryn statudol Cymreig) | Yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio deddfiadau cyn-gychwyn ac ôl-gychwyn yn uniongyrchol i adlewyrchu gweithdrefnau newydd y Senedd. | Gweithdrefn ddiddymu'r Senedd | Gweler y cofnod ar gyfer Atodlen 1A, paragraff 7 (ond noder bod y pŵer hwn yn cael ei ddefnyddio i adlewyrchu effaith Atodlen 1B) |
| Atodlen 1C, para 11(4)(c), | Ei Fawrhydi yn y Cyfrin Gyngor | Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor (fel offeryn statudol) | Caniateir arfer y pŵer hwn os yw'r Senedd wedi penderfynu bod is-ddeddfwriaeth a oedd wedi ei gwneud yn ddarostyngedig i weithdrefn ddiddymu (addasedig) y Senedd fel Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor, wedi ei dirymu. Caiff Ei Fawrhydi ddirymu'r is-ddeddfwriaeth wedyn. Mae hyn yn cynnal effaith adran 5 o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 | Dim gweithdrefn y Senedd heblaw gosod | Gweler y cofnod ar gyfer adran 37E(4)(c). |
| Atodlen 1C, para 13 | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau (fel offeryn statudol Cymreig) | Yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio deddfiadau cyn-gychwyn ac ôl-gychwyn yn uniongyrchol i adlewyrchu gweithdrefnau newydd y Senedd. | Gweithdrefn ddiddymu'r Senedd | Gweler y cofnod ar gyfer Atodlen 1A, paragraff 7 (ond noder bod y pŵer hwn yn cael ei defnyddio i adlewyrchu effaith Atodlen 1C) |

*Dirymu offerynnau sydd wedi eu diddymu neu sy'n peidio â chael effaith (adrannau 37D(4)(c) a 37E(4)(c); Atodlen 1B, paragraffau 13(4)(c) a 14(4)(c); ac Atodlen 1C, paragraff 11(4)(c))*

82. Mae'r Bil yn darparu na chaniateir defnyddio'r pwerau hyn ond o dan yr amgylchiadau lle mae'r Senedd wedi diddymu is-ddeddfwriaeth a wnaed yn ddarostyngedig i weithdrefn ddiddymu'r Senedd neu wedi penderfynu y dylai is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan weithdrefn gadarnhau'r Senedd beidio â chael effaith. Os bydd yr amgylchiadau hynny yn codi rhaid i'r awdurdod cyfrifol ddirymu'r is-ddeddfwriaeth (os yw'n offeryn statudol Cymreig) neu caiff Ei Fawrhydi, drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor, ddirymu'r gyd-ddeddfwriaeth neu'r ddeddfwriaeth gyfansawdd neu'r Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor, yn ôl y digwydd.

*Deddfiadau nad oes angen i is-ddeddfwriaeth oddi tanynt a wneir fel offeryn statudol Cymreig gael ei gosod gerbron y Senedd (adran 37F(2)(c) ac Atodlen 1A, paragraff 6(3)(c))*

83. Er nad oes bwriad uniongyrchol i ddefnyddio'r pwerau hyn, ystyrir ei bod yn beth call sicrhau bod mecanwaith priodol ar gael i alluogi deddfiadau penodol i gael eu rhestru pe bai'r Senedd neu Weinidogion Cymru yn ystyried nad oes angen gosod offerynnau penodol gerbron y Senedd.

*Diwygio deddfiadau i adlewyrchu gweithdrefnau newydd y Senedd (Atodlen 1A, paragraff 7; Atodlen 1B, paragraff 16; ac Atodlen 1C, paragraff 13)*

84. Caiff Gweinidogion Cymru, os ydynt yn ystyried ei bod yn angenrheidiol at ddibenion gwneud y gyfraith yn fwy hygyrch, drwy reoliadau ddiwygio deddfiadau i wneud darpariaeth o ganlyniad i Atodlenni 1A, 1B ac 1C (gweler paragraffau 7, 16 a 13 yn y drefn honno). Gellid defnyddio'r pwerau hyn, er enghraifft, i roi yn lle cyfeiriadau presennol at "offerynnau sy'n ddarostyngedig i'w diddymu yn unol â phenderfyniad gan Senedd Cymru", gyfeiriad at wneud yr offeryn statudol Cymreig "o dan weithdrefn ddiddymu'r Senedd".

85. Nid oes unrhyw gynlluniau ar gyfer rhaglen i "dacluso" y llyfr statud yn y ffordd hon. Yn hytrach, mae'r pŵer hwn yn fwy tebygol o gael ei ddefnyddio fesul achos ac o bosibl pan fo diwygiadau eraill yn cael eu gwneud i ddeddfiadau.

*Gadawyd y dudalen hon yn wag yn fwriadol*

# Rhan 4 – Asesiad effaith rheoleiddiol

## Crynodeb

86. Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) wedi ei gwblhau ar gyfer Rhannau 1 a 2 o'r Bil yn unig, ac mae’n dilyn isod. Nid yw'r RIA yn cwmpasu Rhannau 3 a 4 gan nad oes unrhyw gostau gweinyddol, cydymffurfio na chostau eraill yn codi oherwydd y darpariaethau hynny.

87. Nid oes unrhyw ddarpariaethau penodol yn y Bil (naill ai yn Rhan 1 neu 2 nac yn ei gyfanrwydd) sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru.

88. Mae tabl 4 yn cyflwyno crynodeb o'r costau a'r manteision ar gyfer Rhannau 1 a 2 o'r Bil. Cynlluniwyd y tabl i gyflwyno'r wybodaeth sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 26.6 (viii) a (ix).

Tabl 4 - Crynodeb o'r costau a’r manteision ar gyfer Rhannau 1 a 2 o'r Bil

<table>
<tr><th colspan="12">Rhannau 1 a 2 o Fil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru)</th></tr>
<tr><td colspan="12">Yr opsiwn a ffefrir: Dwyn ynghyd a ffurfioli'r trefniadau gweithdrefnol ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth Cymru, a'r gofynion ar gyfer cyhoeddi Deddfau Senedd Cymru ac offerynnau statudol Cymreig ac is-ddeddfwriaeth arall.</td></tr>
<tr><td colspan="4">Cyfnod: Ar ôl Cyfnod 2</td><td colspan="4">Cyfnod gwerthuso:<br>2025-26 i 2034-35</td><td colspan="4">Blwyddyn sail brisiau:<br>2024-25</td></tr>
<tr><td colspan="4">Cyfanswm y gost<br>Cyfanswm: £-71.9k<br>Gwerth presennol: £-54.7k</td><td colspan="4">Cyfanswm y manteision<br>Cyfanswm: £0<br>Gwerth presennol: £0</td><td colspan="4">Gwerth presennol net (NPV):<br>£54.7k</td></tr>
<tr><td colspan="12">Costau gweinyddol</td></tr>
<tr><td colspan="12">Costau:<br>Bydd costau trosiannol o £45k yn cael eu hysgwyddo gan yr Archifau Gwladol yn ymwneud â newidiadau i'w system gyhoeddi a gwefan legislation.gov.uk i adlewyrchu Offerynnau Statudol Cymreig. Nid oes unrhyw gostau parhaus y gellir eu meintioli ar gyfer Llywodraeth Cymru, corff arall y sector cyhoeddus arall na pherson arall.</td></tr>
<tr><td colspan="3">Trosiannol: £45k</td><td colspan="3">Cylchol: £0</td><td colspan="3">Cyfanswm: £45k</td><td colspan="3">Gwerth presennol: £45k</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td colspan="4">Arbedion costau:<br>Bydd arbedion cost cylchol o £12.3k y flwyddyn i Lywodraeth Cymru yn cael eu cyflawni drwy'r newidiadau arfaethedig i orchmynion traffig ffyrdd dros dro. Disgwylir i'r arbedion cost hyn gronni o ddeufis ar ôl y Cydsyniad Brenhinol.</td></tr>
<tr><td>Trosiannol: £0</td><td>Cylchol: £116.9k</td><td>Cyfanswm: £116.9k</td><td>Gwerth presennol: £99.7k</td></tr>
<tr><td colspan="4">Cost weinyddol net: £-71.9k</td></tr>
<tr><td colspan="4">Costau cydymffurfio</td></tr>
<tr><td colspan="4">Costau: Ni nodwyd unrhyw gostau cydymffurfio.</td></tr>
<tr><td>Trosiannol: £0</td><td>Cylchol: £0</td><td>Cyfanswm: £0</td><td>Gwerth presennol: £0</td></tr>
<tr><td colspan="4">Costau eraill</td></tr>
<tr><td colspan="4">Costau: Nid oes unrhyw gostau eraill wedi eu nodi.</td></tr>
<tr><td>Trosiannol: £0</td><td>Cylchol: £0</td><td>Cyfanswm: £0</td><td>Gwerth presennol: £0</td></tr>
<tr><td colspan="4">Costau ac anfanteision heb eu meintoli</td></tr>
<tr><td colspan="4">Y costau cyfle (i Lywodraeth Cymru) sy'n gysylltiedig â'r cynnydd ymylol iawn o ran paratoi 31 o Femoranda Esboniadol ychwanegol posibl i offerynnau statudol Cymreig bob blwyddyn.</td></tr>
<tr><td colspan="4">Manteision</td></tr>
<tr><td colspan="4">Bydd y Bil yn helpu i sicrhau bod y trefniadau ar gyfer gwneud a chyhoeddi Deddfau'r Senedd, offerynnau statudol Cymreig ac is-ddeddfwriaeth arall yn addas i'r diben, yn ddwyieithog ac yn adlewyrchu arferion Senedd Cymru fel deddfwrfa fodern. Ni fu'n bosibl meintioli'r fantais hon.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cyfanswm: £0</td><td colspan="2">Gwerth presennol: £0</td></tr>
<tr><td colspan="4">Tystiolaeth allweddol, rhagdybiaethau ac ansicrwydd</td></tr>
<tr><td colspan="4">Mae'r costau a'r arbedion cost a nodir yn yr RIA hwn wedi eu datblygu drwy ymgysylltu â'r Archifau Gwladol.</td></tr>
</table>

## Rhannau 1 a 2 o'r Bil – opsiynau, manteision, costau a chasgliadau

89. Nodir y cefndir i'r trefniadau presennol ac arfaethedig ar gyfer gwneud a chyhoeddi deddfwriaeth Cymru yn Rhan 1 o'r Memorandwm Esboniadol – gweler yn arbennig baragraffau 2 i 15 a 31 i 36.

90. Mae dau opsiwn wedi eu hasesu wrth ystyried a ddylid mynd i'r afael â diffyg darpariaeth bwrpasol, fodern a dwyieithog ar y materion hyn:

    a. Opsiwn 1: Cynnal y dull presennol o offerynnau statudol, y gweithdrefnau sy'n gymwys i'w gwneud a chymhwyso Deddf Offerynnau Statudol 1946 (Deddf 1946) a'r Rheoliadau cysylltiedig ynghyd â'r gofynion a'r trefniadau presennol ar gyfer cyhoeddi Deddfau'r Senedd a deddfwriaeth arall (h.y. "y trefniadau presennol").

    b. Opsiwn 2: Datblygu darpariaethau newydd (ar wahân) ar gyfer Cymru sy'n dwyn ynghyd ac yn ffurfioli:
        i. y trefniadau gweithdrefnol ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth Cymru, a
        ii. y gofynion ar gyfer cyhoeddi Deddfau Senedd Cymru ac offerynnau statudol Cymreig, ac is-ddeddfwriaeth arall nad yw'n cael ei gwneud drwy offeryn statudol.

91. Ceir disgrifiad manylach o bob opsiwn isod, ynghyd â dadansoddiad o'r costau a'r manteision cysylltiedig.

### *Opsiwn 1 – Cynnal y trefniadau presennol ar gyfer gwneud a chyhoeddi deddfwriaeth Cymru*

92. Nodir y trefniadau presennol a'r problemau cysylltiedig ym mharagraffau 2 i 23 o'r Memorandwm hwn.

93. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella hygyrchedd y gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru. Mae sicrhau bod y bensaernïaeth sylfaenol ar gyfer deddfu yng Nghymru ar gael ar ffurf fodern a dwyieithog ac yn addas i'r diben yn cyfrannu at y nod hwn. Mae hyn yn cynnwys nodi gweithdrefnau'r Senedd sy'n gymwys i is-ddeddfwriaeth a sut y mae offerynnau o'r fath ar gael i'r cyhoedd.

94. Byddai cadw'r fframwaith deddfwriaethol presennol ar gyfer is-ddeddfwriaeth a wneir fel offeryn statudol yn golygu y câi cyfle i wneud darpariaeth bwrpasol, fodern yng Nghymru sy'n unioni rhai o'r problemau a gysylltir â Deddf 1946 ei golli.

95. Ar gyfer Deddfau'r Senedd, byddai cynnal y trefniadau presennol yn golygu diffyg rhwymedigaeth glir o hyd ar Argraffydd y Brenin i gyhoeddi deddfiadau a darpariaeth o'r fath ynghylch cyhoeddiadau sy'n cael eu gwneud yn Saesneg yn unig.

*Costau opsiwn 1*

96. Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig ag opsiwn 1 gan ei fod yn cynnwys cynnal y fframwaith deddfwriaethol presennol ar gyfer gwneud a chyhoeddi deddfwriaeth Cymru. Serch hynny mae'n werth nodi'r costau sy'n disgyn i Lywodraeth Cymru ar gyfer argraffu a chyhoeddi offerynnau statudol[21].

97. Mae'r Archifau Gwladol ar ran Argraffydd Deddfau Seneddol y Brenin wedi dyfarnu contract gwasanaethau cyhoeddi i'r Llyfrfa, rhan o gwmni Williams Lea). Mae'r contract deddfwriaeth hwn yn nodi'r manylebau a'r terfynau amser y mae angen cadw atynt ar gyfer cyhoeddi deddfwriaeth ac eitemau cysylltiedig (er enghraifft, Nodiadau Esboniadol i Ddeddfau) yn ddigidol ac mewn print. Mae'r contract diweddaraf yn ymdrin ag eitemau a gyhoeddwyd ar 1 Hydref 2023 neu ar ôl hynny ac mae'n gynnydd o tua 8% ar y trefniadau a oedd wedi bod ar waith ers 1 Ionawr 2019 (pan ddyfarnwyd y contract ddiwethaf). Codir ffioedd[22] ar lywodraethau ac adrannau yn Llywodraeth y DU ar y gyfradd a nodir yn y contract, ac o'r rhain nodir y rhai sydd fwyaf perthnasol i Lywodraeth Cymru yn y tabl 5 isod:

[21] Mae cost ychwanegol ynghlwm wrth hynny, sef prynu copi papur o offeryn. Mae'r gost hon yn cael ei thalu gan yr unigolyn neu'r sefydliad. Mae'n seiliedig ar nifer tudalennau'r offeryn ac fe'i gosodir ar gyfer offerynnau statudol o bob math. Ni fydd unrhyw newid i gostau gwirioneddol prynu oherwydd y Bil ac at ddibenion yr RIA hwn nid yw'n berthnasol i'r dadansoddiad o opsiynau, costau a manteision. Darperir copïau "rhad ac am ddim" ar wahân o bob eitem i'r llyfrgelloedd adnau cyfreithiol (yn unol â Deddf Llyfrgelloedd Adneuo Cyfreithiol 2003). Gellir darparu copïau am ddim i awdurdod tarddiadol yr offeryn (sef Llywodraeth Cymru yn ein cyd-destun ni) ac fe'u darperir i'r Archifau Gwladol. Gall llyfrgelloedd eraill a sefydliadau tebyg gael copïau ar gyfradd y mae'r Archifau Gwladol yn rhoi cymhorthdal amdani.
[22] Mae'r sail ar gyfer codi tâl cyhoeddi ar awdurdodau am eu hofferynnau/rheolau statudol yn cyd-fynd â *"Rheoli Arian Cyhoeddus"* y Trysorlys.

Tabl 5 - Ffioedd a godir o dan y contractau gwasanaethau cyhoeddi presennol a blaenorol

| | **Ffi o 01/01/2019 i 30/09/2023** | **Ffi o 01/10/2023 (am o leiaf y 2 flynedd nesaf)** |
|---|---|---|
| Offeryn statudol printiedig | £305.00 yr offeryn | £320.00 yr offeryn |
| Cysodi â llaw ar gyfer offerynnau statudol printiedig (i) | £15.50 y dudalen | £16.75 y dudalen |
| Offeryn statudol heb ei argraffu | £90.00 yr offeryn | £95.00 yr offeryn |
| Slip cywiro | £20.50 y slip | £22.00 y slip |
| *Nodiadau:* *(i) Mae hyn ar gyfer y cylch cyntaf o broflenni ar gyfer cysodi; yn achlysurol iawn, mae angen proflen ddilynol. Y tâl ar gyfer cylchoedd dilynol oedd £12.25 y dudalen o 01/01/2019 i 30/09/2023 a £13.25 y dudalen ydyw o 01/10/2023* | | |

98. Mae'r holl offeryn statudol cyffredinol[23] a wneir gan Weinidogion Cymru yn codi tâl argraffu a chysodi, a hynny gan fod proses â llaw ynghlwm wrth greu'r fformat dwy golofn sy'n gysylltiedig â deddfwriaeth ddwyieithog. Er enghraifft, byddai'r tâl i Lywodraeth Cymru am offeryn chwe thudalen cyn mis Hydref 2023 wedi bod yn £398.00; o dan y contract newydd mae'n £420.50. Yn y rhan fwyaf o achosion, nid oes gan Offerynnau Statudol yr Alban er enghraifft gostau cysodi ac felly, ni waeth beth yw maint yr offeryn, byddai'r tâl sengl o £305.00 yn flaenorol neu £320.00 ar hyn o bryd yn cael ei wneud.

99. Mae pob offeryn statudol lleol (megis y gorchmynion traffig ffyrdd dros dro) yn gyhoeddiad di-brint. Cyn 1 Hydref 2023 byddai tâl o £90.00 wedi cael ei godi am orchymyn lleol (ni waeth faint o dudalennau a oedd ynddo); o dan y trefniadau newydd mae hyn bellach yn £95.00.

[23] Offerynnau sy'n ymdrin â materion o ddiddordeb cyhoeddus cyffredinol yw'r rhain; offeryn “lleol” yw offeryn sy'n ymwneud â materion o ddiddordeb lleol (yn ein cyd-destun ni gorchmynion traffig ffyrdd dros dro yw'r rhain yn bennaf sy'n effeithio ar un neu ragor o ffyrdd a enwir)

100. Mae tabl 6 yn dangos y costau i Lywodraeth Cymru am y pum mlwyddyn ariannol ddiwethaf sydd ynghlwm wrth gyhoeddi offerynnau statudol a wnaed gan Weinidogion Cymru a Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor sy'n ymwneud â Chymru[24] yn unig.

*Tabl 6 - Nifer a chostau, yn ôl blwyddyn ariannol, i Lywodraeth Cymru yn ymwneud ag argraffu a chyhoeddi Offerynnau Statudol Cymreig*

| | **BA 2020-21** | **BA 2021-22** | **BA 2022-23** | **BA 2023-24** | **BA 2024-25** |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer yr offerynnau cyffredinol (i) | 282 | 222 | 136 | 120 | 121 |
| Cost offerynnau cyffredinol (ii) | £155,449.00 | £119,809.00 | £72,191.50 | £67,447.25 | £70,206.50 |
| Nifer yr offerynnau lleol | 112 | 130 | 96 | 144 | 159 |
| Cost offerynnau lleol | £10,080.00 | £11,700.00 | £8,640.00 | £14,235.00 | £15,105.00 |
| Cyfanswm nifer yr offerynnau | 394 | 352 | 232 | 264 | 280 |
| Cyfanswm cost offerynnau | £165,529.00 | £131, 509.00 | £80,831.50 | £81,682.25 | £85,311.50 |

24 Mae Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor yn rhan o Gyfres OS y DU; codir tâl ar Lywodraeth Cymru am y rhai sy'n ymwneud â Chymru yn unig, er enghraifft Gorchymyn Addysg (Arolygwyr Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru) (Rhif 2) 2023 (OS 2023/1212)

*Nodiadau:*

*(i) Yn cynnwys: offerynnau statudol a wneir gan Weinidogion Cymru a Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor sy'n ymwneud â Chymru yn unig*

*(ii) Yn cynnwys: cysodi a chyhoeddi offerynnau statudol; taliadau cyhoeddi ychwanegol, gan gynnwys y rheini sy'n deillio o ail gyhoeddi offerynnau sydd wedi eu cymeradwyo gan y Senedd o dan y weithdrefn gadarnhaol "gwnaed"; a chostau cyhoeddi Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor sy'n ymwneud â Chymru yn unig.*

101. Mae Rheoliad 10 o Reoliadau Offerynnau Statudol 1947 yn ei gwneud yn ofynnol i "rifyn blynyddol" gael ei baratoi ac mae'n rhagnodi'r hyn y mae'n rhaid i'r cyhoeddiad hwn ei gynnwys. Yn ei hanfod mae'n gasgliad o'r holl offerynnau statudol cyffredinol sydd wedi eu hargraffu mewn blwyddyn galendr. Mae'r swyddogaeth gyhoeddi yn cael ei chyflawni gan y Llyfrfa fel rhan o'r contract consesiwn cyhoeddi; mae'r costau cynhyrchu yn cael eu talu gan y consesiynydd yn gyfnewid am gyfran o'r gwerthiannau. Cyhoeddwyd y rhifyn diwethaf sy'n cynnwys OSau y DU i Gymru yn 2015 (yn cwmpasu offerynnau a gyhoeddwyd yn 2009).[25]

*Manteision opsiwn 1*

102. O dan opsiwn 1 mae'n anodd nodi unrhyw fantais arall heblaw bod yn gyfarwydd â'r trefniadau presennol ac felly ni fyddai unrhyw bosibilrwydd o ddryswch ynghylch trefniadau ar wahân yng Nghymru ar gyfer argraffu a chyhoeddi offerynnau statudol, i Loegr neu'r DU yn ehangach. Ni ellir meintioli tebygolrwydd y dryswch hwn ond bernir nad yw'n debygol iawn y bydd dryswch o gwbl.

*Casgliad*

103. O dan y dewis hwn byddai'r diffygion a'r nodweddion annigonol a nodwyd yn y fframwaith deddfwriaethol presennol, yn parhau. Ni fyddai unrhyw gamau yn cael eu cymryd i sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol i hygyrchedd y gyfraith ddwyieithog sy'n gymwys yng Nghymru, nac arbedion cost peidio â'i gwneud yn ofynnol bellach bod gorchmynion traffig ffyrdd dros dro yn cael eu gwneud drwy offeryn statudol. O'r herwydd, nid dyma'r opsiwn a ffefrir.

***Opsiwn 2 – Datblygu darpariaethau pwrpasol ar gyfer gwneud a chyhoeddi deddfwriaeth Cymru***

[25] Deellir bod yr Archifau Gwladol a'r consesiynydd presennol wrthi'n trafodaeth argraffu rhifynnau blynyddol ar gyfer 2010 ymlaen

104. Dewis 2 yw datblygu darpariaethau newydd (ar wahân) ar gyfer Cymru sy'n dwyn ynghyd ac yn ffurfioli:

a. y trefniadau gweithdrefnol ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth Cymru, a

b. y gofynion ar gyfer cyhoeddi Deddfau Senedd Cymru ac offerynnau statudol Cymreig, ac is-ddeddfwriaeth arall nad yw'n cael ei gwneud drwy offeryn statudol.

105. O dan yr opsiwn hwn, y bwriad mewn perthynas â Deddfau'r Senedd yw ailddatgan effaith bresennol adran 115 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ond nodi'n glir y rhwymedigaeth ar gyfer cyhoeddi.

106. O ran offerynnau statudol, y bwriad yw cadw rhywfaint o gysondeb ag effaith bresennol Deddf 1946 a'r rheoliadau cysylltiedig ond gwneud darpariaeth bwrpasol i Gymru, i gynnwys:

a. is-ddeddfwriaeth sydd i'w gwneud mewn dogfen i'w galw (yn ffurfiol) "offeryn statudol Cymreig" ac i gael set symlach ac wedi ei chodeiddio o weithdrefnau'r Senedd sy'n gymwys i wneud deddfwriaeth o'r fath;

b. darpariaeth ynghylch rhifo, dosbarthu, cyhoeddi a chadw pob offeryn statudol Cymreig;

c. tri phrif fath o graffu gan y Senedd ar offerynnau statudol Cymreig: "gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd", "gweithdrefn gadarnhau'r Senedd" a "gweithdrefn ddiddymu'r Senedd". Os nad yw offeryn yn ddarostyngedig i un o'r tair gweithdrefn hyn, rhaid ei osod gerbron y Senedd ar ôl iddo gael ei wneud;

d. peidio â'i gwneud yn ofynnol bellach bod gorchmynion traffig ffyrdd dros dro yn cael eu gwneud drwy offeryn statudol.

107. Bydd Argraffydd Deddfau Seneddol y Brenin yn gyfrifol am gyhoeddi Deddfau'r Senedd ac offerynnau statudol Cymreig, ac wrth gyflawni'r swyddogaethau hyn cyfeirir ato fel Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru.

108. Ar gyfer cyhoeddi is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru heblaw fel offeryn statudol Cymreig, y bwriad yw codeiddio'r trefniadau anneddfwriaethol presennol.

*Dwy Ddeddf*

109. Byddai Deddf 1946 yn dal yn gymwys mewn perthynas â rhai OSau a wneir gan Weinidogion Cymru: pan fo Gweinidogion Cymru yn gwneud offeryn cyfansawdd neu'n arfer eu pwerau ar y cyd â'r Ysgrifennydd Gwladol, byddai'r offeryn sy'n deillio o hynny yn rhan o gyfres Offerynnau Statudol y DU. Mae hyn yn adlewyrchu'r trefniadau presennol (lle nad yw offerynnau o'r fath yn destun rhif is-gyfres Cymru) a'r sefyllfa sy'n digwydd mewn perthynas â'r Alban os bydd Gweinidogion yr Alban a'r Ysgrifennydd Gwladol perthnasol yn gwneud offerynnau tebyg. Mae trafodaethau â'r Archifau Gwladol ar y pwynt hwn yn dangos ei bod yn well osgoi sefyllfa lle y gallai fod gan un ddogfen fersiynau cyhoeddedig, lluosog, ar wahân mewn cyfresi gwahanol.

110. Bydd Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor sy'n gymwys mewn perthynas â Chymru yn unig hefyd yn parhau i fod yn destun gofynion Deddf 1946.

111. Nid yw meddu ar ddwy Ddeddf sy'n gymwys mewn perthynas ag offerynnau statudol (gan gynnwys offerynnau statudol Cymreig) sy'n gymwys mewn perthynas â Chymru yn y ffordd a nodir uchod, yn ein barn ni, yn negyddu manteision cael Deddf ar wahân ar gyfer Cymru, yn enwedig mewn cyd-destun lle mae angen cydnabyddedig i ddeddfwriaeth ddwyieithog fod yn gymwys i'r gyfraith ddwyieithog a wneir yng Nghymru. Gellid dweud bod meddu ar ddwy Ddeddf yn deillio'n anochel, ym mhob un o fodelau datganoli presennol y DU, o gael Deddfau Offerynnau Statudol 'datganoledig' ar waith ochr yn ochr â Deddf 1946. Mae mater tebyg yn codi yn achos Gogledd Iwerddon oherwydd Gorchymyn Rheolau Statudol (Gogledd Iwerddon) 1979[26] ac yn achos yr Alban drwy Ddeddf Dehongli a Diwygio Deddfwriaethol (Yr Alban) 2010 (dsa 10) a'r rheoliadau[27] cysylltiedig. Nid oes unrhyw dystiolaeth bod hyn wedi achosi problemau penodol.

112. Mae dod â'r trefniadau ar gyfer cyhoeddi a chadw Deddfau'r Senedd i mewn i'r ddeddfwriaeth newydd yn osgoi'r sefyllfa bresennol lle mae'r ddarpariaeth ynghylch offerynnau statudol a Deddfau mewn deddfiadau gwahanol. Yn hytrach, byddai'n dilyn y trefniadau sy'n gymwys i'r Alban, ac sy'n gliriach, fe ellid dadlau, lle mae'r ddarpariaeth ynghylch Deddfau Senedd yr Alban ac Offerynnau Statudol yr Alban mewn un Ddeddf - sef Deddf 2010 a nodir uchod.

*Costau opsiwn 2*

113. Mae'r Archifau Gwladol wedi nodi y bydd rhai costau trosiannol cymedrol i ailwampio'r system gyhoeddi a'r platfform legislation.gov.uk i drin offerynnau statudol Cymreig fel

[26] OS 1979/1573 (GI 12)
[27] Rheoliadau Offerynnau Statudol yr Alban 2011 (OSA 2011/195)

cyfres gwbl ar wahân i'r gyfres bresennol lle mae offerynnau a wneir gan Weinidogion Cymru yn perthyn. Y gost untro ddangosol, a fyddai'n codi cyn i'r offerynnau newydd gael eu gwneud, yw £45,000.

114. Ni nodwyd unrhyw gostau trosiannol eraill ar gyfer cyrff cyhoeddus eraill na Llywodraeth Cymru.

115. Nid yw'r ffioedd sy'n gysylltiedig â'r trefniadau argraffu a chyhoeddi (fel yr esbonnir yn Nhabl 5 uchod) wedi eu newid gan yr opsiwn hwn.

116. Byddai cynnydd ymylol iawn yn nifer yr offerynnau statudol a gâi eu gosod gerbron y Senedd: ar hyn o bryd os nad oes angen gosod offeryn ar ôl iddo gael ei wneud, yn gyffredinol nid yw'n cael ei osod. Nid yw hyn yn golygu na chaiff y Senedd graffu arno serch hynny. Mae Rheol Sefydlog 21.7 y Senedd yn darparu y caiff 'Pwyllgor cyfrifol' (sef y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at y diben hwn ar hyn o bryd) ystyried ac adrodd ar *"arfer pwerau cychwyn gan Weinidogion Cymru"*[28], ac nad yw'r rhan fwyaf o orchmynion cychwyn neu orchmynion diwrnod penodedig yn destun gofyniad i'w gosod. Yn ogystal, caiff y Pwyllgor cyfrifol ystyried ac adrodd ar *"unrhyw fater deddfwriaethol cyffredinol ei natur sy'n ymwneud â chymhwysedd y Senedd neu gymhwysedd Gweinidogion Cymru"*[29]. Dros y pum mlwyddyn ariannol ddiwethaf gwnaed 13 o orchmynion cychwyn ar gyfartaledd a rhyw 18[30] o offerynnau ddim gweithdrefn eraill (gan gynnwys gorchmynion diwrnod penodedig ). Nid oes modd meintioli unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r cynnydd ymylol hwn mewn offerynnau sy'n cael eu gosod; ond o ran costau i Lywodraeth Cymru byddai'r rhain yn gostau cyfle gan y byddai amser ac adnoddau staff yn rhan o baratoi Memorandwm Esboniadol byr i'w osod ochr yn ochr â'r offeryn (os yw'r Rheolau Sefydlog presennol yn dal yn gymwys)[31]. Mae effeithiau ymylol hefyd i Senedd Cymru (ar yr wyneb) yn gysylltiedig â chraffu ar ychydig yn fwy o offerynnau nag ar hyn o bryd; er hynny, mae'n wir bod y Pwyllgor cyfrifol presennol eisoes yn craffu ar rai offerynnau o'r math hwn.

117. Byddai arbedion cost o ran gwariant o dan yr opsiwn hwn, gan y byddai'r cynnig i beidio â'i gwneud yn ofynnol i orchmynion traffig ffyrdd lleol gael eu gwneud fel offerynnau statudol yn lleihau nifer yr offerynnau lleol a wneir yn sylweddol. Mae tabl 6 yn nodi nifer yr offerynnau o'r fath a wnaed dros y pum mlwyddyn ariannol ddiwethaf a'r costau cysylltiedig. Am y cyfnod hwn gwnaed cyfanswm o 641 o offerynnau o'r fath ar gost o £59,760 i Lywodraeth Cymru. Yn seiliedig ar nifer cyfartalog yr offerynnau a

[28] RhS 21.7(iv)
[29] RhS 21.7(v)
[30] Mae'r ffigur hwn yn cynnwys 29 o orchmynion trefniadau etholiadol, a fyddai, os na chânt eu cynnwys, yn dod â'r cyfanswm cyfartalog yn nes at 12 y flwyddyn
[31] Gweler RhS 27.1

wnaed dros y pum mlynedd hyn (129 o offerynnau), mae arbedion posibl ar gost heddiw o £95.00 yr offeryn, sef £12.3k y flwyddyn i Lywodraeth Cymru. Byddai arbedion o'r fath yn cronni o ddechrau'r trefniadau newydd – disgwylir ar hyn o bryd mai ddeufis ar ôl y Cydsyniad Brenhinol y bydd hyn.

118. Cyhoeddir yr holl orchmynion traffig ffyrdd lleol a wneir drwy offeryn statudol ar hyn o bryd ar wefannau legislation.gov.uk a LLYW.CYMRU; mae'r ail wefan hefyd yn cynnwys yr hyn a elwir yn "orchmynion cau" nad ydynt yn cael eu gwneud fel offerynnau statudol. Y bwriad yw y bydd cyhoeddi gorchmynion traffig ffyrdd yn parhau ar LLYW.CYMRU ond nid ar ffurf offeryn statudol (neu offeryn statudol Cymreig). Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol newydd yn deillio o gyhoeddi ar LLYW.CYMRU fel hyn (ac nid oes effaith ar y costau presennol yn ymwneud ag amser staff o ran paratoi a chyhoeddi i'r safle).

*Manteision opsiwn 2*

119. Byddai'r opsiwn hwn yn arwain at ddeddfwriaeth fodern a dwyieithog sy'n bwrpasol i Gymru. Byddai'n gwella ar Ddeddf 1946 - nid yn unig am y byddai'n adlewyrchu'n llawn y trefniadau modern ar gyfer cyhoeddi ac yn ddwyieithog ond hefyd am na fyddai'r Bil, yn wahanol i Ddeddf 1946, ond yn cynnwys darpariaeth sy'n berthnasol i'r gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru (ac nid y gyfraith sy'n gymwys mewn mannau eraill yn y DU).

120. Byddai mantais gyfansoddiadol Deddf ar wahân sy'n gwneud darpariaethau ar gyfer gweithdrefn, argraffu a chyhoeddi offerynnau statudol Cymreig yn arwyddocaol ac mae'n fwy cyson â'r egwyddor a nodir yn adran 5 o Ddeddf 2019 ac adran 156 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (cydraddoldeb ieithoedd) na'r fframwaith deddfwriaethol presennol.

121. Rydym yn cydnabod y byddai dwy Ddeddf sy'n ymwneud ag offerynnau statudol sy'n gymwys i offerynnau a wneir yn gyfan gwbl neu'n rhannol mewn perthynas â Chymru yn weithredol, o dan yr opsiwn hwn. Er hynny, rydym o'r farn y byddai manteision creu Deddf ar wahân sy'n gwneud darpariaethau yn benodol ar gyfer gweithdrefn, argraffu a chyhoeddi offerynnau Cymru yn drech nag unrhyw anfanteision posibl sy'n deillio o feddu ar ddwy Ddeddf.

***Asesiad cystadleuaeth***

122. Mae'r prawf hidlo cystadleuaeth wedi ei gymhwyso mewn perthynas â'r opsiynau ar gyfer Rhannau 1 a 2 o'r Bil. Ni ddisgwylir i'r darpariaethau yn y Rhannau hyn o'r Bil effeithio ar gystadleuaeth yng Nghymru na chystadleurwydd busnesau Cymru.

***Casgliad (a'r opsiwn a ffefrir)***

123. Mae Cymru wedi datblygu corff o ddeddfwriaeth ddwyieithog a fydd yn parhau i ehangu yn y dyfodol. Mae'n bwysig bod y trefniadau ar gyfer gwneud a chyhoeddi Deddfau'r Senedd, offerynnau statudol Cymreig ac is-ddeddfwriaeth arall yn addas i'r diben, yn ddwyieithog ac yn adlewyrchu arferion Senedd Cymru fel deddfwrfa fodern. Byddai'r trefniadau presennol, er eu bod yn gweithredu yn y cefndir, yn elwa o gael eu gwella. Mae cyfle hefyd i arbed costau i Lywodraeth Cymru yn gysylltiedig â deddfwriaeth traffig ffyrdd dros dro.

124. Am y rhesymau hyn, opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir.

***Nodyn ychwanegol ynghylch ffurf offerynnau statudol Cymreig***

125. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i foderneiddio ffurf a strwythur deddfwriaeth Cymru ac mewn perthynas ag offerynnau statudol mae hyn yn cynnwys symud i ffwrdd o fformat[32] dwy golofn printiedig. Disgwylir mai un o fanteision newid o'r fath fydd lleihad (os nad diwedd o bosibl) ar gostau'r taliadau cysodi sy'n disgyn i Lywodraeth Cymru (i gael esboniad o'r taliadau gweler paragraff 97 uchod).

126. Mae tabl 7 isod yn dangos nifer y tudalennau a chostau cysodi dros y pum mlwyddyn ariannol ddiwethaf, ynghyd â nifer cyfartalog tudalennau a chostau fesul offeryn.

*Tabl 7 – Costau, yn ôl blwyddyn ariannol, i Lywodraeth Cymru yn ymwneud â chysodi offerynnau statudol a wneir gan Weinidogion Cymru*

| | BA 2020-21 | BA 2021-22 | BA 2022-23 | BA 2023-24 | BA 2024-25 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr offerynnau y mae cysodi'n gymwys iddynt (i) | 279 | 220 | 136 | 118 | 120 |
| Cyfanswm nifer y tudalennau | 3,378 | 2,948 | 1,883 | 1,822 | 1,787 |
| Cyfanswm cost cysodi | £52,359.00 | £45,694.00 | £29,186.50 | £29,617.25 (ii) | £30,846.50 (iii) |

[32] Gweler paragraffau 28(c) o raglen y Llywodraeth sef Rhaglen i wella hygyrchedd cyfraith Cymru (diwygiwyd Ionawr 2021)

| | BA 2020-21 | BA 2021-22 | BA 2022-23 | BA 2023-24 | BA 2024-25 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfrif tudalennau ar gyfartaledd fesul offeryn (iv) | 12 | 13 | 14 | 15 | 15 |
| Cost gyfartalog cysodi fesul offeryn (v) | £188 | £208 | £242 | £251 | £257 |

*Nodiadau:*

*(i) Yn cynnwys offerynnau statudol a wneir gan Weinidogion Cymru yn unig (nid yw'n cynnwys Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor)*

*(ii) Yn ystod cyfnod y Flwyddyn Ariannol 2023-24 cynyddodd y ffi gysodi fesul tudalen (gweler Tabl 5)*

*(iii) Yn cynnwys tâl cysodi ail broflen ar gyfer un offeryn*

*(iv) Talgrynnwyd i'r rhif cyfan agosaf (nifer y tudalennau wedi eu rhannu â nifer yr offerynnau)*

*(v) Talgrynnwyd i'r bunt lawn agosaf (cost wirioneddol wedi ei rannu â nifer yr offerynnau)*

127. Dros y pum mlwyddyn ariannol ddiwethaf, mae'r tâl cysodi yn cyfateb i ychydig yn llai na £188k.

128. Mae ffyrdd o sicrhau gostyngiad yn y costau hyn yn cael eu harchwilio gyda'r Archifau Gwladol. Gan na fyddai symud i ffwrdd o fformat dwy golofn (o bosibl i offerynnau statudol Cymreig sy'n cael eu cyhoeddi mewn fformat sy'n debycach i Ddeddfau Senedd Cymru) yn gofyn am ddiwygio deddfwriaethol ac nid yw'n rhan o'r cynigion yn y Bil, ni chaiff y costau, yr arbedion a'r manteision posibl eu harchwilio ymhellach yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn ac nid ydynt yn rhan o'r crynodeb o'r effeithiau. Yn hytrach, mae'r wybodaeth hon wedi ei chynnwys yma at ddibenion cyfeirio yn unig.

## Rhannau 3 a 4 o'r Bil

129. Nid oes RIA wedi ei gwblhau ar gyfer Rhannau 3 a 4 o'r Bil. Diben y Rhannau hynny yw dileu neu ddatgymhwyso darpariaethau nad ydynt o ddefnyddioldeb ymarferol neu o fudd yng Nghymru, a gwneud mân ddiwygiadau i Ddeddf 2019. O'r herwydd, nid oes unrhyw ddyletswyddau, hawliau na rhwymedigaethau newydd yn cael eu creu. Nid oes rhaglen weithredu ynghlwm wrth yr elfennau hynny o'r Bil yn dilyn ei ddeddfu ac nid oes unrhyw ganllawiau, is-ddeddfwriaeth na gwaith codi ymwybyddiaeth ehangach y

mae angen eu rhoi ar waith. Felly, nid ydym yn rhag-weld unrhyw gostau gweinyddol, costau cydymffurfio na chostau eraill oherwydd y Rhannau hyn o'r Bil.

130. Fel y nodwyd yn y Memorandwm Esboniadol ar gyfer Bil Deddfwriaeth (Cymru) a ystyriwyd gan y Senedd yn 2019, bydd gwneud deddfwriaeth yn fwy hygyrch yn lleihau'r amser a'r adnodd y mae eu hangen ar gyfer ymchwil gan unigolion a chyfreithwyr sy'n cynghori ar faterion gweithredol; er hynny nid oes modd meintioli'r fantais hon mewn termau ariannol gydag unrhyw fesur o sicrwydd. Ar y gorau gellid dweud y byddai'r Rhannau hyn o'r Bil yn cael effaith gadarnhaol fach iawn o ran arbed amser ac adnodd, ond eu prif ddiben yw cyfrannu at dacluso’r llyfr statud a rhoi eglurder ynghylch pa gyfreithiau sy'n berthnasol i Gymru. Mae'r arbedion felly yn anhysbys.

## Cronfa Gyfunol Cymru

131. Nid oes unrhyw ddarpariaethau yn y Bil sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru. Mae paragraff 7(13) o Atodlen 1 i'r Bil yn dileu darpariaeth sy'n caniatáu codi tâl ar Gronfa Gyfunol Cymru yn Neddf Tai 1988, a ddaw'n afraid oherwydd newidiadau eraill sy'n cael eu gwneud i'r Ddeddf honno gan y Bil hwn. Nid yw'r diddymiad hwn yn dod o dan Reol Sefydlog 26.6(xi).

# Rhan 5 – Asesiadau effaith ac adolygiad ôl-weithredu

## Asesiad effaith integredig

132. Cynhaliwyd cyfres o asesiadau effaith ar gyfer Deddf 2019, gan gynnwys mewn perthynas â Rhan 1 o'r Ddeddf honno sy'n sefydlu'r dyletswyddau a'r gofynion ar gyfer gwella hygyrchedd cyfraith Cymru. Mae'r Bil hwn yn rhan o raglen ddilynol y Llywodraeth i wella hygyrchedd cyfraith Cymru, a oedd ei hun yn destun asesiad effaith integredig pellach. Mae'r asesiad effaith integredig hwnnw yn parhau i gael ei adolygu.

## Asesiad o’r effaith ar gyfiawnder

133. Ystyriwyd effeithiau posibl y cynigion ar y system gyfiawnder, gan arwain at asesiad nad yw'r Bil yn debygol o gael unrhyw effaith ar y system gyfiawnder.

## Adolygiad ôl-weithredu

134. Mae’r Llywodraeth yn cydnabod pwysigrwydd adolygu deddfwriaeth ar ôl ei deddfu. Fodd bynnag, nid ydym o’r farn fod angen cynnal adolygiad ôl-weithredu yn achos y Bil technegol hwn am ei fod yn diwygio deddfwriaeth arall yn hytrach na chreu darpariaeth newydd o sylwedd mewn deddfwriaeth ar wahân. Yn benodol:

   a. Pan fyddant mewn grym, bydd y materion a drafodir yn Atodlen 1 i'r Bil yn cael eu diddymu neu eu diwygio ac ni fydd ganddynt unrhyw effaith gyfreithiol bellach.

   b. Mae'r mân ddiwygiadau i Ddeddf 2019 yn cael eu gwneud (a) mewn ymateb i'r adolygiad cynharach o weithrediad Deddf 2019 ei hun a (b) mewn perthynas â'r cynigion ar gyfer gwneud a chyhoeddi deddfwriaeth Cymru.

135. Yn y bôn, moderneiddio a chodeiddio'r trefniadau presennol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, Deddf Offerynnau Statudol 1946 a deddfiadau cysylltiedig y mae'r darpariaethau sy'n ymwneud â gwneud a chyhoeddi deddfwriaeth Cymru. Serch hynny, byddwn yn parhau i ystyried effeithiolrwydd gweithredu Rhannau 2A a 2B newydd o Ddeddf 2019.

*Gadawyd y dudalen hon yn wag yn fwriadol*

## Atodiad A – Nodiadau Esboniadol i Fil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru)

# BIL DEDDFWRIAETH (GWEITHDREFN, CYHOEDDI A DIDDYMIADAU) (CYMRU)

## NODIADAU ESBONIADOL

**CYFLWYNIAD**

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer y Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) a gyflwynwyd i Senedd Cymru ar 21 Hydref 2024. Fe'u lluniwyd gan Swyddfa Cwnsleriaid Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Bil. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Bil ond nid ydynt yn rhan ohono.

2. Ni fwriedir i'r Nodiadau Esboniadol fod yn ddisgrifiad cynhwysfawr o gynnwys y Bil. Os ymddengys nad oes angen rhoi unrhyw esboniad neu sylw ar ddarpariaeth unigol yn y Bil, nis rhoddir.

**CRYNODEB A CHEFNDIR**

3. Diben y Bil yw:

   a. rhoi'r canlynol at ei gilydd a'u ffurfioli:

      i. y trefniadau gweithdrefnol ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth Cymru, a

      ii. y gofynion o ran cyhoeddi Deddfau Senedd Cymru ac offerynnau statudol Cymreig, ac is-ddeddfwriaeth arall nas gwneir drwy offeryn statudol.

   b. gwella hygyrchedd cyfraith Cymru drwy:

      i. diddymu, diwygio a datgymhwyso fel arall o ran Cymru ddeddfiadau nad ydynt o ddefnyddioldeb ymarferol neu o fudd mwyach; a

      ii. gwneud mân ddiwygiadau i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019.

4. Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar Fil drafft yn ymwneud â diddymiadau ym mis Hydref 2022, ac ystyriwyd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwnnw wrth ddatblygu'r Bil i'w gyflwyno.

5. Mae'r Bil yn rhan o raglen ehangach Llywodraeth Cymru i wneud cyfraith Cymru yn fwy hygyrch ac i egluro a symleiddio gweithrediad deddfwriaeth Cymru.

## SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

## RHAN 1 – Y WEITHDREFN AR GYFER GWNEUD IS-DDEDDFWRIAETH CYMRU

6. Mae Rhan 1 o'r Bil yn diwygio Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4) ('Deddf 2019') i wneud darpariaeth ynghylch gweithdrefnau yn y Senedd ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth Cymru. Mae Rhan 2 o'r Bil yn diwygio Deddf 2019 i wneud darpariaeth ynghylch cyhoeddi a chadw deddfwriaeth Cymru. Ar hyn o bryd mae Deddf 2019 yn gwneud darpariaeth ynghylch dehongli a gweithredu deddfwriaeth Cymru yn ogystal â gosod dyletswyddau ar y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidogion Cymru i wneud cyfraith Cymru yn fwy hygyrch.

7. Mae Rhan 1 o'r Bil yn diwygio Deddf 2019 drwy fewnosod Rhan 2A newydd (ac Atodlenni 1A, 1B ac 1C). Mae Rhan 2A newydd o Ddeddf 2019 yn rhoi'r cysyniad o "offeryn statudol Cymreig" ar sail statudol; mae hefyd yn nodi ac yn enwi mathau penodol o weithdrefnau y mae angen i is-ddeddfwriaeth Cymru y mae'n ofynnol ei gwneud drwy offeryn statudol eu dilyn yn y Senedd.

8. Ar ôl i Ran 2A newydd ddod i rym, os yw deddfiad (megis Deddf gan Senedd Cymru neu Ddeddf gan Senedd y DU, ond gweler Atodlen 1 i Ddeddf 2019 ar gyfer y diffiniad o "deddfiad") yn darparu bod darn penodol o is-ddeddfwriaeth o'r fath yn ddarostyngedig i weithdrefn benodol a enwir yn Rhan 2A, bydd gofynion y weithdrefn honno yn gymwys i'r broses o wneud yr is-ddeddfwriaeth honno. Mae hyn yn golygu y bydd modd i ddeddfiadau gymhwyso'r gweithdrefnau penodol a nodir yn Rhan 2A heb orfod disgrifio manylion y gweithdrefnau hynny bob tro.

9. Mae Rhan 2A hefyd yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad ag is-ddeddfwriaeth newydd Cymru sydd i'w gwneud o dan ddeddfiadau a ddeddfwyd neu a wnaed cyn i Ran 2A ddod i rym. Mewn achosion o'r fath, bydd y rhan fwyaf o is-ddeddfwriaeth bellach yn cael ei gwneud fel offeryn statudol Cymreig (yn hytrach nag fel offeryn statudol o fewn ystyr adran 1 o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 (p. 36)). Bydd yn ddarostyngedig i un o'r gweithdrefnau yn y Senedd a nodir yn Rhan 2A, er nad oedd y deddfiad y gwneir yr is-ddeddfwriaeth odano yn defnyddio un o'r termau a ddefnyddir i ddisgrifio'r weithdrefn honno.

10. Mae offerynnau a wneir gan Weinidogion Cymru yn gweithredu ar y cyd ag, er enghraifft, Ysgrifennydd Gwladol yn Llywodraeth y DU, neu offerynnau a wneir fel Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor, yn ddarostyngedig i fersiynau addasedig o'r gweithdrefnau newydd yn y Senedd.

11. Mae Rhan 1 o'r Bil hefyd yn diwygio Deddf Priffyrdd 1980 (p. 66) a Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (p. 27) fel nad yw'n ofynnol gwneud gorchmynion traffig ffyrdd dros dro drwy offeryn statudol (neu offeryn statudol Cymreig) mwyach.

**Adran 1 – Rhan 2A newydd o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019**

12. Mae'r adran hon yn diwygio Deddf 2019 drwy fewnosod Rhan 2A newydd a thair Atodlen newydd. Mae Rhan 2A newydd yn cynnwys adrannau 37A i 37H ac Atodlenni 1A, 1B ac 1C, y mae gwybodaeth amdanynt wedi ei nodi isod.

*Adran 37A – Offerynnau statudol Cymreig*

13. Mae adran 37A yn cynnwys y diffiniad o "offeryn statudol Cymreig". Mae'n ddogfen sy'n cynnwys "is-ddeddfwriaeth Cymru". Mae'r term "is-ddeddfwriaeth" ei hun wedi ei ddiffinio yn Atodlen 1 i Ddeddf 2019 ac mae'n golygu pethau fel gorchmynion, rheoliadau a rheolau. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod pethau o'r fath yn dod o fewn ystyr y term "is-ddeddfwriaeth Cymru", rhaid i'r ddeddfwriaeth gael ei gwneud gan Weinidogion Cymru neu awdurdod Cymreig datganoledig. Diben y gofyniad hwn yw os yw Gweinidogion Cymru yn gweithredu ar y cyd â pherson arall nad yw'n awdurdod Cymreig datganoledig i wneud yr is-ddeddfwriaeth (er enghraifft, Ysgrifennydd Gwladol), yna bydd yr offeryn sy'n deillio o hynny'n parhau i gael ei wneud fel offeryn statudol. Yn yr un modd, byddai Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor a wneir o ran Cymru yn unig yn parhau i gael ei wneud fel offeryn statudol.

14. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) ('Deddf 2006') yn darparu ystyr "Gweinidogion Cymru" (gweler adran 48). Fodd bynnag, at ddibenion diffinio "offeryn statudol Cymreig" mae'r term "Gweinidogion Cymru" yn cynnwys Cynulliad Cenedlaethol Cymru a sefydlwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p. 38) (gweler adran 37A(4)). O dan Ddeddf 1998 roedd gan y Cynulliad Cenedlaethol hwnnw rychwant o bwerau i wneud is-ddeddfwriaeth, y trosglwyddwyd y rhan fwyaf ohonynt wedyn i Weinidogion Cymru gan Ddeddf 2006. Mae rhoi offerynnau sy'n cynnwys is-ddeddfwriaeth a wnaed gan y Cynulliad Cenedlaethol hwnnw yn y diffiniad o "offeryn statudol Cymreig" yn berthnasol i rai o'r darpariaethau ynghylch offerynnau statudol Cymreig yn Rhan 2B newydd o Ddeddf 2019, ond nid i'r darpariaethau gweithdrefnol yn Rhan 2A.

15. Mae Deddf 2006 hefyd yn diffinio "awdurdod Cymreig datganoledig" (gweler adran 157A). Mae awdurdod Cymreig datganoledig yn cynnwys cyrff fel Tribiwnlys y Gymraeg.

16. Un o effeithiau adran 37A yw y daw'r holl offerynnau statudol presennol a wnaed gan Weinidogion Cymru neu awdurdod Cymreig datganoledig, pan na wnaed y ddeddfwriaeth ar y cyd â pherson arall, yn offerynnau statudol Cymreig. Er na fydd prin ddim newid yn ymarferol o ganlyniad i hyn, mae'n rhoi sail statudol i'r dosbarthiad yr oedd Argraffydd Deddfau Seneddol y Brenin wedi bod yn ei ddefnyddio i nodi offerynnau statudol a wnaed gan Weinidogion Cymru (a chan Gynulliad Cenedlaethol Cymru cyn hynny) ers 1999.

17. Effaith arall yw na fydd Deddf Offerynnau Statudol 1946 (p. 36) ('Deddf 1946') yn gymwys mwyach i'r offerynnau presennol sy'n dod o fewn y diffiniad o "offeryn statudol Cymreig" (nac offerynnau statudol Cymreig yn y dyfodol, o ran hynny), ond yn hytrach bydd Rhan 2B newydd o Ddeddf 2019 yn gymwys iddynt. Mae paragraff 1 o Atodlen 3 i'r Bil yn datgymhwyso Deddf 1946 i offerynnau a wneir gan Weinidogion Cymru.

18. Mae gofynion presennol i Weinidogion Cymru ac awdurdodau Cymreig datganoledig wneud darnau penodol o is-ddeddfwriaeth fel offeryn statudol wedi eu 'trosi' yn

ofynion i wneud y ddeddfwriaeth honno fel offeryn statudol Cymreig. Dyma effaith adran 37H ac Atodlen 1A (gweler isod).

19. Yn hytrach na darparu bod darn penodol o is-ddeddfwriaeth i'w wneud fel "offeryn statudol" (gan fod yn ddarostyngedig i ofynion Deddf 1946), bydd Deddfau Senedd Cymru yn y dyfodol yn darparu bod y darn penodol hwnnw o is-ddeddfwriaeth i'w wneud fel "offeryn statudol Cymreig". Bydd yr offeryn hwn wedyn yn ddarostyngedig i'r agweddau perthnasol ar Ran 2B o ran rhifo, cyhoeddi a chadw offerynnau o'r fath. Os bydd Deddf gan Senedd y DU yn y dyfodol yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru neu awdurdod Cymreig datganoledig arall i wneud is-ddeddfwriaeth (i'w harfer wrth weithredu ar eu pennau eu hunain yn hytrach na, dyweder, ar y cyd ag Ysgrifennydd Gwladol), dylai'r Deddfau hynny hefyd ddarparu y gwneir yr is-ddeddfwriaeth fel "offeryn statudol Cymreig".

*Adran 37B – Dehongli*

20. Mae'r adran hon yn nodi ystyr y term "awdurdod cyfrifol" a ddefnyddir yn Rhan 2A a Rhan 2B. Mae'n golygu'r corff neu'r person a wnaeth yr is-ddeddfwriaeth o dan sylw, ac eithrio yn achos is-ddeddfwriaeth a gadarnhawyd neu a gymeradwywyd hefyd gan Weinidogion Cymru, y Prif Weinidog neu'r Cwnsler Cyffredinol. Mewn achos o'r fath yr "awdurdod cyfrifol" yw Gweinidogion Cymru.

21. Mae gan berson sy'n "awdurdod cyfrifol" swyddogaethau penodol o dan y ddwy Ran. Er enghraifft, os yw darn penodol o is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru yn ddarostyngedig i "gweithdrefn annilysu'r Senedd" ac yn cael ei annilysu, rhaid i Weinidogion Cymru (fel yr "awdurdod cyfrifol" ar gyfer y ddeddfwriaeth honno) ddirymu'r is-ddeddfwriaeth (gweler adran 37E(4)).

22. Fel enghraifft arall, o dan adran 37N rhaid i'r awdurdod cyfrifol ar gyfer offeryn statudol Cymreig anfon copi ardystiedig o'r offeryn hwnnw i Lyfrgell Genedlaethol Cymru (fel y gellir ei gadw) ac at Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru (felly gellir ei gyhoeddi).

23. Mae'r adran hon hefyd yn egluro sut y mae penderfyniad gan yr awdurdod cyfrifol i ddosbarthu offeryn statudol Cymreig yn "offeryn lleol" i'w wneud. Mae offerynnau lleol yn tueddu i fod yn gymwys i ardal benodol neu unigolion neu bersonau penodol yn unig, ac felly maent yn annhebygol o fod yn gymwys yn gyffredinol neu o ddiddordeb cyffredinol. Nid oes angen gosod offerynnau lleol gerbron y Senedd (o dan adran 37F) na'u hanfon i Lyfrgell Genedlaethol Cymru i'w cadw (o dan adran 37N).

*Adran 37C – Gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd*

24. Mae adran 37C yn diffinio'r hyn y mae'n ei olygu pan fo deddfiad yn darparu bod is-ddeddfwriaeth sydd i'w gwneud fel offeryn statudol Cymreig yn ddarostyngedig i "gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd".

25. Ni ellir ond gwneud is-ddeddfwriaeth o'r fath os yw drafft o'r offeryn statudol Cymreig wedi ei osod gerbron y Senedd ac wedi ei gymeradwyo ganddi wedyn. Mae'r Senedd yn cymeradwyo offerynnau drwy benderfyniad (yn yr achos hwn, penderfyniad yn dilyn dadl yn y Cyfarfod Llawn).

26. Mae adran 12A newydd o Ddeddf 2019 yn egluro'r hyn a olygir gan osod dogfen gerbron Senedd Cymru (gweler hefyd baragraff 215 isod).

27. Ar gyfer cymhwyso'r weithdrefn hon i is-ddeddfwriaeth newydd a wneir gan awdurdod cyfrifol o dan ddeddfiadau a wnaed neu a ddeddfwyd cyn i Ran 2A ddod i rym, gweler adran 37H ac Atodlen 1A. Ar gyfer is-ddeddfwriaeth o'r fath a wneir gan Weinidogion Cymru yn gweithredu ar y cyd â pherson arall (nid awdurdod Cymreig datganoledig) neu is-ddeddfwriaeth a wneir fel Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor, gweler Atodlenni 1B ac 1C yn y drefn honno.

*Adran 37D – Gweithdrefn gadarnhau'r Senedd*

28. Mae adran 37D yn diffinio'r hyn a olygir pan fydd deddfiad yn darparu bod is-ddeddfwriaeth sydd i'w gwneud fel offeryn statudol Cymreig yn ddarostyngedig i "gweithdrefn gadarnhau'r Senedd".

29. Mae'r weithdrefn hon yn cyfateb i'r hyn a elwir y weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed' a welir mewn deddfwriaeth bresennol benodol. Mae seneddau (gan gynnwys Senedd Cymru) wedi pasio deddfwriaeth sy'n caniatáu i is-ddeddfwriaeth gael ei gwneud o dan y weithdrefn hon pan ddisgwylir y byddai angen i'r sawl sy'n gwneud yr is-ddeddfwriaeth gymryd camau brys. Fodd bynnag, mae angen i gamau o'r fath gael eu cadarnhau gan y ddeddfwrfa er mwyn i'r trefniadau hynny ddod yn barhaol, er enghraifft, mewn perthynas ag argyfwng diogelu iechyd fel pandemig y coronafeirws a gafwyd yn ddiweddar, neu i newid trothwyon treth neu eithriadau treth yn gyflym.

30. Caiff is-ddeddfwriaeth a wneir yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhau'r Senedd ei gwneud gan y person sydd â'r pŵer i wneud y ddeddfwriaeth. Yna caiff yr offeryn statudol Cymreig ei osod gerbron y Senedd, cyn gynted â phosibl ar ôl i'r is-ddeddfwriaeth gael ei gwneud. Ni chaiff yr is-ddeddfwriaeth barhau i gael effaith na dod i rym ar unrhyw adeg yn y dyfodol, oni bai bod y Senedd yn ei chadarnhau wedyn drwy benderfyniad.

31. Bydd deddfiadau sy'n rhagnodi bod darn penodol o is-ddeddfwriaeth i'w wneud drwy weithdrefn gadarnhau'r Senedd fel arfer hefyd yn rhagnodi'r adeg erbyn pryd y mae rhaid i'r Senedd fod wedi cadarnhau'r is-ddeddfwriaeth. Fel arall, caiff y deddfiad bennu digwyddiad penodol erbyn pryd y mae rhaid i'r Senedd fod wedi ei chadarnhau. Er enghraifft, caiff y deddfiad ragnodi bod rhaid i'r Senedd fod wedi cadarnhau'r is-ddeddfwriaeth o fewn 28 o ddiwrnodau i'w gwneud, heb gyfrif unrhyw adeg pan fo'r Senedd ar doriad neu wedi ei diddymu. Neu, i roi enghraifft arall, gallai'r deddfiad ragnodi bod rhaid i'r Senedd fod wedi cadarnhau'r is-ddeddfwriaeth cyn y gellir pasio penderfyniad cyllideb.

32. Mae is-ddeddfwriaeth a wneir o dan weithdrefn gadarnhau'r Senedd, felly, yn peidio â chael effaith os nad yw'r Senedd yn ei chadarnhau am nad yw'n cytuno y dylai'r is-ddeddfwriaeth barhau (ni chaiff y penderfyniad ei basio), neu os yw'r cyfnod o amser y mae'n gallu aros mewn grym ynddo wedi dod i ben, neu os yw'r sefyllfa sy'n ymwneud â'r digwyddiad a ragnodwyd yn digwydd (sy'n golygu na ellir gofyn i'r Senedd ei chadarnhau).

33. Mae is-adran (4) yn darparu pan fo'r is-ddeddfwriaeth yn peidio â chael effaith, os nad yw eisoes mewn grym ni fydd yn dod i rym (ac os yw mewn grym yn rhannol ni fydd yn dod i rym yn llawn). Pan oedd yr is-ddeddfwriaeth eisoes mewn grym neu mewn

grym yn rhannol ar yr adeg y peidiodd â chael effaith, ni ellir gwneud dim byd pellach odani na dibynnu ar ddim byd pellach odani. Yna, rhaid i'r awdurdod cyfrifol, drwy orchymyn a wneir o dan adran 37D(4)(c), ei ddirymu. Bydd dirymu yn helpu i osgoi dryswch i ddarllenwyr y ddeddfwriaeth yn y dyfodol, a allai fod heb sylweddoli fel arall nad yw'r is-ddeddfwriaeth yn cael effaith mwyach. Rhaid gosod y gorchymyn sy'n dirymu'r is-ddeddfwriaeth gerbron y Senedd yn unol ag adran 37F a rhaid iddo gael ei wneud drwy offeryn statudol Cymreig.

34. Pan fo is-ddeddfwriaeth yn peidio â chael effaith, mae unrhyw beth a wnaed odani yn parhau'n ddilys a gellir gwneud is-ddeddfwriaeth bellach o hyd (gweler is-adran (5)).

35. Mae adran 12A newydd o Ddeddf 2019 yn egluro'r hyn a olygir gan osod dogfen gerbron Senedd Cymru (gweler hefyd baragraff 215 isod).

36. Ar gyfer cymhwyso'r weithdrefn hon i is-ddeddfwriaeth newydd a wneir gan awdurdod cyfrifol o dan ddeddfiadau a wnaed neu a ddeddfwyd cyn i Ran 2A ddod i rym, gweler adran 37H ac Atodlen 1A. Ar gyfer is-ddeddfwriaeth o'r fath a wneir gan Weinidogion Cymru yn gweithredu ar y cyd â pherson arall (nid awdurdod Cymreig datganoledig) gweler Atodlen 1B.

*Adran 37E – Gweithdrefn annilysu'r Senedd*

37. Mae adran 37E yn diffinio'r hyn a olygir pan fydd deddfiad yn darparu bod is-ddeddfwriaeth sydd i'w gwneud fel offeryn statudol Cymreig yn ddarostyngedig i "gweithdrefn annilysu'r Senedd".

38. O dan y weithdrefn hon caiff y ddeddfwriaeth ei gwneud gan y person sydd â'r pŵer i'w gwneud, caiff ei gosod gerbron y Senedd a daw i rym. Fodd bynnag, os bydd y Senedd yn penderfynu, cyn diwedd 40 niwrnod sy'n dechrau â'r dyddiad y gosodwyd yr is-ddeddfwriaeth ger ei bron, na ddylai'r ddeddfwriaeth barhau mewn effaith, nid yw'r ddeddfwriaeth yn cael effaith mwyach.

39. Felly mae adran 37E yn darparu:

a. bod rhaid gosod yr is-ddeddfwriaeth gerbron y Senedd cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl iddi gael ei gwneud (is-adran (2)). At hynny, dylid ei gosod o leiaf 21 o ddiwrnodau cyn iddi ddod i rym. Os daw i rym lai na 21 o ddiwrnodau ar ôl iddi gael ei gosod, yna rhaid i'r awdurdod cyfrifol ysgrifennu at Lywydd y Senedd i egluro pam (gweler is-adrannau (6) a (7)).

b. gan ddechrau â'r dyddiad y gosodwyd yr is-ddeddfwriaeth, fod gan y Senedd 40 niwrnod i ystyried a yw'n dymuno penderfynu y dylid annilysu'r ddeddfwriaeth (is-adran (3)). Yn ymarferol byddai hyn yn golygu bod Aelod o'r Senedd yn gosod gerbron y Senedd gynnig y dylid annilysu'r ddeddfwriaeth, bod y Senedd yn cynnal dadl ar y cynnig hwn a bod mwyafrif yr aelodau sy'n pleidleisio yn cytuno â'r cynnig.

c. os yw'r is-ddeddfwriaeth wedi ei hannilysu, fod is-adran (4) yn darparu os nad yw eisoes mewn grym na fydd yn dod i rym, neu os yw mewn grym yn rhannol na fydd yn dod i rym yn llawn; neu pan oedd yr is-ddeddfwriaeth eisoes mewn grym (neu mewn grym yn rhannol) ar yr adeg neu wedi ei hannilysu, na chaniateir gwneud dim byd pellach odani na dibynnu ar ddim

byd pellach odani. Yna rhaid i'r awdurdod cyfrifol, drwy orchymyn, ddirymu'r is-ddeddfwriaeth. Rhaid gosod y gorchymyn hwnnw gerbron y Senedd yn unol ag adran 37F a rhaid iddo gael ei wneud drwy offeryn statudol Cymreig.

d. pan fo is-ddeddfwriaeth wedi ei hannilysu, fod unrhyw beth a wnaed odani yn parhau'n ddilys, ac y caniateir gwneud is-ddeddfwriaeth bellach o hyd (is-adran (5)).

40. Mae'r cyfnodau o 21 o ddiwrnodau a 40 niwrnod yn yr adran hon i'w cyfrifo gan anwybyddu unrhyw amser pan fydd y Senedd ar doriad am fwy na phedwar diwrnod neu wedi ei diddymu (is-adran (8)).

41. Mae adran 12A newydd o Ddeddf 2019 yn egluro'r hyn a olygir gan osod dogfen gerbron Senedd Cymru (gweler hefyd baragraff 215 isod).

42. Ar gyfer cymhwyso'r weithdrefn hon i is-ddeddfwriaeth newydd a wneir gan awdurdod cyfrifol o dan ddeddfiadau a wnaed neu a ddeddfwyd cyn i Ran 2A ddod i rym, gweler adran 37H ac Atodlen 1A. Ar gyfer is-ddeddfwriaeth o'r fath a wneir gan Weinidogion Cymru yn gweithredu ar y cyd â pherson arall (nid awdurdod Cymreig datganoledig) neu is-ddeddfwriaeth a wneir fel Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor, gweler Atodlenni 1B ac 1C yn y drefn honno.

*Adran 37F – Offerynnau statudol Cymreig eraill sydd i'w gosod gerbron Senedd Cymru*

43. Mae adran 37F yn darparu sefyllfa 'ddiofyn' ar gyfer yr hyn sydd i ddigwydd mewn perthynas â'r holl is-ddeddfwriaeth a wneir drwy offeryn statudol Cymreig nad yw'n ddarostyngedig i un o'r gweithdrefnau a nodir yn adrannau 37C, 37D neu 37E. Mewn achosion o'r fath, rhaid ei gosod gerbron y Senedd.

44. Rhaid gosod yr offeryn gerbron y Senedd cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl iddo gael ei wneud. Os yw hynny ar ôl i'r is-ddeddfwriaeth ddod i rym, rhaid i'r awdurdod cyfrifol egluro i'r Llywydd, yn ysgrifenedig, pam na osodwyd yr is-ddeddfwriaeth cyn iddi ddod i rym (is-adrannau (4) a (5)).

45. Mae adran 12A newydd o Ddeddf 2019 yn egluro'r hyn a olygir gan osod dogfen gerbron Senedd Cymru (gweler hefyd baragraff 215 isod).

46. Er bod adran 37F yn darparu'r sefyllfa ddiofyn hon, yn rhinwedd is-adran (2) nid yw'n cynnwys is-ddeddfwriaeth a wneir mewn offeryn statudol Cymreig sydd wedi ei ddosbarthu'n offeryn lleol gan yr awdurdod cyfrifol (gweler adran 37B(4) ynghylch hynny), nac offeryn a wneir o dan weithdrefn arbennig y Senedd (gweler is-adran (6) a Rheol Sefydlog 28 y Senedd ynghylch hynny) nac offeryn a wneir o dan ddeddfiad a restrir mewn rheoliadau'r dyfodol a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 37F(2)(c). Rhaid i unrhyw reoliadau o'r fath gael eu gwneud yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd a nodir yn adran 37C (gweler adran 43 o Ddeddf 2019, fel y'i hamnewidiwyd gan Atodlen 3 i'r Bil hwn).

47. Ar gyfer cymhwyso'r gofyniad hwn i is-ddeddfwriaeth newydd a wneir gan awdurdod cyfrifol o dan ddeddfiadau a wnaed neu a ddeddfwyd cyn i Ran 2A ddod i rym, gweler adran 37H ac Atodlen 1A. Ar gyfer is-ddeddfwriaeth o'r fath a wneir gan Weinidogion Cymru yn gweithredu ar y cyd â pherson arall (nid awdurdod

Cymreig datganoledig) neu is-ddeddfwriaeth a wneir fel Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor, gweler Atodlenni 1B ac 1C yn y drefn honno. Mae hyn yn golygu, mewn achosion pan na fyddai wedi bod yn ofynnol gosod is-ddeddfwriaeth a wneir drwy offeryn statudol (neu fel offeryn statudol Cymreig bellach) gerbron y Senedd, y bydd yr is-ddeddfwriaeth bellach yn cael ei gosod.

48. Y canlyniad yw y bydd yr holl is-ddeddfwriaeth a wneir drwy offeryn statudol Cymreig (yn ogystal ag offerynnau statudol penodol a Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor) ac nad yw'n ddarostyngedig i weithdrefn yn y Senedd, oni bai bod is-adran (2) neu'r hyn sy'n cyfateb iddi yn yr Atodlen berthnasol yn gymwys, yn cael ei gosod gerbron y Senedd.

*Adran 37G – Cyfuno is-ddeddfwriaeth sy'n ddarostyngedig i weithdrefnau gwahanol yn y Senedd*

49. Mae adran 37G yn gwneud darpariaeth ynghylch cyfuno mewn un offeryn statudol Cymreig is-ddeddfwriaeth a wneir gan awdurdod cyfrifol drwy ddefnyddio pwerau gwahanol y mae gweithdrefnau gwahanol yn y Senedd yn gymwys iddynt. Mae'n sicrhau bod yr offeryn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn lymaf o'r gweithdrefnau a fyddai fel arall yn gymwys. Er enghraifft, os yw offeryn statudol yn cynnwys rhai darpariaethau a fyddai'n ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd a rhai darpariaethau a fyddai'n ddarostyngedig i weithdrefn annilysu'r Senedd, mae'r adran hon yn golygu bod gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd yn gymwys i'r offeryn cyfan (ac nad yw gweithdrefn annilysu'r Senedd yn gymwys).

50. Mae llawer o Ddeddfau eisoes yn ystyried cyfuno, mewn un offeryn, is-ddeddfwriaeth a wneir o dan bwerau gwahanol o fewn yr un Ddeddf, hyd yn oed pan fyddai'r pwerau hynny fel arfer yn ddarostyngedig i weithdrefnau gwahanol. Er enghraifft, caiff Deddf ddarparu bod unrhyw offeryn sy'n cynnwys rheoliadau o dan bwerau penodol yn y Ddeddf yn ddarostyngedig (neu y byddai'n cael ei ddarllen fel pe bai'n ddarostyngedig) i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd (pa un a yw hefyd yn cynnwys rheoliadau o dan bwerau eraill ai peidio), a bod gweithdrefn annilysu'r Senedd yn gymwys i unrhyw offeryn arall sy'n cynnwys rheoliadau o dan y Ddeddf (h.y. unrhyw offeryn nad yw'n cynnwys rheoliadau o dan y pwerau sy'n ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd).

51. Fodd bynnag, nid yw darpariaethau ynghylch gweithdrefnau yn y Senedd ar gyfer offerynnau statudol Cymreig bob amser yn ymdrin â'r mater hwn, ac fel arfer nid ydynt yn darparu ar gyfer cyfuno yn yr un offeryn ddarpariaethau sy'n ddarostyngedig i weithdrefnau gwahanol a wneir o dan Ddeddfau gwahanol. Diben adran 37G yw hwyluso cyfuno mewn un offeryn statudol ddarpariaethau sy'n ddarostyngedig i weithdrefnau gwahanol, pa un a ydynt wedi eu gwneud o dan bwerau yn yr un Ddeddf neu mewn Deddfau gwahanol, ac er mwyn osgoi unrhyw drafferthion gweithdrefnol a fyddai'n deillio o gyfuno darpariaethau yn y ffordd hon.

52. Mae is-adran (2) yn cyflawni hyn drwy ddarparu, pan fyddai mwy nag un weithdrefn yn y Senedd yn gymwys, mai dim ond pa un bynnag o'r gweithdrefnau hynny a grybwyllir gyntaf yn is-adran (3) sy'n gymwys. Mae is-adran (3) wedyn yn rhestru'r mathau gwahanol o weithdrefnau yn y Senedd mewn trefn ddisgynnol gan ddechrau â'r weithdrefn lymaf, sef gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd ym mharagraff (a), a chan gorffen â dim gweithdrefn ym mharagraff (d).

53. Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn glir nad yw gwneud is-ddeddfwriaeth mewn offeryn statudol cyfun y mae'r adran hon yn gymwys iddo yn atal yr awdurdod cyfrifol rhag gwneud is-ddeddfwriaeth mewn offerynnau ar wahân yn y dyfodol, nac yn effeithio ar y weithdrefn sy'n gymwys i'r is-ddeddfwriaeth sydd wedi ei chynnwys mewn unrhyw offerynnau ar wahân a wneir ganddynt. Er enghraifft, os yw rheoliadau o dan bŵer a fyddai fel arfer yn ddarostyngedig i weithdrefn annilysu'r Senedd wedi cael eu cynnwys mewn offeryn statudol Cymreig sy'n ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd, caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau pellach o dan y pŵer hwnnw mewn offeryn statudol Cymreig ar wahân sy'n ddarostyngedig i weithdrefn annilysu'r Senedd.

54. Adran 40 o Ddeddf 2019 fu'r adran hon yn wreiddiol, ond mae wedi ei hailddatgan yn Neddf 2019 fel adran 37G a'i haddasu er mwyn:

a. yn gyntaf, adlewyrchu'r gweithdrefnau symlach a chodeiddiedig yn y Senedd,
b. yn ail, estyn y pŵer fel ei fod ar gael i bob awdurdod cyfrifol sy'n cael gwneud offeryn statudol Cymreig yn lle bod ar gael i Weinidogion Cymru yn unig, ac
c. yn drydydd, adlewyrchu'r ffaith na fydd angen gosod y rhan fwyaf o offerynnau statudol Cymreig gerbron y Senedd.

55. Mae'r pŵer i gyfuno is-ddeddfwriaeth sy'n ddarostyngedig i weithdrefnau gwahanol yn y Senedd yn berthnasol i ddeddfwriaeth a wneir o dan ddeddfiadau yn y dyfodol yn ogystal â deddfwriaeth a wneir o dan ddeddfiadau cyn-gychwyn (yn rhinwedd adran 37H ac Atodlen 1A).

*Adran 37H – Cymhwyso'r Rhan hon mewn amgylchiadau gwahanol*

56. Mae Adran 37H yn cyflwyno Atodlenni 1A, 1B ac 1C sy'n cymhwyso'r darpariaethau yn Rhan 2A (gydag addasiadau mewn rhai achosion) i is-ddeddfwriaeth a wneir o dan ddeddfiadau presennol a rhai'r dyfodol mewn amgylchiadau penodol.

*Atodlen 1A - Cymhwyso Rhan 2A i ddeddfiadau cyn-gychwyn*

57. Mae'r Atodlen hon yn cymhwyso darpariaethau Rhan 2A i is-ddeddfwriaeth Cymru a wneir drwy offeryn statudol o dan "ddeddfiadau cyn-gychwyn", sef deddfiadau a ddeddfwyd neu a wnaed cyn i Ran 2A ddod i rym.

58. Mae Atodlen 1A yn cael yr effaith, pan fo pwerau presennol Gweinidogion Cymru neu awdurdod Cymreig datganoledig yn darparu bod is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y pwerau hynny i'w gwneud fel "offeryn statudol" (o fewn yr ystyr a roddir i "statutory instrument" gan adran 1 o Ddeddf 1946), y caiff ei gwneud fel offeryn statudol Cymreig yn lle hynny. Mae Atodlen 1A hefyd yn darparu, pan fo deddfiad presennol yn rhagnodi gweithdrefn benodol sydd i'w defnyddio i wneud is-ddeddfwriaeth, y gwneir yr is-ddeddfwriaeth gan ddefnyddio un o'r gweithdrefnau codeiddiedig newydd a nodir yn adran 37C, 37D neu 37E yn lle hynny. Pan nad yw deddfiad presennol yn rhagnodi gweithdrefn, rhaid gosod yr offeryn statudol Cymreig sy'n cynnwys yr is-ddeddfwriaeth o dan adran 37F. Mae hyn wedi ei grynhoi yn Nhabl A isod:

*Tabl A – Effaith Atodlen 1A ar ddeddfiadau cyn-gychwyn*

| Darpariaethau deddfiad cyn-gychwyn | Effaith Atodlen 1A |
| --- | --- |
| Caiff drafft o'r offeryn statudol sy'n cynnwys yr is-ddeddfwriaeth ei osod gerbron Senedd Cymru a'i gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad (gelwir hwn yn offeryn '*cadarnhaol drafft*') – gweler paragraff 3(1)(a) o Atodlen 1A newydd | Gwneir is-ddeddfwriaeth fel offeryn statudol Cymreig o dan weithdrefn gymeradwyo'r Senedd – paragraff 3(2) |
| Gwneir yr is-ddeddfwriaeth ond ni chaiff ddod i rym oni bai bod yr offeryn statudol sy'n ei chynnwys yn cael ei osod gerbron Senedd Cymru a'i gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad (gelwir hwn yn offeryn '*cadarnhaol*') – gweler paragraff 3(1)(b) | |
| Gwneir yr is-ddeddfwriaeth ond mae'n peidio â chael effaith oni bai bod yr offeryn statudol sy'n ei chynnwys yn cael ei gymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru cyn — (a) diwedd cyfnod a bennir yn y deddfiad, neu (b) digwyddiad a bennir yn y deddfiad (gelwir hwn yn offeryn '*cadarnhaol gwnaed*') – gweler paragraff 4(1) | Gwneir is-ddeddfwriaeth fel offeryn statudol Cymreig o dan weithdrefn gadarnhau'r Senedd – gweler paragraff 4(2) |
| Gwneir yr is-ddeddfwriaeth fel offeryn statudol ond mae'n ddarostyngedig i'w hannilysu yn unol â phenderfyniad gan Senedd Cymru (gelwir hwn yn offeryn '*negyddol*') – gweler paragraff 5(1)(a) | Gwneir is-ddeddfwriaeth fel offeryn statudol Cymreig o dan weithdrefn annilysu'r Senedd – gweler paragraff 5(2) |
| Caniateir gosod yr offeryn statudol gerbron Senedd Cymru ar ffurf ddrafft ond ni chaniateir gwneud yr is-ddeddfwriaeth os yw Senedd Cymru yn penderfynu na ddylid ei gwneud o fewn 40 niwrnod i'w gosod (gelwir hwn yn offeryn '*negyddol drafft*') – gweler paragraff 5(1)(b) | |
| Nid yw'r is-ddeddfwriaeth yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn ond rhaid gosod yr offeryn statudol sy'n ei chynnwys gerbron y Senedd (gelwir hyn yn '*dim gweithdrefn ond fe'i gosodir*') – gweler paragraff 6(1) | Caiff is-ddeddfwriaeth ei gwneud fel offeryn statudol Cymreig a'i gosod gerbron y Senedd – gweler paragraff 6(2) a noder yr eithriadau ym mharagraff 6(3) |
| Nid yw'r is-ddeddfwriaeth yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn ac nid yw'n ofynnol gosod yr offeryn statudol gerbron y Senedd (gelwir hyn yn '*dim gweithdrefn*') – gweler paragraff 6(1) | |

59. Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio deddfiadau i adlewyrchu effaith Atodlen 1A (gweler paragraff 7 o'r Atodlen hon). Gellid defnyddio hyn, er enghraifft, i roi yn lle cyfeiriadau presennol at offerynnau sy'n "ddarostyngedig i'w diddymu yn unol â phenderfyniad gan Senedd Cymru", gyfeiriad at yr offeryn statudol Cymreig yn cael ei wneud "o dan weithdrefn annilysu'r Senedd".

*Atodlen 1B – Cymhwyso Rhan 2A i ddeddfwriaeth ar y cyd neu ddeddfwriaeth gyfansawdd*

60. Mae'r Atodlen hon yn cymhwyso darpariaethau Rhan 2A i is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru a pherson arall (heblaw awdurdod Cymreig datganoledig) drwy offeryn statudol. Mae rhai deddfiadau yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth ar y cyd â pherson arall, er enghraifft Ysgrifennydd Gwladol (gelwir yr offeryn sy'n deillio o hyn yn "offeryn ar y cyd"). Weithiau gall Gweinidogion Cymru ac Ysgrifennydd Gwladol ddewis arfer eu pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth mewn un offeryn (gelwir hwn yn "offeryn cyfansawdd"). Mae Atodlen 1B yn cymhwyso Rhan 2A i offerynnau ar y cyd neu offerynnau cyfansawdd a wneir o dan ddeddfiadau "cyn-gychwyn" ac "ôl-gychwyn", sef deddfiadau a ddeddfwyd neu a wnaed cyn ac ar ôl i Ran 2A ddod i rym.

61. Mewn perthynas â deddfiadau cyn-gychwyn, effaith Atodlen 1B yw y bydd yr is-ddeddfwriaeth yn parhau i gael ei gwneud fel "offeryn statudol" (yn hytrach nag fel offeryn statudol Cymreig), ond pan fo deddfiad presennol yn rhagnodi gweithdrefn benodol sydd i'w defnyddio i wneud is-ddeddfwriaeth, y weithdrefn yn lle hynny fydd fel fersiwn addasedig o un o'r gweithdrefnau newydd a nodir yn adrannau 37C, 37D neu 37E. Pan nad yw deddfiad presennol yn rhagnodi gweithdrefn, rhaid gosod yr offeryn statudol sy'n cynnwys yr is-ddeddfwriaeth o dan adran 37F addasedig. Mae hyn wedi ei grynhoi yn Nhabl B isod:

*Tabl B – Effaith Atodlen 1B ar gyfer deddfiadau cyn-gychwyn (offerynnau ar y cyd neu offerynnau cyfansawdd)*

<table>
<tr><th>Darpariaethau deddfiad cyn-gychwyn</th><th>Effaith Atodlen 1A</th></tr>
<tr><td>Caiff drafft o'r offeryn statudol sy'n cynnwys yr is-ddeddfwriaeth ei osod gerbron Senedd Cymru a'i gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad (gelwir hwn yn offeryn 'cadarnhaol drafft') – gweler paragraff 3(1)(a) o Atodlen 1B</td><td rowspan="2">Gwneir is-ddeddfwriaeth fel offeryn statudol o dan weithdrefn gymeradwyo addasedig y Senedd a nodir ym mharagraff 12</td></tr>
<tr><td>Gwneir yr is-ddeddfwriaeth ond ni chaiff ddod i rym oni bai bod yr offeryn statudol sy'n ei chynnwys yn cael ei osod gerbron Senedd Cymru a'i gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad (gelwir hwn yn offeryn 'cadarnhaol') – gweler paragraff 3(1)(b)</td></tr>
</table>

<table>
<tr><th>Darpariaethau deddfiad cyn-gychwyn</th><th>Effaith Atodlen 1A</th></tr>
<tr><td>Gwneir yr is-ddeddfwriaeth ond mae'n peidio â chael effaith oni bai bod yr offeryn statudol sy'n ei chynnwys yn cael ei gymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru cyn — (a) diwedd cyfnod a bennir yn y deddfiad, neu (b) digwyddiad a bennir yn y deddfiad (gelwir hwn yn offeryn 'cadarnhaol gwnaed') – gweler paragraff 4(1)</td><td>Gwneir is-ddeddfwriaeth fel offeryn statudol o dan weithdrefn gadarnhau addasedig y Senedd a nodir ym mharagraff 13</td></tr>
<tr><td>Gwneir yr is-ddeddfwriaeth fel offeryn statudol ond mae'n ddarostyngedig i'w hannilysu yn unol â phenderfyniad gan Senedd Cymru (gelwir hwn yn offeryn 'negyddol') – gweler paragraff 5(1)(a)</td><td rowspan="2">Gwneir is-ddeddfwriaeth fel offeryn statudol o dan weithdrefn annilysu addasedig y Senedd a nodir ym mharagraff 14</td></tr>
<tr><td>Caniateir gosod yr offeryn statudol gerbron Senedd Cymru ar ffurf ddrafft ond ni chaniateir gwneud yr is-ddeddfwriaeth os yw Senedd Cymru yn penderfynu na ddylid ei gwneud o fewn 40 niwrnod i'w gosod (gelwir hwn yn offeryn 'negyddol drafft') – gweler paragraff 5(1)(b)</td></tr>
<tr><td>Nid yw'r is-ddeddfwriaeth yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn ond rhaid gosod yr offeryn statudol sy'n ei chynnwys gerbron y Senedd (gelwir hyn yn 'dim gweithdrefn ond fe'i gosodir') – gweler paragraff 6(1)</td><td rowspan="2">Gwneir is-ddeddfwriaeth fel offeryn statudol ac fe'i gosodir gerbron y Senedd o dan adran 37F fel y'i haddesir (gweler paragraff 15)</td></tr>
<tr><td>Nid yw'r is-ddeddfwriaeth yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn ac nid yw'n ofynnol gosod yr offeryn statudol gerbron y Senedd (gelwir hyn yn 'dim gweithdrefn') – gweler paragraff 6(1)</td></tr>
</table>

62. Mewn perthynas â deddfiadau ôl-gychwyn, gwneir yr is-ddeddfwriaeth fel "offeryn statudol" (yn hytrach nag fel offeryn statudol Cymreig) ac os yw'r deddfiad yn rhagnodi gweithdrefn yn y Senedd (mewn cysylltiad â phwerau Gweinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth), gwneir yr is-ddeddfwriaeth o dan fersiwn addasedig o adran 37C, 37D neu 37E yn y drefn honno (neu fe'i gosodir o dan adran 37F addasedig). Mae hyn wedi ei grynhoi yn Nhabl C isod:

*Tabl C – Effaith Atodlen 1B ar gyfer deddfiadau ôl-gychwyn (offerynnau ar y cyd neu offerynnau cyfansawdd)*

| Darpariaethau deddfiad ôl-gychwyn | Effaith Atodlen 1A |
|---|---|
| Is-ddeddfwriaeth sy'n ddarostyngedig i "gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd" – gweler paragraff 8(1) | Gwneir is-ddeddfwriaeth fel offeryn statudol o dan weithdrefn gymeradwyo addasedig y Senedd a nodir ym mharagraff 12 |
| Is-ddeddfwriaeth sy'n ddarostyngedig i "gweithdrefn gadarnhau'r Senedd" – gweler paragraff 9(1) | Gwneir is-ddeddfwriaeth fel offeryn statudol o dan weithdrefn gadarnhau addasedig y Senedd a nodir ym mharagraff 13 |
| Is-ddeddfwriaeth sy'n ddarostyngedig i "gweithdrefn annilysu'r Senedd" – gweler paragraff 10(1) | Gwneir is-ddeddfwriaeth fel offeryn statudol o dan weithdrefn annilysu addasedig y Senedd a nodir ym mharagraff 14 |
| Nid yw'r is-ddeddfwriaeth yn ddarostyngedig i weithdrefn yn y Senedd – gweler paragraff 11(1) | Gwneir is-ddeddfwriaeth fel offeryn statudol ac fe'i gosodir gerbron y Senedd o dan adran 37F fel y'i haddesir (gweler paragraff 15) |

63. Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio deddfiadau er mwyn gwneud darpariaeth i adlewyrchu effaith Atodlen 1B (gweler paragraff 16 o'r Atodlen hon).

*Atodlen 1C – Cymhwyso Rhan 2A i Orchmynion yn y Cyfrin Gyngor*

64. Mae'r Atodlen hon yn cymhwyso darpariaethau Rhan 2A i is-ddeddfwriaeth a wneir fel Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor pan fydd rhaid gosod yr offeryn statudol gerbron y Senedd. Mae Atodlen 1C yn cymhwyso Rhan 2A i Orchmynion yn y Cyfrin Gyngor a wneir o dan ddeddfiadau "cyn-gychwyn" ac "ôl-gychwyn", sef deddfiadau a ddeddfwyd neu a wnaed cyn ac ar ôl i Ran 2A ddod i rym.

65. Mewn perthynas â deddfiadau cyn-gychwyn, mae Atodlen 1C yn sicrhau y bydd y Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor yn parhau i gael ei wneud fel "offeryn statudol" (yn hytrach nag fel offeryn statudol Cymreig), ond pan fo deddfiad presennol yn rhagnodi gweithdrefn benodol sydd i'w defnyddio i wneud y Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor, y weithdrefn yn lle hynny fydd fersiwn addasedig o naill ai gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd (adran 37C) neu weithdrefn annilysu'r Senedd (adran 37E). Pan na fo deddfiad presennol yn rhagnodi gweithdrefn yn y Senedd, rhaid gosod y Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor o dan adran 37F addasedig. Mae hyn wedi ei grynhoi yn Nhabl D isod:

*Tabl D – Effaith Atodlen 1C ar gyfer deddfiadau cyn-gychwyn (Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor)*

<table>
<tr><th>Darpariaethau deddfiad cyn-gychwyn</th><th>Effaith Atodlen 1A</th></tr>
<tr><td>Caiff drafft o’r offeryn statudol sy’n cynnwys y Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor ei osod gerbron Senedd Cymru a’i gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad (gelwir hwn yn offeryn ‘cadarnhaol drafft’) – gweler paragraff 3(1)(a)</td><td rowspan="2">Gwneir is-ddeddfwriaeth fel offeryn statudol o dan weithdrefn gymeradwyo addasedig y Senedd a nodir ym mharagraff 10</td></tr>
<tr><td>Caniateir gwneud y Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor ond ni chaiff ddod i rym oni bai bod yr offeryn statudol sy’n ei gynnwys yn cael ei osod gerbron Senedd Cymru a’i gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad (gelwir hwn yn offeryn ‘cadarnhaol’) – gweler paragraff 3(1)(b)</td></tr>
<tr><td>Gwneir y Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor fel offeryn statudol ond mae’n ddarostyngedig i’w annilysu yn unol â phenderfyniad gan Senedd Cymru (gelwir hwn yn offeryn ‘negyddol’) – gweler paragraff 4(1)</td><td>Gwneir is-ddeddfwriaeth fel offeryn statudol o dan weithdrefn annilysu addasedig y Senedd a nodir ym mharagraff 11</td></tr>
<tr><td>Nid yw’r Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn ond rhaid gosod yr offeryn statudol sy’n ei gynnwys gerbron y Senedd (gelwir hyn yn ‘dim gweithdrefn ond fe’i gosodir’) – gweler paragraff 5(1)</td><td rowspan="2">Gwneir is-ddeddfwriaeth fel offeryn statudol ac fe’i gosodir gerbron y Senedd o dan adran 37F fel y’i haddesir (gweler paragraff 12)</td></tr>
<tr><td>Nid yw’r Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn ac nid yw’n ofynnol gosod yr offeryn statudol gerbron y Senedd (gelwir hyn yn ‘dim gweithdrefn’) – gweler paragraff 5(2)</td></tr>
</table>

66. Mewn perthynas â deddfiadau ôl-gychwyn, gwneir y Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor fel “offeryn statudol” (yn hytrach nag fel offeryn statudol Cymreig) a phan fo deddfiad yn rhagnodi gweithdrefn yn y Senedd, mae Atodlen 1C yn addasu adrannau 37C, 37E a 37F yn unol â hynny. Mae hyn wedi ei grynhoi yn Nhabl E isod:

*Tabl E – Effaith Atodlen 1C ar gyfer deddfiadau ôl-gychwyn (Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor)*

<table>
<tr><th>Darpariaethau deddfiad ôl-gychwyn</th><th>Effaith Atodlen 1A</th></tr>
<tr><td>Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor sy’n ddarostyngedig i “gweithdrefn gymeradwyo’r Senedd” – gweler paragraff 7(1)</td><td>Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor a wneir fel offeryn statudol o dan weithdrefn gymeradwyo addasedig y Senedd a nodir ym mharagraff 10</td></tr>
<tr><td>Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor sy’n ddarostyngedig i “gweithdrefn annilysu’r Senedd” – gweler paragraff 8(1)</td><td>Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor a wneir fel offeryn statudol o dan weithdrefn annilysu addasedig y Senedd a nodir ym mharagraff 11</td></tr>
<tr><td>Nid yw’r Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn ond rhaid gosod yr offeryn statudol sy’n ei gynnwys gerbron y Senedd – gweler paragraff 9(1)</td><td rowspan="2">Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor a wneir fel offeryn statudol ac a osodir gerbron y Senedd o dan adran 37F fel y’i haddesir (gweler paragraff 12)</td></tr>
<tr><td>Nid yw’r Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn ac nid yw’n ofynnol gosod yr offeryn statudol gerbron y Senedd – gweler paragraff 9(2)</td></tr>
</table>

67. Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio deddfiadau i adlewyrchu effaith Atodlen 1C (gweler paragraff 13 o’r Atodlen hon).

## Adran 2 – Dim gofyniad i wneud gorchmynion traffig ffyrdd drwy offeryn statudol Cymreig

68. Mae adran 2 o’r Bil yn diwygio Deddf Priffyrdd 1980 (p. 66) a Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (p. 27) fel nad yw’n ofynnol gwneud rhai gorchmynion traffig ffyrdd penodol drwy offeryn statudol Cymreig (neu offeryn statudol) mwyach.

69. Mae’r gorchmynion hyn yn lleol eu natur, hynny yw, maent yn gymwys i ffordd benodol, neu ran ohoni, at ddiben penodol ac am gyfnod penodol. Nid ydynt yn gymwys yn ehangach nac o ddiddordeb ehangach. Er enghraifft, caniateir eu defnyddio i gau ffordd i alluogi cynnal digwyddiad. I roi enghraifft arall, gellid defnyddio gorchmynion o’r fath hefyd i ostwng dros dro’r terfyn cyflymder uchaf a ganiateir ar ffordd neu ffyrdd penodol tra bo gwaith atgyweirio yn cael ei wneud.

70. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi’r holl orchmynion traffig ffyrdd o’r fath ar ei gwefan (www.llyw.cymru), ar y cyd ag is-ddeddfwriaeth arall y gellir ei defnyddio at ddibenion tebyg ond nad yw’n ofynnol ei gwneud fel offeryn statudol.

71. Nid yw'r diwygiadau hyn i Ddeddf Priffyrdd 1980 a Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 yn gymwys i orchmynion nac is-ddeddfwriaeth arall sy'n gymwys yn gyffredinol ac o ddiddordeb cyffredinol (neu nad ydynt dros dro) – byddai is-ddeddfwriaeth o'r fath, yn rhinwedd Rhan 2A newydd o Ddeddf 2019, yn cael ei gwneud fel offeryn statudol Cymreig.

## RHAN 2 – CYHOEDDI ETC. DDEDDFWRIAETH CYMRU

### Adran 3 – Rhan 2B newydd o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019

72. Mae Rhan 2 o'r Bil yn cynnwys adran 3, sy'n diwygio Deddf 2019 drwy fewnosod Rhan 2B newydd. Mae'r Rhan newydd hon yn ymdrin â chyhoeddi, cadw, rhifo a dosbarthu Deddfau Senedd Cymru, offerynnau statudol Cymreig ac is-ddeddfwriaeth arall a wneir gan Weinidogion Cymru (nid fel offeryn statudol Cymreig). Mae Rhan 2B newydd yn cynnwys adrannau 37I i 37Z2, y mae gwybodaeth amdanynt wedi ei nodi isod.

*Adran 37I – Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru*

73. Mae hanes cyhoeddi deddfwriaeth ym Mhrydain ac yna'r Deyrnas Unedig yn ymestyn yn ôl i'r 18fed ganrif. Sefydlwyd Llyfrfa Ei Fawrhydi (HMSO) yn 1786. Mae'n dal hawlfraint y Goron, a hon yw argraffydd a chyhoeddwr swyddogol pob Deddf gan Senedd y Deyrnas Unedig ers 1889. Rhwng 2003 a 2006, bu HMSO yn un o bedwar corff llywodraeth a ddaeth at ei gilydd i ffurfio'r Archifau Gwladol, yr archif llywodraeth swyddogol ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Deyrnas Unedig.

74. Erbyn hyn, mae cyhoeddi holl ddeddfwriaeth y DU yn rhan hanfodol o gylch gwaith Ceidwad y Cofnodion Cyhoeddus (yn rhinwedd ei swydd fel Argraffydd Deddfau Seneddol y Brenin ac Argraffydd Llywodraeth Gogledd Iwerddon) ac Argraffydd y Brenin ar gyfer yr Alban. Y Ceidwad hefyd yw Rheolwr HMSO a Phrif Weithredwr yr Archifau Gwladol. Nid yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn sôn am rôl Argraffydd y Brenin o ran cyhoeddi deddfwriaeth Cymru, ond yn ymarferol mae hyn hefyd yn cael ei wneud gan ac ar ran Argraffydd y Brenin.

75. Caiff y fersiynau gwreiddiol (fel y'u deddfwyd) a fersiynau diwygiedig o ddeddfwriaeth eu cyhoeddi ar wefan legislation.gov.uk gan Reolwr HMSO ac o dan ei awdurdod. Rheolir y wefan gan yr Archifau Gwladol sydd hefyd yn gyfrifol am y Gazette, sef cofnod cyhoeddus swyddogol y DU. Rheolir y Gazette gan The Stationery Office, o dan oruchwyliaeth yr Archifau Gwladol.

76. Mae Rhan 2B yn gwneud darpariaeth i ffurfioli'r broses ar gyfer cyhoeddi deddfwriaeth Cymru. Mae'n rhoi swyddogaethau cyhoeddi Deddfau Senedd Cymru, offerynnau statudol Cymreig a dogfennau cysylltiedig i Argraffydd Deddfau Seneddol y Brenin ond, fel y darperir yn adran 37I, mae Argraffydd Deddfau Seneddol y Brenin i'w alw'n Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru yn Rhan 2B newydd ac wrth arfer y swyddogaethau a roddir gan Ran 2B.

*Cadw a chyhoeddi Deddfau Senedd Cymru*

77. Cychwynnwyd darpariaethau Deddfau'r Cynulliad (y Senedd erbyn hyn) yn Rhan 4 o Ddeddf 2006 ar 5 Mai 2011 gan *Orchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cychwyn Darpariaethau Deddfau'r Cynulliad, Darpariaethau Trosiannol ac Arbed ac Addasiadau) 2011* (O.S. 2011/1011 (Cy. 250) (C. 42)). Diwygiodd y Gorchymyn hwnnw adran 115 o Ddeddf 2006 hefyd i wneud darpariaeth ar gyfer cadw'r Breinlythyrau a'r Deddfau a chopïau ardystiedig o brintiau swyddogol o Ddeddfau, ac ar gyfer rhifo Deddfau.

Mae'r darpariaethau ynghylch Deddfau Senedd Cymru a fewnosodwyd gan y Gorchymyn bellach wedi eu hailddatgan yn Neddf 2019 fel adrannau 37J i 37M (ac mae paragraff 5 o Atodlen 3 i'r Bil yn diddymu'r darpariaethau hynny o adran 115 o Ddeddf 2006).

*Adran 37J – Rhifo Deddfau Senedd Cymru*

78. Mae adran 37J yn ymdrin â rhifo Deddfau Senedd Cymru drwy ailddatgan effaith adrannau 115(5A) a (5B) o Ddeddf 2006. At hynny, mae'n ei gwneud yn glir am y tro cyntaf sut y penderfynir y rhagddodiad a'r rhif ar gyfer Deddf gan Senedd Cymru. Sefydlwyd y dull presennol o rifo Deddfau gan Senedd y DU yn 1962, gan gymryd lle'r system o gyfeirio at Ddeddfau yn ôl sesiwn a phennod, am fod pobl gweld y system honno'n anghyfleus. Roedd y trefniadau ar gyfer rhifo Mesurau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn defnyddio system rifo debyg i'r trefniadau presennol ar gyfer Deddfau gan Senedd y DU (gan ddefnyddio'r rhagddodiad "mccc"); parhawyd â hyn pan ddechreuodd Deddfau gan y Cynulliad Cenedlaethol (ond gan ddefnyddio'r rhagddodiad "dccc"), ac erbyn hyn defnyddir y rhagddodiad "dsc" i ddynodi Deddfau Senedd Cymru.

*Adran 37K – Printiau swyddogol a chopïau ardystiedig o Ddeddfau Senedd Cymru*

79. Y cam cyntaf yn y broses o gyhoeddi a lledaenu darn o ddeddfwriaeth yw llunio'r testun sydd i'w gyhoeddi. Rhaid i hwn fod yn gofnod awdurdodol o'r ddeddfwriaeth. Y cofnod awdurdodol o Ddeddf gan y Senedd yw'r "print swyddogol" sy'n cael ei greu o dan adran 115(5C) o Ddeddf 2006 ar hyn o bryd, ond a gaiff ei greu yn y dyfodol o dan adran 37K, sydd hefyd yn ymgorffori'r gofynion a nodir ar hyn o bryd yn adrannau 115(5D) a (5E) o Ddeddf 2006.

80. O ganlyniad, mae'r print swyddogol o Ddeddf gan y Senedd yn cynnwys testun y Bil a basiwyd gan y Senedd ac a gafodd y Cydsyniad Brenhinol, yn ogystal â'r dyddiad a'r flwyddyn pan roddwyd hysbysiad o'r Cydsyniad hwnnw i Glerc y Senedd, y rhagddodiad "dsc" a'r rhif. Mae'r Clerc yn gwneud copi o'r print swyddogol o'r Ddeddf ac yn ei ardystio'n gopi gwir (a gaiff ei alw wedyn y "copi ardystiedig o'r print swyddogol"). Caiff y print swyddogol ei anfon i Lyfrgell Genedlaethol Cymru, gweler isod, a chaiff y copi ardystiedig ei anfon at Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru.

*Adran 37L – Cadw Deddfau Senedd Cymru*

81. Ers 2011, mae adran 115(4A) a (5E) o Ddeddf 2006 wedi ei gwneud yn ofynnol anfon y Breinlythyrau a'r print gwreiddiol o bob Deddf i Lyfrgell Genedlaethol Cymru. Effaith hyn yw sicrhau y caiff y cofnodion pwysig hyn eu cadw'n barhaol.

82. Parheir â'r gofyniad hwn i anfon y printiau gwreiddiol o Ddeddfau Senedd Cymru yn adran 37L. Mae'r gofyniad presennol ar gyfer y Breinlythyrau yn aros yn adran 115(4A) o Ddeddf 2006.

*Adran 37M – Cyhoeddi Deddfau Senedd Cymru*

83. Cyn y Bil hwn, nid oedd unrhyw rwymedigaeth benodol ar Argraffydd y Brenin i gyhoeddi Deddfau Senedd Cymru. Mae adran 37M yn ei gwneud yn glir bod rhaid i Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru gyhoeddi'r copi ardystiedig o'r print swyddogol o Ddeddf, a rhaid iddo hefyd gyhoeddi dogfennau sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf os bydd Clerc y Senedd neu Weinidogion Cymru yn gofyn iddo wneud hynny. Disgwylir y bydd dogfennau o'r fath yn cynnwys Nodiadau Esboniadol, ac ar gyfer Deddfau cydgrynhoi byddant yn cynnwys tablau tarddiadau a thrawsleoli a nodiadau

drafftwyr; ond gallant hefyd gynnwys asesiadau effaith neu ddeunyddiau eraill yn y dyfodol.

84. Mae is-adran (3) yn cydnabod bod y rhan fwyaf o bobl yn edrych ar ddeddfwriaeth ar-lein yn hytrach nag mewn print erbyn hyn. Ar hyn o bryd mae holl Ddeddfau Senedd Cymru a Mesurau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gael ar wefan legislation.gov.uk. Gellir defnyddio'r adnodd hwn am ddim ac mae'r holl gynnwys arno ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored (oni nodir fel arall). O ganlyniad anogir defnyddwyr i ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth yn rhydd ac mewn modd hyblyg, gyda nifer bach o amodau yn unig. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/.

85. Caiff Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru hefyd argraffu a gwerthu copïau o Ddeddfau Senedd Cymru a rhaid iddo ddarparu copïau print ar gais os telir unrhyw daliadau am wneud hynny (gweler adran 37Y).

*Cadw a chyhoeddi offerynnau statudol Cymreig*

86. Cyn i'r Bil hwn ddod i rym, mae is-ddeddfwriaeth y mae'n ofynnol ei gwneud fel "offeryn statudol" yn ddarostyngedig i'r gofynion o ran rhifo, dosbarthu a chyhoeddi a nodir yn Neddf 1946 a Rheoliadau Offerynnau Statudol 1947 (O.S. 1948/1) ('Rheoliadau 1947') . Mae Deddf 1946 yn gymwys i Weinidogion Cymru, ac i offerynnau a wneir ganddynt, yn rhinwedd adrannau 1(1A) ac 11A o'r Ddeddf honno.

87. O ganlyniad i Ran 1 o'r Bil hwn, bydd is-ddeddfwriaeth a wneir gan awdurdod cyfrifol (gweler adran 37B), sy'n cynnwys Gweinidogion Cymru, yn cael ei gwneud fel offeryn statudol Cymreig, yn hytrach nag fel offeryn statudol y mae Deddf 1946 yn gymwys iddo. Mae'r gofynion o ran rhifo, dosbarthu, cyhoeddi a chadw offerynnau statudol Cymreig wedi eu nodi yn adrannau 37N i 37S newydd o Ddeddf 2019, a ddisgrifir isod.

*Adran 37N – Fersiynau swyddogol a chopïau ardystiedig o offerynnau statudol Cymreig*

88. Yn yr un modd ag ar gyfer Deddfau Senedd Cymru, y cam cyntaf yn y broses o gyhoeddi a lledaenu offeryn statudol Cymreig yw llunio'r testun sydd i'w gyhoeddi. Rhaid i hwn fod yn gofnod awdurdodol o'r ddeddfwriaeth. Yn achos Deddfau Senedd Cymru, ar hyn o bryd, mae dogfen ffisegol y mae rhaid i'r Clerc ysgrifennu gwybodaeth benodol arni (gweler adran 37K(2)). Nid yw hyn yn wir o reidrwydd yn achos offerynnau statudol Cymreig, y caniateir eu gwneud yn electronig ac felly mae'r ystyriaethau ar gyfer sicrhau bod cofnod awdurdodol ychydig yn wahanol.

89. Mae adran 37N(1) yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod cyfrifol wneud copïau ardystiedig o'r offeryn a wnaed: anfonir un copi ardystiedig i Lyfrgell Genedlaethol Cymru ac anfonir copi ardystiedig arall at Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru. Mae is-adran (3)(b) yn darparu y caiff copi ardystiedig fod ar ffurf electronig. Yr unig eithriad i'r rheol hon yw os yw'r offeryn statudol Cymreig wedi ei ddosbarthu'n offeryn lleol (gweler adran 37B ynghylch hynny); mewn achos o'r fath nid anfonir copi ardystiedig o'r offeryn i Lyfrgell Genedlaethol Cymru (is-adran (4)). Caiff offerynnau lleol eu hanfon at Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru o hyd er mwyn sicrhau y bodlonir y gofynion cyhoeddi yn adran 37Q.

90. Wrth anfon copi ardystiedig o offeryn statudol Cymreig at Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru, mae'n ofynnol i'r awdurdod cyfrifol hefyd ddarparu'r wybodaeth a

nodir yn adran 37N(2). Caiff yr wybodaeth hon ei defnyddio yn ei thro i fodloni'r gofynion cyhoeddi ar gyfer offerynnau statudol Cymreig.

*Adran 37O – Cadw offerynnau statudol Cymreig*

91. Er mwyn cyflwyno cysondeb â Deddfau Senedd Cymru a sicrhau bod cofnodion pwysig yn cael eu cadw'n barhaol, mae adran 37O yn ei gwneud yn ofynnol i Lyfrgell Genedlaethol Cymru ddal a rhoi ar gael y copïau ardystiedig o offerynnau statudol Cymreig sy'n dod i'w llaw gan yr awdurdod cyfrifol.

*Adran 37P – Rhifo a dosbarthu offerynnau statudol Cymreig*

92. Mae adran 37P yn nodi sut y mae rhaid i Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru rifo offerynnau statudol Cymreig. Yr effaith yw y caiff offerynnau o'r fath eu rhifo'n olynol ar gyfer pob blwyddyn galendr (gan ddechrau â rhif 1). Mae hyn yn dilyn y dull a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer offerynnau statudol a deddfwriaeth arall (gan gynnwys Deddfau Senedd Cymru, offerynnau statudol Albanaidd, Rheolau Statudol Gogledd Iwerddon, etc.)

93. Mae is-adran (3) yn caniatáu i Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru ddefnyddio is-rif yn ogystal â'r rhif o'r gyfres o offerynnau statudol Cymreig. Dechreuodd yr arfer o ddefnyddio is-rifau ar gyfer offerynnau a rifwyd o dan Ddeddf 1946 a Rheoliadau 1947 yn y 1950au, ac mae wedi datblygu dros amser. Er enghraifft, rhoddir is-rif gydag "C" o'i flaen i orchmynion cychwyn neu reoliadau cychwyn. Mae offerynnau statudol sydd wedi eu gwneud ers 1999 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (yn wreiddiol) a chan Weinidogion Cymru (wedi hynny) wedi eu nodi drwy roi is-rifau iddynt gyda "Cy." (yn Gymraeg) neu "W." (yn Saesneg) o'u blaenau. Yn ymarferol, nid yw'n debygol y bydd angen rhifau o'r fath yn y dyfodol gan y bydd yr holl offerynnau hynny yn cael eu gwneud fel offerynnau statudol Cymreig, a'u rhifo o dan y gyfres o offerynnau statudol Cymreig.

*Adran 37Q – Cyhoeddi offerynnau statudol Cymreig*

94. Mae adran 37Q yn parhau â'r rhwymedigaethau a sefydlwyd o dan Reoliadau 1947 ar gyfer cyhoeddi offerynnau statudol ac yn sicrhau bod rhaid i Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru gyhoeddi offerynnau statudol Cymreig. Rhaid i Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru hefyd gyhoeddi dogfennau sy'n gysylltiedig ag offeryn os bydd yr awdurdod cyfrifol yn gofyn iddo wneud hynny. Ar hyn o bryd, caiff offerynnau statudol eu cyhoeddi ar ffurf sy'n cynnwys y Nodyn Esboniadol i'r offeryn, a'r disgwyl yw y bydd hyn yn parhau. Fodd bynnag, gallai dogfennau ychwanegol gynnwys mapiau sy'n ymwneud ag offeryn, asesiadau effaith neu ddeunyddiau eraill.

95. Mae is-adran (2) yn nodi gwybodaeth benodol y mae rhaid ei chynnwys gyda'r is-ddeddfwriaeth pan fydd Argraffydd y Brenin yn cyhoeddi'r offeryn statudol Cymreig. Er bod y dyddiad y gwnaed yr offeryn fel arfer yn cael ei gynnwys ar ddiwedd yr offeryn (o dan enw'r person a wnaeth yr is-ddeddfwriaeth), mae hefyd i'w weld fel arfer ar flaen y ddogfen mewn nodyn defnyddiol o dan yr enw. At hyn, mae is-adran (2)(e) hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Argraffydd y Brenin gynnwys y dyddiad neu'r dyddiadau y daw'r offeryn i rym, neu ddisgrifiad o sut y daw'r offeryn i rym. Mae'r gofyniad hwn yn adlewyrchu'r ffaith y caiff darpariaethau gwahanol yn yr is-ddeddfwriaeth ddod i rym ar adegau gwahanol, a chânt fod yn gysylltiedig â digwyddiadau neu drefniadau penodol. Mae hefyd yn golygu, pan fo'r sefyllfa'n gymhleth, y caiff y nodyn enwi'r darpariaethau yn yr offeryn sy'n pennu pryd y bydd

yn dod i rym (er enghraifft, drwy nodi bod yr offeryn yn dod i rym "yn unol â rheoliad 1"), yn hytrach na gorfod nodi manylion y darpariaethau hynny'n llawn.

96. Gan adlewyrchu'r trefniadau ar gyfer cyhoeddi Deddfau Senedd Cymru, mae is-adran (4) yn cydnabod bod y rhan fwyaf o bobl yn edrych ar ddeddfwriaeth ar-lein yn hytrach nag mewn print. Caiff Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru hefyd argraffu a gwerthu copïau o offerynnau statudol Cymreig (gweler adran 37Y).

*Adran 37R – Cyhoeddi offerynnau statudol Cymreig sy'n ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhau'r Senedd*

97. Pan fo is-ddeddfwriaeth yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhau'r Senedd (gweler adran 37D a pharagraffau 28 i 36 uchod ynghylch hynny), mae adran 37R yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod cyfrifol hysbysu Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru os yw'r is-ddeddfwriaeth wedi ei chadarnhau gan y Senedd neu wedi peidio â chael effaith (os nas cadarnhawyd). Bydd hyn yn galluogi Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru i gynnwys gwybodaeth am y cadarnhad gyda'r offeryn cyhoeddedig. Pan nad yw offeryn wedi ei gadarnhau gan y Senedd, mae adran 37E(4)(c) yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod cyfrifol ddirymu'r is-ddeddfwriaeth. Yn ymarferol, cofnodir y dirymiad hwn yn erbyn y fersiwn ar-lein o'r offeryn cyhoeddedig.

*Adran 37S – Achos am drosedd o dan offeryn statudol Cymreig nas cyhoeddwyd: amddiffyniad*

98. Mae adran 3(2) o Ddeddf 1946 yn darparu amddiffyniad i achos am drosedd o dorri offeryn statudol, os nad oedd yr offeryn hwnnw wedi ei gyhoeddi gan Argraffydd y Brenin ar yr adeg pan gyflawnwyd y drosedd. Ystyriodd Cyd-bwyllgor Senedd y DU ar Offerynnau Statudol y ddarpariaeth hon yn ei adroddiad *Transparency and Accountability in Subordinate Legislation*,[33] gan nodi:

> *The Committee believes that this provision – which represents a significant exception to the principle that ignorance of the law is no excuse – illustrates the importance attached by Parliament to prompt publication of law once made, and the inherent unfairness of expecting citizens to comply with law that has not been published.*

99. Mae adran 37S yn gwneud darpariaeth debyg mewn cysylltiad ag is-ddeddfwriaeth sydd wedi ei chynnwys mewn offeryn statudol Cymreig, er ar ffurf fwy modern.

100. Mae adran 37W (gweler isod ynghylch hynny) yn ei gwneud yn ofynnol i Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru gyhoeddi'r dyddiad y cyhoeddwyd pob offeryn statudol Cymreig. Caniateir defnyddio hyn mewn achos pan fydd angen cadarnhau pryd y cyhoeddwyd offeryn am y tro cyntaf gan Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru (gweler adran 37X).

*Adran 37T – Offerynnau statudol Cymreig drafft*

101. Er bod copïau o rai offerynnau statudol drafft, offerynnau statudol Albanaidd drafft a rheolau statudol drafft Gogledd Iwerddon yn cael eu cyhoeddi ar-lein yn www.legislation.gov.uk, nid yw Gweinidogion Cymru fel arfer yn gofyn am gyhoeddi yno ddrafftiau o offerynnau statudol y maent yn bwriadu eu gwneud. Y rheswm am hyn yw bod yr holl offerynnau statudol drafft sy'n ddarostyngedig i'w cymeradwyo gan y Senedd cyn y gellir eu gwneud yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Senedd ei hun

[33] Adroddiad Arbennig Cyntaf Sesiwn 2017–19 (2018), Papur Tŷ'r Arglwyddi Rhif 151; Papur Tŷ'r Cyffredin Rhif 1158

(www.senedd.cymru). Mae hon yn darparu cofnod cynhwysfawr o offerynnau drafft, gyda gwefan legislation.gov.uk yn darparu cofnod llawn o'r holl offerynnau statudol a wnaed.

102. Serch hynny, mae adran 37T yn darparu, os yw'r awdurdod cyfrifol yn gofyn i Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru gyhoeddi offeryn statudol Cymreig drafft, fod rhaid i Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru gyhoeddi hwn ar-lein. Gallai Gweinidogion Cymru, er enghraifft, ofyn i offeryn drafft penodol gael ei gyhoeddi os ystyriwyd bod hyn yn briodol. O dan adran 37Y caiff Argraffydd y Brenin argraffu a gwerthu copïau caled o offeryn statudol Cymreig drafft (ond nid yw'n ofynnol iddo wneud hynny).

*Adran 37U – Cyhoeddi effeithiau deddfwriaeth*

103. O dan reoliad 10 o Reoliadau 1947 rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol "beri cynhyrchu" dogfen brint a elwir y "rhifyn blynyddol". Mae rheoliad 10 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Argraffydd Deddfau Seneddol y Brenin ac HMSO argraffu a chyhoeddi'r rhifyn blynyddol. Mae'r rhifyn blynyddol yn cynnwys (ac yn unol â rheoliad 10(d)) dablau yn dangos yr effaith y mae unrhyw ddiwygiadau a wneir i ddeddfiadau presennol gan yr offerynnau statudol yn y rhifyn blynyddol hwnnw (sef, yr offerynnau statudol a wnaed yn y flwyddyn galendr y mae'r rhifyn blynyddol yn ymwneud â hi) yn ei chael ar y deddfiadau hynny.

104. Mae'r wefan a gynhelir gan yr Archifau Gwladol (ar ran Argraffydd Deddfau Seneddol y Brenin), www.legislation.gov.uk, yn rhoi'r rhan fwyaf o fathau o ddeddfwriaeth a'u dogfennau esboniadol cysylltiedig (ond nid pob un) ar gael am ddim. Mae hyn yn cynnwys offerynnau statudol a wneir gan Weinidogion Cymru (a chan Gynulliad Cenedlaethol Cymru cyn hynny), Deddfau Senedd Cymru a Mesurau'r Cynulliad Cenedlaethol.

105. Ar y cyd â chopïau o ddeddfiadau fel y'u gwnaed neu fel y'u deddfwyd, mae'r wefan hefyd yn cyhoeddi fersiynau o'r deddfiadau ar 'ffurf ddiwygiedig'. Mae 'diwygiedig' yn y cyd-destun hwn yn golygu bod diwygiadau a wnaed gan ddeddfwriaeth ddilynol wedi eu hymgorffori yn y testun a ddangosir ar-lein. Ar gyfer pob deddfiad, mae'r wefan hefyd yn cynnwys tabl yn rhestru pob diwygiad y mae'r deddfiad yn ei wneud i ddeddfwriaeth gynharach, a thabl yn rhestru pob diwygiad y mae'r ddeddfwriaeth ddilynol honno'n ei wneud i'r deddfiad ac yn dangos tarddiad y diwygiad.

106. Felly, mae Adran 37U yn ei gwneud yn ofynnol i Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru gyhoeddi ar-lein dablau'n dangos yr effeithiau y mae Deddfau Senedd Cymru neu offerynnau statudol Cymreig yn eu cael ar ddeddfiadau. Yn ymarferol, caiff yr wybodaeth hon ei chyhoeddi ar wefan legislation.gov.uk (mae'n ymddangos ar hyn o bryd o dan y tab "Rhagor o Adnoddau" ar gyfer Deddf neu offeryn).

*Adran 37V – Cyhoeddi deddfwriaeth Cymru fel y'i diwygiwyd*

107. Fel y nodwyd uchod mae gwefan legislation.gov.uk yn cyhoeddi deddfwriaeth ar 'ffurf ddiwygiedig'. Mae hyn yn golygu bod diwygiadau a wneir i ddeddfwriaeth gan ddeddfwriaeth ddilynol yn ymddangos wedi eu hymgorffori yn y testun. Mewn geiriau eraill, caiff y ddeddfwriaeth ei chyhoeddi ar ffurf wedi ei diweddaru.

108. Cafodd ychydig o ddeddfwriaeth ar ffurf ddiwygiedig ei rhoi ar gael ar-lein i'r cyhoedd am y tro cyntaf ym mis Rhagfyr 2006 ar Gronfa Ddata Cyfraith Statud y DU. Ym mis Gorffennaf 2010, lansiwyd gwefan legislation.gov.uk, gan ymgorffori'r ddeddfwriaeth ddiwygiedig o'r Gronfa Ddata Cyfraith Statud a'r ddeddfwriaeth 'fel y'i deddfwyd' o wefan Swyddfa Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus (neu OPSI). Defnyddiwyd nifer o wahanol ffynonellau i greu'r cofnodion o ddeddfwriaeth ddiwygiedig, ac am nifer o flynyddoedd bu ymdrechion yn canolbwyntio ar ymgorffori diwygiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol, fel bod Deddfau'r bedair deddfwrfa yn y Deyrnas ar ffurf ddiwygiedig yn cael eu rhoi ar gael. Yn fwy diweddar mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo i roi offerynnau statudol ar gael hefyd ar ffurf ddiwygiedig. Yn ogystal ag adlewyrchu diwygiadau newydd i offerynnau statudol ar wefan legislation.gov.uk, mae gwaith hefyd yn cael ei wneud ar ôl-groniad tebyg o ddiwygiadau sydd eisoes wedi eu gwneud.

109. Mae Adran 37V yn ei gwneud yn ofynnol i Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru gyhoeddi, ar-lein, ddeddfwriaeth Cymru fel y'i diwygiwyd gan unrhyw ddeddfiad arall. Yn ymarferol, y ddeddfwriaeth hon fydd y ffurf ddiwygiedig ar Ddeddfau Senedd Cymru, Mesurau'r Cynulliad ac offerynnau statudol Cymreig, sy'n cael eu rhoi ar gael ar wefan legislation.gov.uk. Gwneir hyn "i'r graddau y bo'n ymarferol" o'r adeg y daw diwygiad i rym. Bydd y graddau y mae hyn yn ymarferol yn dibynnu ar sawl ffactor, gan gynnwys yr amser rhwng deddfu neu wneud y ddeddfwriaeth sy'n rhoi effaith i'r newid a'r adeg y daw i rym, swm (cyffredinol) y ddeddfwriaeth a gyhoeddir yn ystod y cyfnod hwnnw, cymhlethdod y darpariaethau a'r graddau y bydd angen dangos diwygiadau hŷn hefyd er mwyn i ddeddfiad fod wedi ei diweddaru.

*Adran 37W – Cofnod o ddeddfwriaeth Cymru*

110. Mae adran 37W yn ei gwneud yn ofynnol i Argraffydd y Brenin gynnal a chadw a chyhoeddi cofnod ar-lein o wybodaeth sylfaenol ynghylch pob Deddf gan Senedd Cymru a phob offeryn statudol Cymreig. Mae hyn yn cynnwys y dyddiad y cyhoeddwyd pob un. Yn ymarferol y dyddiad hwn yw'r dyddiad y'i cyhoeddwyd am y tro cyntaf (gwybodaeth sy'n angenrheidiol er mwyn penderfynu a all yr amddiffyniad yn adran 37S o ran deddfwriaeth nas cyhoeddwyd fod yn berthnasol), ynghyd â dyddiadau unrhyw gyhoeddiad ychwanegol ar ôl hynny.

*Adran 37Y – Argraffu a gwerthu deddfwriaeth Cymru a dogfennau cysylltiedig*

111. Mae adran 37Y yn darparu i Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru argraffu a gwerthu deddfwriaeth Cymru a dogfennau sy'n gysylltiedig â deddfwriaeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys deddfwriaeth sydd eisoes wedi ei deddfu neu wedi ei gwneud gan Weinidogion Cymru, Senedd Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru gynt. Mae hefyd yn darparu'r sylfaen ddeddfwriaethol ar gyfer argraffu a gwerthu deddfiadau yn y dyfodol (Deddfau Senedd Cymru ac offerynnau statudol Cymreig).

112. Yn unol â Deddf Llyfrgelloedd Adneuo Cyfreithiol 2003 (p. 28), ar hyn o bryd mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru a'r llyfrgelloedd adneuo cyfreithiol eraill[34] yn cael copïau o bob offeryn statudol print a wneir gan Weinidogion Cymru (sef, yr holl offerynnau nad ydynt wedi eu dosbarthu'n offerynnau lleol) a chopi o bob Deddf gan

[34] Y Llyfrgell Brydeinig, Llyfrgell Genedlaethol yr Alban a llyfrgelloedd Prifysgol Rhydychen a Phrifysgol Caergrawnt a Choleg y Drindod Dulyn: gweler adran 14 o Ddeddf 2003.

Senedd Cymru. Darperir y rhain iddynt ar ran Argraffydd y Brenin. Bydd y trefniant hwn yn parhau ac ni fydd adran 37Y na Rhan 2B yn ehangach yn effeithio arno.

*Adran 37Z – Gweinidogion Cymru i gyhoeddi is-ddeddfwriaeth nas gwneir drwy offeryn statudol*

113. O bryd i'w gilydd gwneir darpariaeth mewn Deddf gan Senedd Cymru ynghylch cyhoeddi is-ddeddfwriaeth nad yw ar ffurf offeryn statudol. Er enghraifft, o dan adran 15 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi unrhyw gyfarwyddydau cyffredinol a roddir ganddynt i Awdurdod Cyllid Cymru. Yn yr un modd, mae adran 19 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyhoeddi Cod Ymarfer.

114. Fodd bynnag, yn ehangach, nid oes unrhyw ofynion cyffredinol ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi is-ddeddfwriaeth a wneir ganddynt pan nad yw ar ffurf offeryn statudol (neu offeryn statudol Cymreig). Yn ymarferol, cyhoeddir y rhan fwyaf o is-ddeddfwriaeth nad yw ar ffurf offeryn statudol ar wefan Llywodraeth Cymru: www.llyw.cymru.

115. Serch hynny, mae'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidogion Cymru, yn eu rhaglen i wneud cyfraith Cymru yn fwy hygyrch (*Dyfodol Cyfraith Cymru* (diwygiwyd 2023), Llywodraeth Cymru), wedi ymrwymo i wella'r trefniadau ar gyfer cyhoeddi is-ddeddfwriaeth. Mae adran 37Z yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i rifo, dosbarthu a chyhoeddi ar-lein yr holl is-ddeddfwriaeth a wneir ganddynt pan nad yw ar ffurf offeryn statudol Cymreig.

116. Nid yw adran 37Z yn rhoi manylion am y trefniadau ar gyfer rhifo a dosbarthu is-ddeddfwriaeth, ond yn lle hynny mae adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi penderfyniad ar y trefniadau hyn.

*Adran 37Z1 – Cyfeiriadau at offerynnau statudol Cymreig*

117. Mae adran 37Z1 yn gwneud darpariaeth ynghylch sut y caniateir cyfeirio at offeryn statudol Cymreig (neu sut y caniateir 'enwi' offeryn, pan fo'r cyfeiriad mewn deddfwriaeth arall). Yn gyntaf, mae'n darparu y caniateir cyfeirio at yr offeryn statudol Cymreig yn ôl ei enw yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae pob offeryn statudol ar hyn o bryd yn cynnwys darpariaeth (fel arfer yn y rheoliad cyntaf, y rheol gyntaf neu'r erthygl gyntaf yn yr is-ddeddfwriaeth) ynghylch enw'r offeryn. Fodd bynnag, gellir dadlau na ddaw'r ddarpariaeth honno i rym tan y dyddiad a bennir yn y ddarpariaeth gychwyn. Felly dilëir unrhyw amwysedd ynghylch a ganiateir cyfeirio at yr offeryn yn ôl ei enw cyn i'r ddarpariaeth honno fod mewn grym, ac yn lle hynny mae adran 37Z1 yn sicrhau y caniateir cyfeirio at yr offeryn yn ôl ei enw o'r eiliad y'i gwneir.

118. Mae Adran 37Z1 hefyd yn darparu y caniateir cyfeirio at offeryn statudol Cymreig yn ôl ei rhagddodiad, blwyddyn a rhif. Yr enghraifft a roddir yn adran 37Z1 yw "O.S.C. 2026/1". Nid oes gofyniad na disgwyliad bod unrhyw is-rif a roddir i'r offeryn (gweler adran 37P(3)) yn ffurfio rhan o'r cyfeirnod y caniateir ei ddefnyddio wrth gyfeirio at offeryn.

*Adran 37Z2 – Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru: dirprwyo swyddogaethau*

119. Mae adran 37Z2 yn ei gwneud yn glir y caiff Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru ddirprwyo unrhyw un neu ragor o'r swyddogaethau a roddir iddo gan Ran 2B (wrth

barhau i fod yn gyfrifol am gyflawni'r swyddogaethau, ac mae unrhyw beth a wneir gan y person y dirprwyir iddo i'w drin fel pe bai wedi ei wneud gan Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru).

120. Mae Adran 37Z2 yn galluogi Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru i gontractio allan y gwaith o argraffu a gwerthu offerynnau statudol Cymreig, er enghraifft, fel y'i gwneir ar hyn o bryd mewn perthynas ag offerynnau statudol.

## RHAN 3 – DIDDYMIADAU I DDEDDFWRIAETH CYMRU

### Adran 4 – Diddymiadau a diwygiadau cysylltiedig

### Atodlen 1 – Diddymiadau a diwygiadau cysylltiedig

121. Mae Atodlen 1 (a gyflwynir gan adran 4) yn cynnwys diddymiadau o ddeddfiadau amrywiol a diwygiadau iddynt.

*Rhan 1 – Byrddau Datblygu Gwledig*

122. Nod Rhan 3 o Ddeddf Amaethyddiaeth 1967 ('Deddf 1967') oedd hyrwyddo defnydd gwell o diroedd mynydd, a rhoddodd bwerau i Weinidogion i sefydlu Byrddau Datblygu Gwledig a allai lunio rhaglenni i ymdrin â'r *"special problems … of rural areas of hills and uplands, and the special needs of such areas"* (adran 45(1)). Mae Atodlen 5 i Ddeddf 1967 yn rhagnodi'r mecanwaith ar gyfer sefydlu Bwrdd o'r fath a'i gyfansoddiad. Mae swyddogaethau sefydlu Byrddau Datblygu Gwledig o ran Cymru bellach wedi eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru.

123. Nid oes Byrddau Datblygu Gwledig wedi eu sefydlu o ran Cymru o dan Ddeddf 1967.

124. Mae paragraff 1 o'r Atodlen hon i'r Bil yn diwygio Deddf 1967 er mwyn datgymhwyso darpariaethau yn Rhan 3 o'r Ddeddf honno o ran Cymru, gan gynnwys diwygio'r darpariaethau dehongli perthnasol i hepgor cyfeiriadau at Gymru na fyddai eu hangen mwyach. Mae Atodlen 5 i Ddeddf 1967 yn cael ei chyflwyno gan adran 45(5) o'r Ddeddf honno. Gan na fydd yn bosibl sefydlu Bwrdd Datblygu Gwledig ar gyfer ardal yng Nghymru mwyach, ni fydd Atodlen 5 yn gymwys yng Nghymru.

125. Mae'r Bil hefyd yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 ac i Atodlen 3A i Ddeddf 2006.

*Rhan 2 – Ardaloedd parthau menter*

126. Cyflwynodd Deddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980 ('Deddf 1980') bwerau i sefydlu 'parthau menter' i weld sut y gallai llacio rheolaeth gynllunio, esemptio rhag ardrethi annomestig a chymhellion cyllidol penodol eraill helpu i adfywio ardaloedd trefol adfeiliedig a diffaith. Yn y degawdau canlynol, gwnaed tua 35 o orchmynion, gan ddynodi rhyngddynt ychydig dros 100 parth. O'r rheini, dynododd pedwar gorchymyn 15 parth yng Nghymru.[35]

127. Mae paragraff 4 o'r Atodlen hon i'r Bil yn diwygio Atodlen 32 i Ddeddf 1980 er mwyn datgymhwyso'r darpariaethau hyn o ran Cymru. Effaith hyn yw dileu pŵer Gweinidogion Cymru i ddynodi parthau menter. Mae'r Bil hefyd yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 a Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013.

[35] Abertawe (o dan O.S. 1981/757), 13 ar lannau Dyfrffordd Aberdaugleddau (O.S. 1984/443 ac O.S. 1984/444) a Chwm Tawe Isaf (O.S. 1985/137).

128. Darparwyd ar gyfer ail fath o barth menter wedyn yn Neddf Lwfansau Cyfalaf 2001, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cyllid 2012; nod y rhain yw annog twf economaidd a buddsoddiad. Mae wyth parth menter yn weithredol yng Nghymru ar hyn o bryd, pob un yn arbenigo mewn sector busnes penodol. Nid yw'r Bil yn effeithio ar yr ail fath hwn o barth menter.

*Rhan 3 – Ymddiriedolaethau gweithredu tai*

129. Mae Rhan 3 o Ddeddf Tai 1988 ('Deddf 1988') yn gwneud darpariaeth ynghylch 'ardaloedd ymddiriedolaethau gweithredu tai'. Mae'r rhain yn ardaloedd lle y mae Gweinidogion Cymru (neu yn Lloegr, yr Ysgrifennydd Gwladol) yn ystyried y gallai amodau byw trigolion lleol, yr amodau cymdeithasol a'r amgylchedd cyffredinol gael eu gwella drwy sefydlu ymddiriedolaeth gweithredu tai. Rhwng 1991 a 1994, dynodwyd chwe ardal yn ardaloedd ymddiriedolaethau gweithredu tai, a phob un ohonynt yn Lloegr. Nid oes yr un ardal ymddiriedolaeth gweithredu tai wedi ei dynodi yng Nghymru.

130. Gellid dynodi ymddiriedolaeth o'r fath yn awdurdod cynllunio lleol yn ei hardal (o dan adran 8 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990). Ni ddynodwyd yr un o'r ymddiriedolaethau yn awdurdod cynllunio lleol. Cafodd pob un o'r ymddiriedolaethau a sefydlwyd ar gyfer ardaloedd yn Lloegr eu dirwyn i ben ar wahanol ddyddiadau rhwng 1999 a 2005.

131. Mae paragraff 7 o'r Atodlen hon i'r Bil yn diwygio Rhan 3 o Ddeddf 1988 fel na fydd yn gymwys o ran Cymru. Bydd hyn yn golygu na ellir sefydlu ymddiriedolaethau gweithredu tai ond ar gyfer ardaloedd yn Lloegr, ac na allant ond arfer swyddogaethau mewn ardaloedd yn Lloegr. O ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig i Ddeddf 1988, mae angen diwygiadau i Ddeddfau amrywiol eraill.

*Rhan 4 – Cynlluniau lleol, cynlluniau strwythur a chynlluniau datblygu unedol*

132. Mae'r system gynllunio yng Nghymru yn un 'sy'n cael ei harwain gan gynlluniau datblygu', sy'n golygu mai cynlluniau datblygu yw'r man cychwyn wrth wneud penderfyniadau cynllunio. Pan fydd cynllun datblygu wedi cael ei fabwysiadu, bydd penderfyniadau ar geisiadau cynllunio'n cael eu gwneud yn unol â'r cynllun datblygu, oni bai bod ystyriaethau perthnasol eraill yn nodi fel arall. Mae'r system cynlluniau datblygu yng Nghymru yn cynnwys tair haen gyda chynlluniau'n cael eu llunio ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol.

133. Arferai'r ddeddfwriaeth sylfaenol ynghylch llunio cynlluniau datblygu fod yn Rhan 2 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ('Deddf 1990'). Roedd Rhan 2 yn darparu, yn gyffredinol, y dylai fod cynllun strwythur (wedi ei lunio fel arfer gan y cyngor ar gyfer sir gyfan) a chyfres o gynlluniau lleol (pob un wedi ei lunio gan y cyngor dosbarth perthnasol, gan gwmpasu'r cyfan neu ran o'i ardal) ar gyfer pob ardal. Mewn achosion lle roedd system un haen o gynghorau bwrdeistref, darparai Deddf 1990 hefyd ar gyfer cynlluniau datblygu unedol (CDUau). Pan gyflwynwyd y system un haen bresennol o lywodraeth leol yng Nghymru o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 ('Deddf 1994'), roedd yn ofynnol i'r awdurdodau unedol newydd lunio CDUau ar gyfer eu hardaloedd.

134. Wedi hynny, cyflwynodd Rhan 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 ('Deddf 2004') Gynllun Gofodol Cymru, sef cynllun newydd ar gyfer Cymru gyfan, a oedd i'w

lunio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (fel yr oedd ar y pryd). Cyflwynodd ofyniad hefyd i awdurdodau cynllunio lleol lunio cynlluniau datblygu lleol (CDLlau) a fyddai, o'u mabwysiadu, yn cymryd lle cynlluniau a fabwysiadwyd o dan y systemau blaenorol. Mae CDLlau bellach wedi eu mabwysiadu gan bob un o'r awdurdodau cynllunio yng Nghymru (gan gynnwys y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol), ar ôl i Gyngor Wrecsam fabwysiadu CDLl ar 20 Rhagfyr 2023.

135. Diwygiodd Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 Ddeddf 2004 drwy gyflwyno Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru (FfDC), a ddaeth yn rhan o'r cynllun datblygu gan gymryd lle Cynllun Gofodol Cymru (o 24 Chwefror 2021). Roedd hefyd yn darparu ar gyfer llunio cynlluniau datblygu strategol (CDSau) ar lefel ranbarthol, gyda Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i gyd-bwyllgorau corfforedig eu llunio.

136. Yn ei hanfod felly, bu'r dilyniant dros amser fel a ganlyn: cynlluniau lleol/cynlluniau strwythur (hyd at 1996); CDUau (1996-2005); CDLlau, CDSau ac FfDC (o 2005 ymlaen). Bob tro y mae'r system wedi newid mae'r ddeddfwriaeth ddiwygio wedi darparu ar gyfer trefniadau trosiannol. Roedd y trefniadau hyn yn rhoi cyfle i awdurdodau sydd wrthi'n llunio cynlluniau o dan un system i barhau i wneud hynny, gan symud ymlaen i'r system newydd pan fydd yr hen gynllun wedi ei gwblhau. Pan ddaeth Deddf 2004 i rym, roedd rhai awdurdodau yng Nghymru yn dal i fod â chynlluniau lleol neu gynlluniau strwythur a berthynai i'r system a fodolai cyn 1996 yn ogystal â rhai oedd â CDUau a berthynai i'r system a fodolai cyn 2004.

137. Diwygiodd Deddf 1994 Ran 2 o Ddeddf 1990 i gymhwyso'r darpariaethau ynghylch CDUau i Gymru, ac i ddarparu ar gyfer trefniadau trosiannol ynghylch statws cynlluniau lleol a chynlluniau strwythur hyd nes y bo awdurdodau wedi mabwysiadu CDUau. Mabwysiadwyd yr CDU olaf yng Nghymru yn 2011, ac felly mae'r darpariaethau trosiannol bellach wedi eu disbyddu a gellir eu diddymu. Rhoddwyd CDLl yn lle'r unig CDU a oedd yn weddill yng Nghymru ym mis Rhagfyr 2023, felly mae'r darpariaethau ynghylch CDUau yng Nghymru hefyd bellach wedi eu disbyddu a gellir eu diddymu. Mae'r Bil felly yn hepgor:

a. Rhan 1A o Atodlen 2 i Ddeddf 1990: a

b. adran 20(1) i (3) o Ddeddf 1994 ynghyd ag Atodlen 5 a pharagraffau 16 a 17 o Atodlen 17 iddi.

138. Dygwyd darpariaethau Deddf 2004 i rym gan Orchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 6, Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) 2005,[36] gan roi effaith i CDLlau a chan ddiddymu Rhan 2 o Ddeddf 1990. Roedd Gorchymyn 2005 yn cynnwys darpariaethau a oedd yn diogelu effaith cynlluniau presennol yn ystod y cyfnod trosiannol cyn i bob awdurdod cynllunio lleol fabwysiadu ei CDLl. Gwnaeth adran 204 o Ddeddf Cynllunio 2008 ddarpariaethau trosiannol pellach i sicrhau bod y weithdrefn hysbysiad malltod yn parhau i fod yn gymwys i dir yr oedd cynlluniau a fabwysiadwyd o dan y systemau blaenorol yn effeithio arno. Nid oes angen y darpariaethau trosiannol hyn mwyach, felly mae'r Bil yn diwygio Gorchymyn 2005 a Deddf Cynllunio 2008 i'w dileu.

[36] O.S. 2005/2847.

139. Mae'r Bil hefyd yn hepgor adran 186 o Ddeddf Cynllunio 2008 (ym mharagraff 20(2) o'r Atodlen hon i'r Bil), nad yw erioed wedi ei dwyn i rym. Mae'n ymwneud â phwerau'r Uchel Lys mewn perthynas â heriau cyfreithiol i CDUau a fabwysiadwyd o dan Ran 2 o Ddeddf 1990. Fel y nodwyd uchod, mabwysiadwyd y CDU olaf yng Nghymru yn 2011, ac nid oedd modd mabwysiadu unrhyw CDUau wedyn oherwydd unwaith yr oedd CDU gan awdurdod, roedd yn ofynnol iddo ddechrau llunio CDLl o dan Ran 6 o Ddeddf 2004. Byddai rhaid i heriau cyfreithiol i CDUau fod wedi eu dwyn o fewn ychydig wythnosau ar ôl eu mabwysiadu, roedd unrhyw obaith o her o'r fath wedi diflannu erbyn 2012.

*Rhan 5 – Polisïau ynni mewn cynlluniau datblygu*

140. Nod Deddf Cynllunio ac Ynni 2008 ('Deddf 2008'), Bil Aelodau Preifat yn wreiddiol, oedd annog microgynhyrchu ac adeiladau sy'n defnyddio ynni yn fwy effeithlon, yn hytrach na chyflwyno gofyniad ar gyrff i weithredu rhwymedigaethau newydd. Ystyriodd Comisiwn y Gyfraith a ddylid nodi darpariaethau o'r fath mewn canllawiau "*am eu bod yn annog a chaniatáu cynnwys polisïau o'r fath, yn hytrach na gosod unrhyw rwymedigaethau llymach ar awdurdodau cynllunio.*"[37]

141. Mae Polisi Cynllunio Cymru (sy'n amlinellu polisïau cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru) yn nodi bod y materion hyn yn ystyriaethau penodol wrth lunio cynlluniau datblygu strategol a chynlluniau datblygu lleol. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn amlinellu disgwyliadau Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag awdurdodau cynllunio o ran:

a. pennu polisïau i ddatblygiadau ddefnyddio ynni o ffynonellau adnewyddadwy a charbon isel lleol;

b. cynnwys polisïau i bennu safonau effeithlonrwydd ynni sy'n rhagori ar y gofynion mewn rheoliadau adeiladu ar gyfer safleoedd datblygu strategol.[38]

142. Ychydig o wahaniaeth sydd o safbwynt effaith polisi rhwng nodau Deddf 2008 a'r hyn sydd wedi ei nodi ym Mholisi Cynllunio Cymru. Fodd bynnag, oherwydd bod rhaid i awdurdodau cynllunio a chyd-bwyllgorau corfforedig roi sylw i'r polisïau ym Mholisi Cynllunio Cymru, mae hyn yn gosod mwy o ofyniad arnynt na Deddf 2008 drwy ei gwneud yn ofynnol iddynt roi sylw i'r materion hyn wrth lunio eu cynlluniau datblygu lleol a'u cynlluniau datblygu strategol.

143. Mae Rhan 5 o'r Atodlen hon i'r Bil yn diwygio Deddf 2008 fel na fydd yn gymwys mwyach o ran Cymru ac mae'n gwneud diwygiadau canlyniadol i Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

*Rhan 6 – Y drosedd o symud ymaith bridd heb gydsyniad*

144. Bwriedid i Ddeddf Tir Amaethyddol (Symud Ymaith Bridd Arwyneb) 1953 ('Deddf 1953') ymdrin â'r broblem bod uwchbridd yn cael ei dynnu ymaith oddi ar dir amaethyddol, er budd masnachol, gan adael tir na ellir ei drin ymhellach. O dan adran 1, mae'n drosedd tynnu ymaith fwy na phum llathen giwbig (sef 3.822 metr ciwbig) o bridd o dir amaethyddol mewn unrhyw gyfnod o dri mis gyda'r bwriad o'i werthu, ond dim ond pan fo gweithgaredd o'r fath yn gyfystyr â "datblygiad" o dan

[37] Comisiwn y Gyfraith (2020) *Cyfraith Cynllunio yng Nghymru* (Law Com 383), ym mharagraff 6.13.
[38] Llywodraeth Cymru (2021) *Polisi Cynllunio Cymru* (rhifyn 11), paragraffau 5.9.11 a 5.8.5 yn eu trefn.

Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ('Deddf 1990')[39] ac na chafwyd caniatâd cynllunio ar ei gyfer. Gellir erlyn person sy'n cyflawni trosedd o dan Ddeddf 1953 ac, ar euogfarn ddiannod, ei gosbi drwy ddirwy o hyd at Lefel 3 neu hyd yn oed drwy gyfnod o garchar[40] (gweler adran 2), ond dim ond gyda chydsyniad y Twrnai Cyffredinol neu'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus (gweler adran 3) y gellir dwyn erlyniad.[41]

145. Pan fo person yn ymgymryd â datblygiad heb ganiatâd cynllunio, gall yr awdurdod cynllunio perthnasol ymdrin â hyn drwy gymryd camau gorfodi o dan Ddeddf 1990. Gall torri camau gorfodi arwain at erlyniad o dan Ddeddf 1990 a gall euogfarn arwain at ddirwy ddiderfyn, ond nid cyfnod o garchar. Cafodd y pwerau i atal datblygu anawdurdodedig yn gyflym eu cyflwyno'n wreiddiol yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1968, gan gael effaith o 1 Ionawr 1969. Deellir mai ychydig iawn o erlyniadau, os o gwbl, sydd wedi eu dwyn o dan Ddeddf 1953 ers 1969. Yn ddi-os, yr arfer heddiw yw mynd i'r afael ag achosion o dorri'r gofynion ar gyfer caniatâd cynllunio drwy Ddeddf 1990.

146. O ganlyniad, i'r graddau y mae'n gymwys yng Nghymru, nid yw Deddf 1953 o ddefnyddioldeb ymarferol mwyach. Mae'r Bil felly yn datgymhwyso Deddf 1953 mewn perthynas â thir yng Nghymru.

*Rhan 7 – Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011*

147. Mae Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011 ('Mesur 2011') yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru wneud systemau llethu tân awtomatig – y cyfeirir atynt yn gyffredin fel systemau chwistrellu – yn orfodol ym mhob preswylfa newydd a phreswylfa wedi ei throsi.

148. Yn dilyn ymgynghoriad yn 2012 ar weithredu Mesur 2011 a throsglwyddo'r system rheoli adeiladu (yn enwedig y Rheoliadau Adeiladu) i Weinidogion Cymru, dim ond adran 1 o Fesur 2011 a ddygwyd i rym.[42] Mae'r ffaith nad yw darpariaethau gorfodi'r Mesur wedi eu dwyn i rym yn golygu, fel y mae pethau ar hyn o bryd, nad oes iddo effaith ymarferol. Dim ond i raddau cyfyngedig y cafodd adran 1 ei dwyn i rym, ac nid yw'n gymwys i amrywiaeth o adeiladau, gan gynnwys adeiladau rhestredig, adeiladau mewn ardaloedd cadwraeth, ac adeiladau gydag amser defnyddio a gynlluniwyd o ddwy flynedd neu lai.[43]

149. Mae adran 1(3)(b) o Fesur 2011 yn nodi nad yw'n gymwys "*os yw rheoliadau adeiladu sy'n gosod gofynion o ran darparu systemau llethu tân awtomatig yn gymwys i'r gwaith hwnnw neu os y byddai'n gymwys oni bai am gyfarwyddyd o dan adran 8 o Ddeddf [Adeiladu] 1984 sy'n hepgor gofynion o'r fath.*" Mae rheoliad 37A o Reoliadau Adeiladu 2010 yn ei

[39] Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1947 yn wreiddiol, ond fe'i diwygiwyd wedi hynny i Ddeddf 1990 gan Ddeddf Cynllunio (Diwygiadau Canlyniadol) 1990.
[40] Bydd Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 yn diwygio Deddf 1953 er mwyn diddymu'r atebolrwydd i gyfnod o garchar (gweler paragraff 34 o Atodlen 34 i'r Ddeddf honno a Rhan 9 o Atodlen 37 iddi), ond nid yw'r diwygiad hwnnw wedi ei ddwyn i rym eto.
[41] Argymhellodd Comisiwn y Gyfraith y dylid dileu'r gofyniad i gael cydsyniad i erlyn (gweler paragraff 6.58 o *Consents to Prosecution* (1998) (Law Com 255)). Nid yw'r argymhelliad hwn wedi ei weithredu hyd yma.
[42] Mae hyn yn ychwanegol at bwerau gwneud rheoliadau, etc. a ddaeth i rym drannoeth y diwrnod y cafwyd y Cydsyniad Brenhinol.
[43] Erthygl 2(3) o O.S. 2013/2727.

gwneud yn ofynnol darparu systemau llethu tân awtomatig mewn adeiladau penodol ac mae adran 6 o Fesur 2011 yn nodi'r preswylfeydd y mae'n gymwys iddynt.

150. Yn ymarferol, mae'r gofynion ynghylch gosod systemau llethu tân wedi eu nodi yn y Rheoliadau Adeiladu ac yn cael eu gorfodi drwyddynt. Mae paragraff 26 o'r Atodlen hon i'r Bil felly yn diddymu Mesur 2011 yn llawn.

*Rhan 8 – Ad-drefnu llywodraeth leol*

151. Mae pob un o'r 22 o gynghorau yng Nghymru yn awdurdodau unedol o ganlyniad i Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 ('Deddf 1994') a ddiddymodd yr wyth sir a'r 37 o ddosbarthau llywodraeth leol a oedd wedi eu ffurfio ym 1974.

152. Mae'r Bil yn mynd i'r afael â phedwar mater sy'n ymwneud ag ad-drefnu llywodraeth leol yng Nghymru:

a. Pwyllgorau gwasanaethau cymdeithasol – mae adran 101(10A) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ('Deddf 1972'), a oedd yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â phwyllgorau gwasanaethau cymdeithasol, yn croesgyfeirio at ddarpariaeth a ddiddymwyd gan Ddeddf Plant 2004 ac fe ddylai hithau hefyd fod wedi ei diddymu bryd hynny. Felly, mae'r Bil yn hepgor adran 101(10A) o Ddeddf 1972, a'r ddarpariaeth yn Neddf 1994 a oedd yn wreiddiol yn mewnosod is-adran (10A) yn adran 101 o Ddeddf 1972.

b. Corff Gweddilliol Cymru – sefydlodd Deddf 1994 Gorff Gweddilliol Cymru i ddal asedau awdurdodau wedi eu diddymu nad oedd modd eu trosglwyddo'n hawdd i awdurdod newydd fel rhan o ad-drefnu llywodraeth leol yng Nghymru o dan Ddeddf 1994. Roedd y Corff Gweddilliol wedi cael gwared ar yr asedau hynny erbyn 1998, ac mae'r Corff ei hun wedi ei ddiddymu ers hynny,[44] felly mae'r darpariaethau hyn bellach wedi eu disbyddu. Mae paragraff 29 o'r Atodlen hon i'r Bil yn hepgor y darpariaethau a ddisbyddwyd yn Neddf 1994 ac mae paragraffu 30 i 37 yn hepgor cyfeiriadau at y Corff Gweddilliol yn:

    i. Deddf Rhenti 1977;
    ii. Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982;
    iii. Deddf Tai 1988;
    iv. Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990;
    v. Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992;
    vi. Deddf yr Amgylchedd 1995;
    vii. Deddf Tai 1996; ac
    viii. Deddf Llywodraeth Cymru 1998.

c. Darpariaeth drosiannol o dan Ddeddf 1994 – mae darpariaethau trosiannol sydd wedi eu disbyddu yn Neddf 1994 a diwygiad i'r darpariaethau hynny yn Neddf Llywodraeth Leol 2003 wedi eu hepgor.

d. Cynlluniau datganoli a chydweithio – o dan Ran 3 o Ddeddf 1994 gallai prif gynghorau newydd sefydlu pwyllgorau ardal i gyflawni swyddogaethau'r cyngor drwy gyfrwng 'cynllun datganoli', a gallai'r Ysgrifennydd Gwladol roi

[44] Gweler Gorchymyn Corff Gweddilliol Cymru (Dirwyn i Ben) 1998 (O.S. 1998/2859).

cyfarwyddydau penodol mewn perthynas â threfniadau cydweithio a gwybodaeth gysylltiedig i brif gynghorau. Roedd rhaid i geisiadau am gynlluniau datganoli gael eu gwneud erbyn 1 Ionawr 1996 (a'u cymeradwyo gan yr Ysgrifennydd Gwladol heb fod yn hwyrach na 1 Gorffennaf 1996), a dim ond hyd at 31 Mawrth 1999 y gallai'r Ysgrifennydd Gwladol wneud cyfarwyddydau cydweithio – felly mae pob un o'r trefniadau hyn bellach wedi eu disbyddu.[45] Mae'r Bil felly yn hepgor Rhan 3 o Ddeddf 1994 ac yn gwneud diwygiad canlyniadol i Ddeddf Addysg 1996.

*Rhan 9 – Datganiadau o anghenion addysgol arbennig*

153. Mae adran 5 o Ddeddf Personau Anabl (Gwasanaethau, Ymgynghori a Chynrychioli) 1986 ('Deddf 1986') yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â phersonau ag anabledd sy'n gadael addysg lawnamser pan fônt o dan bedair ar bymtheg mlwydd ac wyth mis oed ac sydd yn flaenorol wedi cael datganiad o anghenion addysgol arbennig (a oedd y system yng Nghymru, ond nid honno yw'r system mwyach) neu gynllun addysg, iechyd a gofal (sef y system yn Lloegr).

154. Nid yw adran 5 o Ddeddf 1986 yn cael unrhyw effaith o ran sylwedd yng Nghymru mwyach. Diddymodd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 i bob pwrpas, o ran Cymru, y darpariaethau yn Neddf Addysg 1996 a oedd yn ymwneud â datganiadau o anghenion addysgol arbennig, a rhoi system newydd yn eu lle. Nid oes unrhyw bobl yng Nghymru sydd â datganiadau o dan Ddeddf 1996 mwyach, nac o dan systemau hŷn a nodir yn Neddfau Addysg 1981 a 1993. O ganlyniad, nid yw'r cyfeiriadau amrywiol yn adran 5 at ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig yn cael unrhyw effaith ystyrlon yng Nghymru.

155. Mae'r system asesu yn adran 5 hefyd wedi ei disodli gan ddatblygiadau cyfreithiol eraill yng Nghymru. Mae'r adran honno yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol sydd wedi ei hysbysu am ymadawiad y person ag addysg lawnamser asesu angen y person am wasanaethau gan yr awdurdod o dan "y deddfiadau lles". Mae adran 5 hefyd yn cynnwys dyletswyddau hysbysu. Yng Nghymru, ystyr "y deddfiadau lles" yw Rhannau 4 a 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ('Deddf 2014').

156. Mae Deddf 2014 yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol i asesu anghenion oedolion a phlant pan fo'n ymddangos y gall fod angen gofal a chymorth ar yr oedolion a'r plant hynny. Mae adran 19 o'r Ddeddf honno yn cynnwys y ddyletswydd mewn perthynas ag oedolion ac mae adran 21 yn cynnwys y ddyletswydd mewn perthynas â phlant.

157. Mae'r dyletswyddau asesu hyn yn gymwys yn ehangach na'r dyletswyddau asesu yn adran 5 o Ddeddf 1986, gan nad ydynt wedi eu cyfyngu i bersonau ag anableddau sydd wedi cael datganiad o anghenion arbennig ac sydd o dan oedran penodol. Caiff sefyllfa arbennig plant ag anableddau ei chydnabod yn benodol gan adran 21 o Ddeddf 2014, gan fod rhaid i asesiad o dan yr adran honno ddechrau â'r rhagdybiaeth bod angen gofal a chymorth ar blant ag anableddau (gweler adran 21(7)). Mae'r Cod

[45] Darperir bellach ar gyfer trefniadau cyfatebol, mewn perthynas â Chyd-bwyllgorau Corfforedig, gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Ymarfer sy'n ymwneud ag asesu anghenion unigolion o dan Ddeddf 2014[46] yn nodi proses ar gyfer asesu anghenion unigolion o ran gofal a chymorth a phroses adolygu ac ailasesu a fydd yn gymwys i asesiadau.

158. Pan fo asesiad o anghenion person wedi ei gynnal o dan adran 19 neu adran 21 o Ddeddf 2014, bydd Rhan 4 o'r Ddeddf honno a rheoliadau a wneir odani yn pennu'r camau nesaf. Mae Rhan 6 o Ddeddf 2014 yn ymdrin â dyletswyddau awdurdod lleol tuag at blentyn sydd yn ei ofal neu sy'n cael ei letya ganddo.

159. Mae'r Bil yn diwygio adran 5 o Ddeddf 1986 i gyfyngu'n benodol ar gymhwysiad yr adran honno i Loegr ac i ddileu cyfeiriadau diangen at y Cynulliad Cenedlaethol, ac mae'n gwneud diwygiadau canlyniadol cysylltiedig.

*Rhan 10 – Byrddau Cynllunio Parciau Cenedlaethol*

160. Mae tri Pharc Cenedlaethol yng Nghymru: Arfordir Penfro (Pembrokeshire Coast), Bannau Brycheiniog (Brecon Beacons) ac Eryri (Snowdonia). Mae'r rhain, a'r 10 yn Lloegr, wedi eu dynodi o dan Ran 2 o Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949. Ers i'r Parciau Cenedlaethol yng Nghymru gael eu dynodi gyntaf yn y 1950au, mae nifer o newidiadau wedi bod i'r trefniadau gweinyddol ar gyfer rheoli'r Parciau, gan gynnwys y rhai a wnaed gan Ddeddf Cefn Gwlad 1968, Deddf Llywodraeth Leol 1972, Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 a Deddf yr Amgylchedd 1995 ('Deddf 1995'). Cyn y newidiadau a wnaed gan Ddeddf 1995, roedd gan bob Parc Cenedlaethol yng Nghymru Bwyllgor Parc Cenedlaethol.[47] Roedd hefyd bwerau i sefydlu byrddau cydgynllunio neu fyrddau cynllunio arbennig ar gyfer Parciau Cenedlaethol,[48] ond nid oedd y pwerau hynny wedi eu defnyddio yng Nghymru.

161. Rhoddodd adran 63 o Ddeddf 1995 y pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud gorchymyn yn sefydlu awdurdod Parc Cenedlaethol lle roedd awdurdod yn bodoli eisoes ar gyfer Parc Cenedlaethol neu mewn cysylltiad â dynodi ardal yn Barc Cenedlaethol newydd. Ystyr awdurdod a oedd yn bodoli eisoes yn y cyd-destun hwn oedd bwrdd cydgynllunio, bwrdd cynllunio arbennig neu Bwyllgor Parc Cenedlaethol. Sefydlodd Gorchymyn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Cymru) 1995[49] ('Gorchymyn 1995') awdurdodau Parciau Cenedlaethol ar gyfer y Parciau yng Nghymru, gan gael effaith o 23 Tachwedd 1995 ymlaen. Ysgwyddodd yr awdurdodau eu swyddogaethau o sylwedd, a pheidiodd y Pwyllgorau Parciau Cenedlaethol â bodoli, ar 1 Ebrill 1996.

162. Mae adran 64 o Ddeddf 1995, sy'n gymwys i Gymru yn unig, yn ymwneud yn bennaf â'r pontio o fyrddau cydgynllunio neu fyrddau cynllunio arbennig i awdurdodau Parciau Cenedlaethol. Roedd is-adrannau (1) i (5) yn ymdrin â'r sefyllfa pan oedd bwrdd eisoes wedi ei sefydlu ar gyfer Parc Cenedlaethol, ond ni chawsant unrhyw effaith erioed gan na sefydlwyd byrddau o'r fath yng Nghymru erioed. Mae'r Bil felly yn diddymu'r darpariaethau hyn, gan eu bod yn ddiangen.

---

[46] Llywodraeth Cymru (2015) *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Cod Ymarfer Rhan 3 (asesu anghenion unigolion)*.

[47] Sefydlwyd o dan baragraff 5 o Atodlen 17 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

[48] Ym mharagraffau 1 i 3A o Atodlen 17 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac adran 2 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

[49] 1995/2803.

163. Roedd adran 64(6) a (7) yn ymdrin â'r sefyllfa pan oedd camau wedi eu cymryd tuag at sefydlu bwrdd ond na chwblhawyd y gwaith, a phan oedd awdurdod Parc Cenedlaethol yn lle hynny i gael ei sefydlu cyn 31 Mawrth 1997. Mae'r Bil felly yn diddymu'r is-adrannau hynny, gan y byddent wedi bod yn gymwys i bethau a wnaed yn ystod cyfnod a ddaeth i ben amser maith yn ôl ac sydd bellach wedi eu disbyddu.

164. Roedd is-adran (9) o adran 64 yn diffinio termau a ddefnyddiwyd yn is-adrannau (1) i (7), ac roedd adran 75(2) yn gwneud darpariaeth ar gyfer gorchmynion o dan adran 64. Mae'r Bil felly yn diddymu'r darpariaethau hyn hefyd, na fyddant yn arferadwy mwyach pan fydd y pwerau o sylwedd wedi eu diddymu.

165. Yn adran 65 o Ddeddf 1995, mae is-adran (3) yn gwneud darpariaeth ynghylch swyddogaethau awdurdod Parc Cenedlaethol yn ystod unrhyw gyfnod rhwng sefydlu'r awdurdod a phan ddaw'r awdurdod yn awdurdod cynllunio lleol. Roedd is-adran (4) yn addasu is-adran (3) ar gyfer Cymru, ond dim ond mewn perthynas â phethau a wnaed cyn 1 Ebrill 1996. Mae is-adran (4) bellach wedi ei disbyddu ac mae hefyd wedi ei diddymu.

166. Mae'r diffiniad o "existing authority" yn adran 79(1) yn cynnwys cyfeiriadau at bwerau i sefydlu byrddau cydgynllunio a byrddau cynllunio arbennig ar gyfer Parciau Cenedlaethol yng Nghymru nas defnyddiwyd erioed ac nad ydynt ar gael mwyach. Mae'r Bil felly yn diddymu'r darpariaethau hyn gan eu bod yn ddiangen.

167. Yn Atodlen 7 i Ddeddf 1995, mae paragraff 14(2)(b) a 14(4) yn cyfeirio at bethau a wnaed gan fwrdd cydgynllunio neu fwrdd cynllunio arbennig ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru. Mae'r Bil yn diddymu'r darpariaethau hyn gan na chawsant effaith erioed ac na allant gael unrhyw effaith mwyach.

168. Yn Atodlen 10 i Ddeddf 1995, roedd paragraff 30 yn diwygio darpariaeth yn Atodlen 8 i Ddeddf Trydan 1989. Diwygiwyd y ddarpariaeth honno yn ogystal gan baragraff 22 o Atodlen 6 i Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 ('diwygiad 1994'), nad oedd mewn grym pan ddeddfwyd Deddf 1995. Roedd paragraff 30 o Atodlen 10 felly yn cynnwys diwygiadau gwahanol ar gyfer sefyllfaoedd pan oedd yn dod i rym cyn diwygiad 1994, ar ei ôl neu ar yr un pryd ag ef. Mewn gwirionedd, daeth paragraff 30 i rym cyn diwygiad 1994, felly nid oedd erioed angen y diwygiadau ar gyfer y sefyllfaoedd eraill.[50] Mae'r Bil felly yn diddymu'r darpariaethau hyn, sydd wedi eu cynnwys ym mharagraff 30(4) a (5) o Atodlen 10.

169. Yn Atodlen 23 i Ddeddf 1995, darpariaethau trosiannol oedd paragraffau 7, 11 a 15 ar gyfer achosion pan oedd byrddau cydgynllunio a byrddau cynllunio arbennig wedi eu sefydlu ar gyfer Parciau Cenedlaethol yng Nghymru. Ni chafodd y paragraffau hynny eu dwyn i rym. Ni chododd y sefyllfa yr oeddent yn gymwys iddi, a hyd yn oed pe bai wedi codi byddai'r paragraffau bellach wedi eu disbyddu, felly mae'r Bil yn eu diddymu.

[50] Cafodd paragraff 30 ei ddwyn i rym gan erthygl 2(1) o O.S. 1995/2950 ar 23 Tachwedd 1995; cafodd diwygiad 1994 ei ddwyn i rym gan erthygl 3 o O.S. 1996/396 ar 1 Ebrill 1996.

*Rhan 11 – Awdurdod Datblygu Cymru*

170. Sefydlwyd Awdurdod Datblygu Cymru o dan Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 ac roedd yn gyfrifol am annog datblygu busnes a buddsoddi yng Nghymru, clirio tir diffaith ac annog twf busnesau lleol. Cynyddodd Deddf Awdurdod Datblygu Cymru 1997 derfynau ariannol Awdurdod Datblygu Cymru.

171. Diddymwyd Awdurdod Datblygu Cymru yn 2006 a throsglwyddwyd ei swyddogaethau i Weinidogion Cymru.51 Llywodraeth Cymru sydd bellach yn gyfrifol am gefnogi ac annog datblygu busnes a buddsoddi yng Nghymru.

172. Mae Deddf Awdurdod Datblygu Cymru 1997 yn ddiangen, ac felly mae paragraff 48 o'r Atodlen hon i'r Bil yn diddymu'r Ddeddf honno.

173. Cynyddodd Deddf Diwydiant 1979 ('Deddf 1979') derfynau benthyca'r Bwrdd Menter Cenedlaethol, Awdurdod Datblygu'r Alban ac Awdurdod Datblygu Cymru. Ynghyd ag Awdurdod Datblygu Cymru, mae'r ddau gorff arall wedi peidio â bodoli hefyd. Mae Deddf 1979 wedi ei diddymu eisoes i'r graddau y mae'n gymwys i'r Bwrdd Menter Cenedlaethol ac Awdurdod Datblygu'r Alban. Dim ond mewn perthynas ag Awdurdod Datblygu Cymru y mae'n parhau i fod heb ei diddymu. Gan nad yw'r corff hwn yn bodoli mwyach, nid yw Deddf 1979 yn arferadwy mwyach. Mae paragraff 46 o'r Atodlen hon i'r Bil felly hefyd yn diddymu Deddf 1979.

174. Mae'r Bil yn diwygio Deddf Diwydiant 1980, a ddeddfwyd i leihau pwerau Awdurdod Datblygu Cymru, Awdurdod Datblygu'r Alban a'r Bwrdd Menter Cenedlaethol. Roedd y tri chorff hyn i beidio â dal cyfranddaliadau mewn cwmnïau, yn unol â pholisi'r Llywodraeth (bryd hynny) o grebachu'r sector cyhoeddus. Mae darpariaethau'r Ddeddf hon a ddiddymir gan y Bil yn cynnwys diwygiadau i ddeddfiadau eraill sydd i gyd yn ddiangen bellach.

175. Mae'r Bil hefyd (ym mharagraff 49) yn diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 1998 ('Deddf 1998') mewn perthynas â diddymu Awdurdod Datblygu Cymru:

   a. yn gyntaf, drwy hepgor darpariaethau diangen o Ran 1 o Atodlen 14 i'r Ddeddf honno a oedd wedi diwygio Deddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975;

   b. yn ail, drwy hepgor darpariaethau a ddisbyddwyd o Ran 2 o Atodlen 14 a oedd yn diwygio deddfiadau eraill mewn perthynas ag Awdurdod Datblygu Cymru.

*Rhan 12 – Bwrdd Datblygu Cymru Wledig*

176. Drwy Ddeddf Datblygu Cymru Wledig 1976 ('Deddf 1976'), y bwriad oedd hyrwyddo lles economaidd a chymdeithasol pobl mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru, yn enwedig lles y Canolbarth. Sefydlodd Deddf 1976 Fwrdd Datblygu Cymru Wledig a gymerodd drosodd waith Corfforaeth Datblygu Canolbarth Cymru a'r Comisiwn Datblygu, ymysg materion eraill.

---

[51] Rhoddwyd effaith i'r trosglwyddiad hwn gan Orchymyn Awdurdod Datblygu Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu) 2005 (O.S. 2005/3226), ac yna i Weinidogion Cymru drwy Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

177. Mae'r mwyafrif o ddarpariaethau Deddf 1976 wedi eu diddymu eisoes (yn bennaf gan Ddeddf 1998), gan adael adrannau 23, 26 a 35 yn unig. Peidiodd Bwrdd Datblygu Cymru Wledig â bodoli yn 1998, ac felly ystyrir bod y darpariaethau hyn sy'n weddill bellach wedi eu disbyddu. Felly, ymddengys yn briodol eu dileu o'r llyfr statud, ynghyd â'r darpariaethau yn Neddf 1998 a ddiddymodd y Bwrdd Datblygu.

178. Mae paragraff 50 o'r Atodlen felly yn diddymu Deddf 1976 (sydd â'r effaith o ddiddymu'r darpariaethau olaf sy'n weddill) ac mae paragraff 51 yn diwygio Deddf 1998 er mwyn:

a. hepgor adrannau 129(1), 130(1) a (3) i (5), 131(2) i (4) ac adran 133, sy'n ymwneud â'r Bwrdd Datblygu yn dod i ben;

b. diwygio adran 154 i ddileu'r cyfeiriadau diangen at adrannau 130 a 133; ac

c. hepgor y diwygiadau sydd bellach wedi eu disbyddu a wnaed gan Ddeddf 1998 i Ddeddf y Comisiynydd Seneddol 1967 a Deddf 1976.

*Rhan 13 – Awdurdod Tir Cymru*

179. Sefydlwyd Awdurdod Tir Cymru yn 1976 o dan Ddeddf Tir Comin 1975. Ei rôl oedd prynu tir ar ran Llywodraeth y DU ar gyfer datblygu diwydiannol neu fathau eraill o ddatblygu er mwyn annog twf economaidd. Trosglwyddwyd ei swyddogaethau ar gyfer Cymru i Awdurdod Datblygu Cymru yn 1998 ac yna fe'i diddymwyd. Trosglwyddwyd swyddogaethau Awdurdod Datblygu Cymru wedyn i Weinidogion Cymru ar ôl i Awdurdod Datblygu Cymru gael ei ddiddymu.

180. Cafodd swyddogaethau Awdurdod Tir Cymru eu trosglwyddo, a pheidiodd â gweithredu, drwy Ddeddf 1998. Nid oes angen rhai o'r darpariaethau yn Neddf 1998 mwyach. Felly, mae paragraff 52 o Atodlen 1 i'r Bil yn diwygio'r Ddeddf honno oherwydd:

a. daeth adran 134 â gweithrediad yr Awdurdod Tir i ben a chan fod hynny bellach wedi digwydd mae'r ddarpariaeth hon wedi ei disbyddu ac mae felly wedi ei hepgor;

b. mae adran 135(1) yn disgrifio cysylltiad rhwng adrannau 134 a 135. Mae'r Bil yn hepgor hyn oherwydd y gallai fod yn gamarweiniol unwaith y mae adran 134 wedi ei hepgor;

c. roedd adran 136 yn gwneud darpariaeth ynghylch trosglwyddo staff, eiddo, etc. o Awdurdod Tir Cymru i Awdurdod Datblygu Cymru. Yn awr bod Awdurdod Tir Cymru ac Awdurdod Datblygu Cymru ill dau wedi peidio â bodoli, mae'r rhan fwyaf o'r adran wedi ei disbyddu. Mae'r Bil felly yn hepgor adran 136(1) a (3) i (5). Mae adran 136(2) wedi ei chadw gan ei bod yn darparu cymorth o ran dangos tystiolaeth o drosglwyddiadau eiddo;

d. mae adran 137 yn ymdrin ag arbedion a darpariaethau trosiannol. Mae'r croesgyfeiriad at adran 134 yn is-adran (1) wedi ei hepgor gan fod y Bil yn diddymu adran 134, ac mae is-adrannau (2) i (4) yn ddarpariaethau trosiannol a ddisbyddwyd y gellir eu hepgor hefyd bellach;

e. roedd adran 139 yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol i gyfarwyddo bod yr Awdurdod Tir yn peidio â bodoli. Mae'r pŵer hwn wedi ei arfer[52] ac felly mae'r adran hon wedi ei disbyddu. Mae'r Bil yn hepgor yr adran hon; ac

f. arferodd yr Ysgrifennydd Gwladol y pŵer o dan adran 139 (Diddymu etc.) i gyfarwyddo bod Awdurdod Tir Cymru yn peidio â bodoli felly mae'r adran hon wedi ei disbyddu ac mae wedi ei hepgor. Mae'r cyfeiriadau at adran 139(3) yn adran 154 o Ddeddf 1998 (sy'n gwneud darpariaeth ynghylch sut y caniateir arfer gorchmynion a chyfarwyddydau o dan y Ddeddf) hefyd wedi eu hepgor, yn ogystal â chyfeiriadau at bwerau yn adran 136(4).

*Rhan 14 – Diwygio Atodlen 9 i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981*

181. Yn gyffredinol, rheolir rhywogaethau estron goresgynnol gan ddefnyddio pwerau o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 ('Deddf 1981'). Mae Atodlen 9 i Ddeddf 1981 yn rhestru rhywogaethau estron goresgynnol penodol o blanhigion ac anifeiliaid sydd wedi ymsefydlu yn y gwyllt ym Mhrydain Fawr, ond y mae'r gyfraith yn ceisio eu hatal rhag lledaenu ymhellach. Mae adran 14(1) o Ddeddf 1981 yn ei gwneud yn drosedd i ryddhau neu i ganiatáu i ddianc i'r gwyllt unrhyw anifail nad yw'n breswylydd fel arfer ym Mhrydain Fawr ac nad yw'n ymwelydd rheolaidd â Phrydain Fawr mewn cyflwr gwyllt, neu sydd wedi ei restru yn Rhan 1, 1A neu 1B o Atodlen 9 i Ddeddf 1981. Mae hefyd yn drosedd o dan adran 14(2) i blannu neu i beri tyfu fel arall yn y gwyllt unrhyw blanhigyn a restrir yn Rhan 2 o Atodlen 9 i Ddeddf 1981.

182. Mae pwerau ychwanegol ar gael o dan Reoliad Rhywogaethau Estron Goresgynnol 1143/2014 (y 'rheoliad a ddargedwir', h.y. fersiwn cyfraith yr UE a ddargedwir o Reoliad (EU) Rhif 1143/2014 Senedd Ewrop a'r Cyngor o 22 Hydref 2014 ar atal a rheoli cyflwyno a lledaenu rhywogaethau estron goresgynnol) a Gorchymyn Rhywogaethau Estron Goresgynnol (Gorfodi a Thrwyddedu) 2019 (O.S. 2019/527) ('Gorchymyn 2019') i helpu i reoli rhywogaethau goresgynnol yr ystyrir eu bod yn peri risg uwch (a elwir yn "rhywogaethau o bryder i'r Undeb" o dan Reoliad yr UE neu'n "rhywogaethau o bryder arbennig" o dan y rheoliad a ddargedwir).

183. Mae'r rheoliad a ddargedwir yn gosod cyfyngiadau llym ar unrhyw beth yn y rhestr o rywogaethau o bryder arbennig. Mae'r rhain yn rhywogaethau o anifeiliaid a phlanhigion y mae eu heffeithiau niweidiol posibl ledled Prydain Fawr yn golygu bod angen gweithredu ar y cyd. Mae'r cyfyngiadau ar y rhywogaethau hyn yn golygu na chaniateir yn fwriadol eu mewnforio, eu cadw, eu bridio, eu cludo, eu gwerthu na'u rhyddhau i'r amgylchedd. Mae Gorchymyn 2019 yn darparu ar gyfer y gyfundrefn orfodi ar gyfer y rheoliad a ddargedwir.

184. Cafodd rhai rhywogaethau estron goresgynnol a oedd yn cael eu rheoli gynt o dan Ddeddf 1981 eu dileu o Atodlen 9 yn 2019 i gael eu rheoleiddio o dan y Rheoliad Rhywogaethau Estron Goresgynnol. Roedd hyn at ddibenion cysondeb, gan sicrhau na fyddai troseddau tebyg yn gorgyffwrdd a chan leihau'r posibilrwydd o ddryswch ymhlith defnyddwyr y ddeddfwriaeth. Roedd Atodlen 4 i Orchymyn 2019 yn cynnwys darpariaeth i ddileu rhywogaethau o Atodlen 9 i Ddeddf 1981 sydd hefyd yn rhywogaethau o bryder arbennig. Cafodd y troseddau yn adran 14 o Ddeddf 1981

[52] Gweler Gorchymyn Awdurdod Tir Cymru (Diddymu) 1999 (O.S. 1999/372).

sy'n ymwneud â rhyddhau'r rhywogaethau hyn neu ganiatáu iddynt ddianc i'r gwyllt eu hailadrodd yng Ngorchymyn 2019 i sicrhau na fyddai llai o ddiogelwch.

185. Ym mis Gorffennaf 2019 diweddarodd Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2019/1262 y rhestr o rywogaethau o bryder i'r Undeb, gan gynnwys ychwanegu tair rhywogaeth sydd hefyd wedi eu rhestru yn Atodlen 9 i Ddeddf 1981 (sef llyngyren ledog Seland Newydd (*arthurdendyus triangulatus*, a elwir hefyd yn *artiposthia triangulata*), swilyn tagell-goch (*lepomis gibbosus*) a salfinia enfawr (*salvinia molesta*)).

186. Yn 2021 cyflwynodd Defra Orchymyn Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (Amrywio Atodlen 9) (Lloegr) 2021 (O.S. 2021/236) ('Gorchymyn 2021') i ddileu'r tair rhywogaeth hyn o Atodlen 9 i Ddeddf 1981 o ran Lloegr, fel eu bod ond yn cael eu rheoleiddio o dan y Rheoliad Rhywogaethau Estron Goresgynnol. Nid oes unrhyw ddarpariaeth dacluso debyg wedi ei gwneud o ran Cymru hyd yma, sy'n golygu bod y rhywogaethau hyn wedi eu rhestru yn Atodlen 9 i Ddeddf 1981 ac yn cael eu rheoleiddio gan y Rheoliad Rhywogaethau Estron Goresgynnol.

187. Mae paragraff 53 o'r Atodlen hon i'r Bil bellach yn diwygio Atodlen 9 i Ddeddf 1981 i ddileu'r tair rhywogaeth o ran Cymru.

*Rhan 15 – Hawliau tramwy cyhoeddus sydd heb eu cofnodi*

188. Cafodd Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 ('Deddf 2000') ei deddfu, yn rhannol, i wella mynediad cyhoeddus i gefn gwlad agored a thir comin cofrestredig wrth gydnabod buddiannau dilys y rhai sy'n berchen ar y tir o dan sylw ac yn ei reoli, gan gynnwys drwy ddiwygio'r gyfraith sy'n ymwneud â hawliau tramwy.

189. Nid yw adrannau 53 i 56 o Ddeddf 2000 erioed wedi eu cychwyn gan Weinidogion Cymru ac felly nid ydynt mewn grym o ran Cymru. Maent yn rhagnodi dyddiad terfynol (1 Ionawr 2026) ar gyfer cofnodi llwybrau troed a llwybrau ceffylau a grëwyd cyn 1949 (gyda rhai eithriadau) mewn mapiau diffiniol.[53] Mae'r darpariaethau'n darparu y byddai hawliau tramwy cyhoeddus dros lwybrau troed a llwybrau ceffylau o'r fath nad ydynt wedi eu cofnodi erbyn y dyddiad terfynol yn cael eu diddymu. Mae adran 56 o Ddeddf 2000 yn darparu y gellir estyn y dyddiad terfynol o ran Cymru drwy reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru. Nid oes unrhyw reoliadau o'r fath wedi eu gwneud gan Weinidogion Cymru gan nad yw adrannau 53 i 56 erioed wedi eu dwyn i rym.

190. Mae Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 ('Deddf 1981') yn ei gwneud yn ofynnol, ymhlith pethau eraill, i fapiau a datganiadau diffiniol gael eu hadolygu'n barhaus. Caiff yr awdurdod arolygu ar gyfer ardal wneud, drwy orchymyn, unrhyw addasiadau i fap a datganiad diffiniol y mae'n ystyried eu bod yn ofynnol. Pe bai paragraff 4 o Atodlen 5 i Ddeddf 2000 mewn grym byddai'n mewnosod adran newydd 54A yn Neddf 1981, a byddai'r adran honno'n atal awdurdod arolygu rhag gwneud gorchymyn ar ôl y dyddiad terfynol (1 Ionawr 2026) a fyddai'n addasu map a datganiad diffiniol at ddiben cofnodi cilffordd sy'n agored i bob traffig (a elwir yn

[53] Mae'n ofynnol i awdurdodau arolygu (ystyr hyn yng Nghymru yw'r 22 o gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol) lunio eu map(iau) a datganiad(au) diffiniol a'u hadolygu'n barhaus. Mae'r rhain yn ffurfio'r cofnod cyfreithiol o hawliau tramwy cyhoeddus yn eu hardal. Am ragor o wybodaeth am fapiau a datganiadau diffiniol gweler [Cyfoeth Naturiol Cymru / Map a Datganiad Diffiniol]

"BOAT"), ac eithrio pan fo'r BOAT wedi ei gofnodi yn lle unrhyw ffordd arall sydd eisoes wedi ei chofnodi yn y map a'r datganiad. Gan nad yw paragraff 4 o Atodlen 5 i Ddeddf 2000 wedi ei ddwyn i rym o ran Cymru, nid yw adran newydd 54A o Ddeddf 1981 mewn grym ychwaith. Felly nid oes dyddiad terfynol i awdurdodau arolygu i wneud gorchmynion ar gyfer cynnwys BOATau mewn mapiau a datganiadau diffiniol.

191. Ers 2001 mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithredu darpariaethau o dan Ddeddf 2000, ond mae darpariaethau penodol nad ydynt wedi eu gweithredu eto, yn enwedig y rhai nad ydynt yn berthnasol mwyach neu nad ydynt yn cael eu hystyried yn gydnaws â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer mynediad. Mae'r rhain yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn angenrheidiol mwyach neu sy'n ddwys o ran adnoddau ar gyfer awdurdodau lleol.

192. Mae paragraff 54 o'r Atodlen hon felly'n diwygio adrannau 53, 54, 55 a 56 o Ddeddf 2000, fel y bydd y darpariaethau hynny'n gymwys i dir yn Lloegr yn unig. Felly, ni fydd dyddiad terfynol erbyn pryd y mae rhaid cynnwys llwybrau troed hanesyddol a llwybrau ceffylau hanesyddol yng Nghymru mewn mapiau diffiniol, nac ar gyfer dileu hawliau tramwy penodol yng Nghymru nad ydynt wedi eu hawlio erbyn y dyddiad terfynol. Dyma'r sefyllfa bresennol yn y gyfraith (gan nad yw darpariaethau Deddf 2000 wedi eu cychwyn) ac mae'r newid a wneir gan y Bil hwn yn dileu'r posibilrwydd y bydd y sefyllfa bresennol yn newid heb wneud darpariaeth ddeddfwriaethol newydd.

193. Mae paragraff 55 o'r Atodlen hon yn diwygio paragraff 4 o Atodlen 5 i Ddeddf 2000, fel y byddai adran newydd 54A o Ddeddf 1981 (os caiff ei dwyn i rym) yn gymwys i dir yn Lloegr yn unig. Felly, ni fydd dyddiad terfynol erbyn pryd y mae rhaid cynnwys BOATau yng Nghymru mewn mapiau a datganiadau diffiniol.

*Rhan 16 – Diwygiadau amrywiol sy'n ymwneud â Deddf Llywodraeth Cymru 1998*

194. Darparodd Deddf 1998 ar gyfer sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn wahanol i'r trefniadau datganoli a roddwyd ar waith ar yr un pryd yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, nid oedd Deddf 1998 yn darparu ar gyfer gwahanu'r ddeddfwrfa a'r weithrediaeth. Yn hytrach, sefydlwyd y Cynulliad Cenedlaethol fel un corff corfforedig, a oedd yn arfer ei swyddogaethau ar ran y Goron. Golygai hyn mai un sefydliad, y Cynulliad Cenedlaethol, oedd yn gyfrifol am gyflawni swyddogaethau deddfwriaethol a gweithredol.

195. Ysgwyddodd y Cynulliad y pwerau a'r dyletswyddau statudol yr oedd Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi eu harfer yn y gorffennol. Gwnaed darpariaeth i Orchmynion yn y Cyfrin Gyngor drosglwyddo'r cyfrifoldebau gweithredol hyn gan fwyaf i'r Cynulliad a rhoddodd Deddfau Seneddol dilynol bwerau ychwanegol i'r Cynulliad.

196. Ni allai'r Cynulliad ond gwneud is-ddeddfwriaeth, fel gorchmynion a rheoliadau, mewn meysydd datganoledig. Ni allai wneud deddfwriaeth sylfaenol i Gymru. Senedd y DU oedd yn gyfrifol am hynny o hyd mewn meysydd datganoledig a meysydd a gadwyd yn ôl.

197. Ym mis Mehefin 2005, cyhoeddodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru Bapur Gwyn, *Trefn Lywodraethu Well i Gymru*,[54] a oedd yn cynnwys cynigion i wahanu'n ffurfiol ganghennau gweithredol a deddfwriaethol y Cynulliad, diwygio'r trefniadau etholiadol presennol a chynyddu pwerau deddfu'r Cynulliad. Rhoddodd Deddf 2006 effaith i'r amcanion polisi eang yng nghynigion y Papur Gwyn. Er iddi ddiddymu'r rhan fwyaf o Ddeddf 1998, roedd darpariaethau penodol yn parhau i fod mewn grym.

198. Fel y nodir mewn mannau eraill yn y Nodiadau Esboniadol hyn, mae'r Bil yn gwneud nifer o newidiadau i'r darpariaethau sy'n weddill o Ddeddf 1998. Mae Rhan 16 o'r Bil hefyd yn gwneud nifer o ddiwygiadau amrywiol i Ddeddf 1998 i ddileu cyfeiriadau at gyrff darfodedig, dileu darpariaethau trosiannol a ddisbyddwyd, diweddaru cyfeiriadau penodol at gyrff eraill a dileu diwygiadau penodol a wnaed gan Ddeddf 1998 i ddeddfiadau eraill gan nad oes angen y rhain mwyach o ganlyniad i ddiddymiadau ac amnewidiadau gan Ddeddfau diweddarach. Yn benodol:

a. Diwygio cyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru:
   i. mae adran 28 o Ddeddf 1998 yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i orchymyn trosglwyddo un neu ragor o'r swyddogaethau sydd gan gyrff a restrir yn Atodlen 4 i Ddeddf 1998. Mae adran 28 wedi ei diwygio felly i ddileu cyfeiriad at Ran 2 o Atodlen 4, oherwydd y darparwyd ar gyfer pwyllgorau cynghori i Gymru gan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977, a ddiddymwyd o 1 Mawrth 2007 ymlaen. Mae Rhan 2 o Atodlen 4 ei hun hefyd wedi ei hepgor, a hynny am yr un rheswm.
   ii. Mae Rhan 1 o Atodlen 4 i Ddeddf 1998 wedi ei diwygio i hepgor cyrff cyhoeddus nad ydynt yn bodoli mwyach neu, yn achos y cyfeiriad at Gyngor Gofal Cymru, i adlewyrchu enw newydd y corff hwnnw, sef Gofal Cymdeithasol Cymru.[55]

b. Mae Atodlen 10 i Ddeddf 1998 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Ddeddf Comisiynwyr y Gwasanaeth Iechyd 1993. Mae'r rhan fwyaf o'r diwygiadau hyn wedi eu disodli, a bydd y Bil yn eu hepgor.

c. Mae Atodlen 12 i Ddeddf 1998 yn ymdrin â mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004:
   i. mae'r diwygiad i baragraff 17 gan y Bil yn hepgor darpariaeth sy'n diwygio Deddf Llywodraeth Leol 1974 oherwydd bod y ddarpariaeth ddiwygiedig yn y Ddeddf honno wedi ei diddymu gan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005;
   ii. cafodd y geiriau a fewnosodwyd gan baragraff 22 yn adran 134(3) o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 eu hamnewid gan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005, ac felly mae paragraffau 21 a 22 wedi eu hepgor;

[54] Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/better-governance-for-wales.
[55] Mae adran 67(1) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn darparu bod adran 54 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 wedi ei diddymu. Mae adran 67(2) yn darparu bod y corff corfforedig o'r enw Cyngor Gofal Cymru (a sefydlwyd gan adran 54) i barhau mewn bodolaeth; mae adran 67(3) yn darparu ei fod i'w ailenwi ac mai ei enw fydd Gofal Cymdeithasol Cymru.

iii. yn yr un modd, cafodd y geiriau a fewnosodwyd gan baragraff 36(b) eu hamnewid gan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 a gellir yn awr eu hepgor.

d. Mae Atodlen 16 i Ddeddf 1998 yn ymdrin â diwygiadau sy'n codi o ganlyniad i ddiddymu Tai Cymru. Mae'r Bil yn hepgor:
   i. paragraff 1 gan ei fod yn diwygio Deddf Cymdeithasau Cyfeillgar a Diwydiannol a Darbodus 1968 a ddiddymwyd gan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014;
   ii. paragraff 12 gan ei fod yn diwygio adran 157(4) o Ddeddf Tai 1985 ond hepgorwyd yr is-adran hon yn rhinwedd Deddf Tai 2004;
   iii. paragraffau 56 a 57 gan eu bod yn diwygio Deddf Treth Incwm a Threth Gorfforaeth 1988. Diddymwyd darpariaethau perthnasol Deddf 1988 gan Ddeddf Treth Gorfforaeth 2010;
   iv. paragraff 68 gan ei fod yn diwygio Deddf Tai 1988 ond hepgorwyd y ddarpariaeth berthnasol gan Ddeddf Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) 2018;
   v. paragraff 84 gan ei fod yn diwygio adran 9 o Ddeddf Tai 1996 ond amnewidiwyd yr adran honno gan Ddeddf Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) 2018;
   vi. paragraff 96 gan ei fod yn diwygio darpariaethau amrywiol yn Atodlen 1 i Ddeddf Tai 1996, sydd ers hynny wedi eu hamnewid neu eu diddymu;
   vii. paragraffau 98 i 100 gan eu bod yn diwygio Deddf y Comisiwn Archwilio 1998. Diddymwyd y Ddeddf honno gan Ddeddf Archwilio ac Atebolrwydd Lleol 2014.

199. Mae paragraff 57 o'r Atodlen hon i'r Bil hefyd yn diddymu paragraffau penodol yn Atodlen 10 i Ddeddf 2006. Roedd y paragraffau hynny'n diwygio Deddf 1998 i ddarparu ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau penodol mewn perthynas â choedwigaeth a'r amgylchedd o'r Cynulliad Cenedlaethol (fel yr oedd ar y pryd) i Weinidogion Cymru. Daeth y swyddogaethau hynny i ben pan gafodd Corff Adnoddau Naturiol Cymru ei greu, a diddymwyd darpariaethau sylfaenol Deddf 1998.[56] Felly mae'r darpariaethau sy'n cael eu hepgor gan y Bil wedi eu disbyddu.

*Rhan 17 – Darpariaeth drosiannol mewn perthynas â Deddf Llywodraeth Cymru 2006*

200. O dan Ddeddf 2006, trosglwyddwyd pwerau a swyddogaethau'r Cynulliad, gan gynnwys y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth, i Weinidogion Cymru, a ddaeth yn atebol i'r Cynulliad.

201. Creodd Deddf 2006 system ar gyfer rhoi'r gallu i'r Cynulliad i basio Mesurau Cynulliad mewn 20 o feysydd diffiniedig drwy Orchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol, yr oedd angen cydsyniad dau Dŷ Senedd y DU ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar eu cyfer.

202. Rhoddodd hefyd y pŵer i'r Cynulliad i wneud Deddfau, yn amodol ar refferendwm. Cynhaliwyd y refferendwm hwn yn 2011 ac, yn dilyn canlyniad cadarnhaol i'r

[56] Gweler Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013 (O.S. 2013/755) a Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Darpariaeth Ganlyniadol) 2013 (O.S. 2013/1821).

refferendwm, ysgwyddodd y Cynulliad bwerau newydd i basio deddfwriaeth sylfaenol (Deddfau gan y Cynulliad Cenedlaethol) heb fod angen cydsyniad Senedd y DU mewn meysydd penodedig.

203. Trosglwyddodd Deddf Cymru 2014 bwerau pellach i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a gwnaeth Deddf Cymru 2017 wedi hynny newidiadau pellach i Ddeddf 2006 a Deddf Cymru 2014, yn benodol newid o fodel "rhoi pwerau" i fodel "cadw pwerau" ar gyfer datganoli yng Nghymru. Ar 6 Mai 2020 daeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn "Senedd Cymru" neu "Llywodraeth Cymru" yn sgil newidiadau a gyflwynwyd gan adran 2 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020.

204. Yn ogystal â'r diwygiadau i Ddeddf 2006 sydd eisoes wedi eu nodi yn y Nodiadau Esboniadol hyn, mae Rhan 16 o'r Atodlen hon i'r Bil yn gwneud newidiadau i Atodlen 11 i Ddeddf 2006. Mae Atodlen 11 yn cynnwys darpariaethau trosiannol i ymdrin â throsglwyddo ym mis Mai 2007, pan gynhaliwyd etholiad cyntaf y Cynulliad ar ôl Deddf 2006, o'r gyfundrefn gyfreithiol a llywodraethol a grëwyd gan Ddeddf 1998 i'r gyfundrefn a nodwyd yn Neddf 2006. Mae'n nodi darpariaethau manwl sy'n ymdrin â'r trefniadau angenrheidiol i sicrhau trosi effeithiol. Gan fod y trosi wedi digwydd nid oes angen llawer o'r darpariaethau hynny mwyach, a bydd y Bil yn dileu'r rhain o'r llyfr statud.

205. Mae'r diwygiadau i Atodlen 11 yn diwygio:

a. Paragraffau 3 i 7 (sy'n ymdrin ag etholiadau) –
   i. mae paragraff 3 yn darparu i ddyddiad cyfarfod cyntaf y Cynulliad Cenedlaethol a ddychwelir ar ôl etholiad 2007 gael ei osod drwy orchymyn a wneir gan yr 'hen Gynulliad' (a oedd wedi ei gyfansoddi o dan Ddeddf 1998). Mae hyn wedi ei ddisbyddu yn awr bod y cyfarfod cyntaf ar ôl etholiad 2007 wedi ei gynnal;
   ii. mae paragraff 4 yn darparu i ddyddiad etholiad cyffredinol cyffredin cyntaf Cymru a gynhelir ar ôl 2007 gael ei gyfrifo drwy gyfeirio at etholiad 2007, a gafodd yr effaith o sicrhau y byddai'r etholiad cyffredinol nesaf yn cael ei gynnal yn 2011. Mae hyn wedi ei ddisbyddu yn awr bod etholiad 2011 wedi ei gynnal;
   iii. mae paragraffau 5 a 6 wedi eu disbyddu hefyd gan eu bod yn diwygio adrannau 5 a 7 o Ddeddf 1998, a gafodd ill dwy eu diddymu gan Atodlen 12 i Ddeddf 2006;
   iv. mae paragraff 7 wedi ei ddisbyddu gan ei fod yn addasu adran 11 o Ddeddf 2006 tan yr etholiad cyffredinol cyntaf a chan ei fod yn ymwneud ag is-etholiadau'r Senedd cyn etholiad 2011.

b. Paragraff 9, a oedd yn gwneud darpariaeth drosiannol ynghylch cyfnod swydd Aelodau'r Cynulliad a ddychwelwyd yn etholiad 2007 ac sydd felly bellach wedi ei ddisbyddu.

c. Paragraff 11, sy'n anghymwyso Arglwydd Apêl Sefydlog rhag bod yn aelod o'r Senedd. Barnwyr oedd Arglwyddi Apêl Sefydlog, neu Arglwyddi'r Gyfraith, a benodid o dan Ddeddf Awdurdodaeth Apeliadau 1876, sydd bellach wedi ei diddymu, i Bwyllgor Apeliadol Tŷ'r Arglwyddi. Roeddent yn arfer swyddogaethau barnwrol Tŷ'r Arglwyddi, a oedd yn cynnwys gweithredu fel y llys apêl uchaf ar gyfer y mwyafrif o faterion domestig.

Collodd Tŷ'r Arglwyddi ei swyddogaethau barnwrol pan sefydlwyd Goruchaf Lys y Deyrnas Unedig ym mis Hydref 2009. Daeth Arglwyddi Apêl Sefydlog a oedd yn eu swyddi ar y pryd yn farnwyr Goruchaf Lys y Deyrnas Unedig yn awtomatig.[57] Mae adran 16 o Ddeddf 2006 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020) yn anghymhwyso'r deiliaid swyddi a nodir yn y tabl yn Rhan 2 o Atodlen 1A i Ddeddf 2006 rhag bod yn Aelod o'r Senedd a rhag bod yn ymgeisydd i fod yn Aelod o'r Senedd. Mae'r rhain yn cynnwys deiliaid swyddi barnwrol penodol gan gynnwys Ustusiaid y Goruchaf Lys. Felly, nid oes angen paragraff 11 mwyach.

d. Paragraffau 14 i 19 – mae'r rhain yn ddarpariaethau a ddisbyddwyd sy'n ymwneud â threfniadau ar ôl etholiad cyffredinol 2007 y Cynulliad Cenedlaethol, a'r "cyfnod cychwynnol", hynny yw, y cyfnod sy'n dechrau ar ddechrau diwrnod pleidleisio 2007 (pan fyddai pob aelod o'r Cynulliad presennol, gan gynnwys Gweinidogion y Cynulliad, fel arfer yn peidio â gallu arfer y swyddogaethau hynny) ac sy'n gorffen pan benodir Prif Weinidog.
    i. Roedd paragraff 14 yn sicrhau bod y Cynulliad (a gyfansoddwyd o dan Ddeddf 2006) yn gyfrifol am gyhoeddi gwybodaeth am gydnabyddiaeth ariannol aelodau'r Cynulliad mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2006-07 (h.y. yn ymwneud â blwyddyn olaf yr 'hen Gynulliad' a'i aelodau).
    ii. Roedd paragraff 15 yn sicrhau bod penderfyniad a wnaed o dan adran 34A o Ddeddf 1998, a oedd mewn grym yn union cyn diddymu'r adran honno, yn parhau i gael effaith mewn perthynas â'r Cynulliad.
    iii. Roedd paragraff 16 yn sicrhau bod cynnal etholiad 2007 yn sbarduno dyletswydd y Cynulliad i ethol Llywydd a Dirprwy Lywydd.
    iv. Roedd paragraff 17 yn sicrhau bod y person a oedd yn Glerc yr 'hen' Gynulliad yn dod yn Glerc y Cynulliad at ddiben swyddogaethau o dan Ddeddf 2006.
    v. Roedd paragraff 18 yn darparu bod paragraffau 5 a 6 o Atodlen 2 (sy'n awdurdodi Comisiwn y Cynulliad i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r system etholiadol a'r llywodraeth ddatganoledig naill ai'n uniongyrchol neu drwy gymorth ariannol i'r Comisiwn Etholiadol) yn cael effaith hyd ddiwedd y cyfnod cychwynnol fel pe bai'r cyfeiriad at Gomisiwn y Cynulliad yn gyfeiriad at yr 'hen Gynulliad'.
    vi. Roedd paragraff 19 yn sicrhau, hyd ddiwedd y cyfnod cychwynnol, pe bai Ei Mawrhydi yn gwneud Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor o dan baragraff 12(1) o Atodlen 2 yn darparu i Gomisiwn y Cynulliad gael ei drin fel corff y Goron at ddibenion deddfiad, na chaniateir annilysu'r offeryn statudol sy'n cynnwys y Gorchymyn ond gan y naill neu'r llall o ddau Dŷ Senedd y DU.

e. Paragraffau 22 i 25, a oedd yn sicrhau y gallai swyddogaethau llywodraethol yr 'hen Gynulliad' barhau i gael eu harfer yn ystod y cyfnod cychwynnol. Maent wedi eu disbyddu gan eu bod yn gwneud darpariaeth ynghylch aelodaeth a swyddogaethau'r Cynulliad a gyfansoddwyd gan Ddeddf 1998 yn ystod y cyfnod cychwynnol, a ddaeth i ben ar 25 Mai 2007.

---

[57] Gweler adran 24 o Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005.

f. Paragraff 28(1) a oedd yn darparu ar gyfer parhad pwerau a roddwyd i'r 'hen Gynulliad' i weithredu darnau penodol o ddeddfwriaeth Ewropeaidd. Nid oes ei angen mwyach oherwydd Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

g. Paragraff 29 sy'n cyfeirio at yr enwebiad cyntaf ar gyfer Prif Weinidog mewn cysylltiad â'r tymor Cynulliad ar ôl cynnal y bleidlais yn etholiad 2007. Mae'r ddarpariaeth hon bellach wedi ei disbyddu.

h. Paragraffau 35(3) a 35(4), sy'n ymdrin â gweithdrefnau ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth. Maent wedi eu diwygio i ddileu cyfeiriadau at bwerau i wneud is-ddeddfwriaeth sydd wedi eu diddymu.

i. Paragraffau 50 a 51, sy'n ymdrin â'r broses ar gyfer gwneud Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol. Mae'r pŵer i wneud Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol wedi ei ddiddymu.

j. Paragraffau 53, 53A a 53B, sy'n ddarpariaethau a ddisbyddwyd sy'n ymwneud â thaliadau i Gronfa Gyfunol Cymru.

k. Paragraffau 54, 55, 56, 58, 59, 62 a 63, sy'n cynnwys addasiadau sy'n gymwys tan ddiwedd y cyfnod cychwynnol yn unig. Daeth y cyfnod hwnnw i ben ar 27 Mai 2007.

l. Paragraffau 60 a 61, sy'n addasu darpariaethau o ran eu cymhwyso ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2007 yn unig. Maent felly wedi eu disbyddu.

m. Paragraffau 64, 64B, 64C, 64F a 64G, sy'n ddarpariaethau am gyfnod penodol yn ymwneud ag Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac sydd wedi eu disbyddu.

n. Paragraff 65 sy'n gwneud darpariaeth angenrheidiol ar gyfer y cyfnod cyn i adran 27(1) o Ddeddf Cyfiawnder (Gogledd Iwerddon) 2002 ddod i rym. Mae wedi ei ddisbyddu gan fod adran 27 o'r Ddeddf honno wedi dod i rym ar 12 Ebrill 2010.

o. Paragraffau 66 a 67 sy'n gwneud darpariaeth angenrheidiol ar gyfer y cyfnod cyn i adran 23(1) o Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005 ddod i rym. Maent wedi eu disbyddu gan fod adran 23(1) o'r Ddeddf honno wedi dod i rym ar 1 Hydref 2009.

206. Mae'r Bil hefyd yn diddymu paragraff 10 o Atodlen 3 i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Darpariaethau Canlyniadol) 2006 gan nad oedd ond yn gymwys yn ystod y cyfnod cychwynnol, o fewn ystyr "the initial period" yn Neddf 2006, a ddaeth i ben ar 25 Mai 2007. Mae'r ddarpariaeth wedi ei disbyddu gan fod y cyfnod cychwynnol wedi dod i ben.

207. O ganlyniad i'r diwygiadau a wnaed i Dabl 2 ym mharagraff 35 o Atodlen 11, mae'r Bil hefyd yn diddymu paragraff (c) o baragraff 22 o'r Atodlen i Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009.

*Rhan 18 – Deddf Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021*

208. Cafodd Deddf Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021 ('Deddf 2021') ei deddfu i ddarparu y byddai mesurau'n ymwneud â diogelu yn erbyn y coronafeirws yn gymwys i etholiadau Senedd Cymru a'r etholiadau llywodraeth leol a oedd i'w cynnal yn 2021.

209. Roedd Deddf 2021 yn gwneud darpariaeth a oedd yn ei gwneud yn bosibl gohirio etholiad cyffredinol Senedd Cymru a drefnwyd ar gyfer 6 Mai 2021. Dim ond drwy gynnig gan y Prif Weinidog yn nodi ei fod o'r farn bod gohirio'r etholiad yn angenrheidiol neu'n hwylus am resymau'n ymwneud â'r coronafeirws y byddai modd ysgogi'r weithdrefn ar gyfer gohirio. Wedi hynny, byddai'r cynnig yn ddarostyngedig i wahanol brosesau cyn iddo gael ei wrthod neu ei gymeradwyo gan y Senedd. Ni chafodd y pwerau hyn eu harfer, a chynhaliwyd yr etholiad cyffredinol, fel y trefnwyd ar 6 Mai 2021.

210. Roedd Deddf 2021 hefyd yn gwneud darpariaeth a oedd yn ei gwneud yn bosibl gohirio, hyd at 5 Tachwedd 2021 (ond heb fod yn hwyrach na'r dyddiad hwn), is-etholiadau'r Senedd neu lywodraeth leol ar gyfer swyddi gwag a allai fod wedi codi. Ni chafodd y pwerau hynny eu harfer, ac ni chafodd unrhyw is-etholiadau eu gohirio o dan y Ddeddf.

211. Nid oedd Deddf 2021 ond yn gymwys i'r etholiad cyffredinol cyffredin a gynhaliwyd yn 2021, ac nid yw'n berthnasol i unrhyw etholiadau wedi hynny i Senedd Cymru. Ymhellach i hyn, nid yw'r Ddeddf yn caniatáu gohirio is-etholiadau y tu hwnt i 5 Tachwedd 2021. Felly, mae'r Ddeddf bellach wedi ei disbyddu yn llwyr.

212. Felly, mae paragraff 60 o'r Atodlen hon i'r Bil yn diddymu Deddf 2021 yn llawn.

*Rhan 19 – Cyllid Llywodraeth Leol*

213. Mae Rhan 2 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024 ('Deddf 2024') yn gwneud diwygiadau i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ('Deddf 1992') mewn perthynas â'r dreth gyngor.

214. Fel y'i cyflwynwyd yn wreiddiol yn y Senedd roedd y Bil (sef Ddeddf 2024 erbyn hyn) yn ceisio, yn adran 20 ddrafft, newid y trefniadau yn adrannau 12A, 12B a 38 o Ddeddf 1992 ar gyfer cyhoeddi hysbysiadau gan awdurdodau bilio'r dreth gyngor. Mae Deddf 1992 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau bilio gyhoeddi hysbysiadau sy'n ymwneud â lefelau'r dreth gyngor neu bremiymau'r dreth gyngor mewn papurau newydd. Roedd adran 20 o'r Bil yn cynnig rhoi, yn lle'r gofynion hynny, ofyniad i gyhoeddi'r un wybodaeth yn electronig ac i wneud trefniadau eraill addas am fynediad i unigolion nad ydynt yn gallu manteisio ar wybodaeth ar-lein.

215. Nid oedd y Senedd yn cytuno ag adran 20 ddrafft, ac yn nhrafodion Cyfnod 3, pleidleisiodd i ddileu'r adran ddrafft honno o'r Bil.

216. Roedd adran 16 ddrafft o'r Bil yn rhoi trosolwg o Ran 2, ac yn is-adran (8) roedd yn cynnwys trosolwg o adran 20 ddrafft. Pan hepgorodd y Senedd adran 20 ddrafft, ni wnaed diwygiad canlyniadol i ddileu adran 16(8) ddrafft. O'r herwydd mae adran 16(8) o Ddeddf 2024 yn parhau i gyfeirio at ddarpariaeth nad yw yn y Ddeddf ac at ddiwygiadau a wneir i Ddeddf 1992. Mae hyn yn ddiangen ac nid yw o fudd i ddarllenydd Deddf 2024 nac, yn ehangach, yn helpu i sicrhau bod y gyfraith yn glir.

217. Mae paragraff 61 o'r Atodlen hon i'r Bil bellach yn hepgor adran 16(8) o Ddeddf 2024 ac yn ailrifo is-adran (9) yn is-adran (8) er mwyn osgoi dryswch pellach i ddarllenydd Deddf 2024.

## RHAN 4 – CYFFREDINOL

### Adran 5 – Mân ddiwygiadau i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019

### Atodlen 2 – Mân ddiwygiadau i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019

218. Mae Atodlen 2, a gyflwynir gan adran 5, yn cynnwys mân ddiwygiadau i Ran 2 o Ddeddf 2019.

219. Mae Rhan 2 o Ddeddf 2019 yn gwneud darpariaeth ynghylch dehongli a gweithredu deddfwriaeth a wneir gan y Senedd neu o dan bwerau a roddir ganddi, ac is-ddeddfwriaeth arall a wneir gan Weinidogion Cymru ac awdurdodau Cymreig datganoledig eraill.

220. Mae paragraff 2 o'r Atodlen hon yn diwygio adran 3 o Ddeddf 2019. Mae adran 3 yn nodi'r ddeddfwriaeth y mae Rhan 2 o Ddeddf 2019 yn gymwys iddi, sef, y Ddeddf ei hun a Deddfau Senedd Cymru a ddeddfir ac is-offerynnau Cymreig a wneir ar ôl 1 Ionawr 2020. Mae'r diwygiadau a wneir i adran 3 yn ei gwneud yn glir bod Rhan 2 yn gymwys i'r is-ddeddfwriaeth mewn is-offeryn Cymreig (sy'n adlewyrchu'r dull a fabwysiedir yn Rhannau 2A a 2B newydd o Ddeddf 2019).

221. Mae paragraff 3 o'r Atodlen hon yn mewnosod adran 12A newydd (Ystyr cyfeiriadau at osod dogfennau gerbron Senedd Cymru) yn Rhan 2 o Ddeddf 2019. Y cam cyntaf mewn rheolaeth seneddol yw'r gofyniad i osod dogfen gerbron senedd (yng Nghymru, mae hyn yn golygu gosod dogfen gerbron Senedd Cymru). Y Senedd sy'n cael penderfynu'r hyn y mae gosod yn ei olygu, ac mae rheolau a gweithdrefnau'r Senedd wedi eu nodi yn ei Rheolau Sefydlog. O'r herwydd mae adran 12A newydd yn ei gwneud yn glir, pan fo Deddf gan Senedd Cymru neu is-offeryn Cymreig yn ei gwneud yn ofynnol gosod dogfen gerbron y Senedd, yna mae hynny'n golygu cymryd y camau a bennir yn Rheolau Sefydlog y Senedd mewn perthynas â gosod dogfennau (gweler, er enghraifft, Reol Sefydlog 15).

222. Mae adran 16 o Ddeddf 2019 yn darparu y caniateir, mewn amgylchiadau penodol, arfer pwerau a dyletswyddau o dan ddarpariaethau Deddfau Senedd Cymru ac is-offerynnau Cymreig cyn i'r darpariaethau hynny ddod i rym. Mae paragraff 4 o'r Atodlen hon i'r Bil yn diwygio adran 16 mewn dwy ffordd:

   a. yn gyntaf, i fynd i'r afael ag anhawster ymarferol sydd wedi deillio o effaith adran 16(1)(a) bresennol, sy'n eithrio o gwmpas yr adran bwerau a dyletswyddau os yw'r darpariaethau sy'n eu rhoi neu'n eu gosod i gael eu dwyn i rym drwy orchymyn neu reoliadau. Mae hyn yn golygu bod rhaid cychwyn darpariaethau ar wahân at ddibenion gallu gwneud is-ddeddfwriaeth cyn y daw'r darpariaethau i rym at ddibenion eraill, gan arwain at wneud nifer o orchmynion cychwyn sy'n gallu bod yn gymhleth. Mae is-adran (1)(a) newydd yn mynd i'r afael â hyn ac yn estyn adran 16 i gwmpasu'r holl bwerau sydd i'w dwyn i rym drwy orchymyn neu reoliadau, nid yn unig y pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth. At hynny, mae is-adran (3A)

newydd yn sicrhau y gellir gwneud is-ddeddfwriaeth cyn y daw'r pŵer i wneud yr is-ddeddfwriaeth i rym cyhyd â naill ai:

i. na ddaw'r is-ddeddfwriaeth i rym cyn bod y pŵer ei hun mewn grym, neu
ii. os daw'r is-ddeddfwriaeth i rym cyn y pŵer, ei bod yn angenrheidiol neu'n hwylus iddi wneud hynny at ddiben rhoi effaith lawn i'r Ddeddf (neu ddarpariaeth yn y Ddeddf) pan ddaw i rym.

b. yn ail, i sicrhau nad oes dim amheuaeth bod adran 16 yn awdurdodi arfer pŵer neu ddyletswydd ymlaen llaw pan fo Deddf ddiwygio neu is-offeryn diwygio yn mewnosod y pŵer neu'r ddyletswydd mewn deddfiad arall, ac i'w gwneud yn glir mewn achos o'r fath fod y dibenion a'r darpariaethau eraill sy'n berthnasol i'r pŵer neu'r ddyletswydd yn cynnwys rhai'r Ddeddf ddiwygio neu'r offeryn diwygio yn ogystal â rhai'r deddfiad sy'n cael ei ddiwygio (is-adrannau newydd (6) a (7)).

223. Mae paragraffau 5 i 7 o'r Atodlen hon i'r Bil yn dwyn "Mesurau gan Eglwys Loegr" o fewn ystyr "deddfiad" at ddibenion adrannau 21, 25 a 32 i 35 o Ddeddf 2019. Deddfwriaeth yw Mesurau gan Eglwys Loegr (sef Mesurau gan Gynulliad Eglwys Loegr neu gan Synod Cyffredinol Eglwys Loegr), sy'n ymwneud â gweinyddiaeth a threfniant Eglwys Loegr. Maent yn cael yr un effaith â Deddf gan Senedd y DU a chânt hefyd roi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth (gweler Deddf Cynulliad Eglwys Loegr (Pwerau) 1919 (p. 76)). Ni chaiff yr Eglwys yng Nghymru wneud deddfwriaeth o'r math hwn, ond weithiau mae Mesurau gan Eglwys Loegr yn berthnasol i ran o Gymru, yn enwedig am fod 18 o blwyfi Eglwys Loegr y mae rhan ohonynt yng Nghymru. Felly gall fod angen i Ddeddfau Senedd Cymru neu is-offerynnau Cymreig gyfeirio at Fesurau gan Eglwys Loegr neu eu diwygio. Mae'r diwygiadau i Ddeddf 2019 ym mharagraffau 5 i 7 yn sicrhau bod cyfeiriadau at Fesurau gan Eglwys Loegr a diwygiadau iddynt yn cael yr un effaith â chyfeiriadau at ddeddfiadau eraill a diwygiadau iddynt.

224. Mae paragraff 8 o'r Atodlen hon yn diwygio adran 35 o Ddeddf 2019. Mae adran 35(3) yn darparu bod is-ddeddfwriaeth a wneir o dan ddarpariaethau sydd wedi eu diddymu a'u hailddeddfu (er enghraifft wrth gydgrynhoi'r gyfraith) i gael effaith fel pe bai wedi ei gwneud o dan y darpariaethau a ailddeddfwyd. Mae adran 28 yn creu'r sefyllfa ddiofyn bod is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Ddeddf gan Senedd Cymru yn rhwymo'r Goron i'r graddau y mae'r Ddeddf yn ei galluogi i wneud hynny, sy'n wahanol i'r sefyllfa ddiofyn ar gyfer is-ddeddfwriaeth nad yw Rhan 2 o Ddeddf 2019 yn gymwys iddi. Nod y diwygiad ym mharagraff 6 yw ymdrin â'r sefyllfa pan fo is-ddeddfwriaeth nad oedd adran 28 yn gymwys iddi yn wreiddiol yn cael effaith bellach o dan adran 35(3) fel pe bai wedi ei gwneud o dan Ddeddf gan Senedd Cymru. Mae'n ei gwneud yn glir nad yw adran 35(3) yn golygu bod adran 28 yn gymwys i is-ddeddfwriaeth nad oedd yn gymwys iddi yn flaenorol (a allai newid pa un a yw'r is-ddeddfwriaeth yn rhwymo'r Goron).

225. Yn olaf, mae paragraff 9 o'r Atodlen hon yn diwygio adran 36 o Ddeddf 2019. Effaith adran 36 yw sicrhau bod cyfeiriadau at Ddeddf yn ôl ei henw byr yn parhau'n ddilys, hyd yn oed ar ôl i'r Ddeddf gael ei diddymu. Mae is-adran (2) newydd yn gwneud darpariaeth gyfatebol yn sicrhau bod cyfeiriadau at is-offerynnau Cymreig yn ôl eu henwau yn parhau'n ddilys, hyd yn oed pan fydd yr offerynnau hynny wedi eu dirymu.

**Adran 6 – Diwygiadau canlyniadol**
**Atodlen 3 – Diwygiadau canlyniadol**

226. Mae Atodlen 3 yn cynnwys diwygiadau amrywiol i ddeddfiadau presennol sy'n angenrheidiol o ganlyniad i Rannau 2A a 2B newydd o Ddeddf 2019. Mae hyn yn cynnwys mân ddiwygiadau pellach i Ddeddf 2019 ei hun.

**Adran 7 – Dod i rym**

227. Mae adran 7 yn gwneud darpariaeth ynghylch pryd a sut y daw'r Bil i rym.

228. Mae'r adran hon yn darparu i adrannau 2, 4 a 5, ynghyd ag Atodlenni 1 a 2, ddod i rym ddeufis ar ôl y Cydsyniad Brenhinol. Fodd bynnag, mae hyn yn ddarostyngedig i adran 7(3). Mae paragraff 22(2) o Atodlen 1 i'r Bil hwn yn diwygio adran 1(1) o Ddeddf Cynllunio ac Ynni 2008, sydd hefyd wedi ei diwygio gan baragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyniant Bro ac Adfywio 2023, nad yw mewn grym eto.[58] Ni fydd angen y diwygiad i adran 1(1) ym mharagraff 22(2)(a)(i) o Atodlen 1 i'r Bil hwn ond pan fydd diwygiad Deddf 2023 mewn grym. Felly, er mwyn i'r ddeddfwriaeth weithio'n gywir, mae adran 7(3) o'r Bil hwn yn darparu na fydd y diwygiad a wneir gan baragraff 22(2)(a)(i) ond yn dod i rym gyda gweddill Atodlen 1 os yw diwygiad Deddf 2023 eisoes mewn grym bryd hynny. Fel arall, daw'r diwygiad a wneir gan y Bil i rym ar yr un pryd â diwygiad Deddf 2023.

229. Daw yr adran hon (adran 7) ac adran 8 i rym drannoeth y diwrnod y caiff y Bil y Cydsyniad Brenhinol.

230. Caiff y darpariaethau sy'n weddill yn Bil eu dwyn i rym drwy un neu ragor o orchmynion sydd i'w gwneud gan Weinidogion Cymru. Disgwylir y bydd y gorchymyn yn dwyn Rhannau 1 a 2 i rym yn llawn ar ddechrau blwyddyn galendr, fel bod modd canfod o'r flwyddyn sydd wedi ei chynnwys yn enw offeryn pa un a yw'n offeryn statudol Cymreig sydd wedi ei wneud yn unol â Rhan 2A o Ddeddf 2019 (a bod y gofynion rhifo a chyhoeddi yn Rhan 2B o Ddeddf 2019 yn gymwys iddo), ai'n offeryn statudol y mae Deddf 1946 yn gymwys iddo. Bydd hefyd yn sicrhau nad oes blwyddyn pan fydd dwy gyfres wahanol o offerynnau sydd wedi eu gwneud gan Weinidogion Cymru (offerynnau statudol sy'n rhan o'r gyfres o offerynnau statudol y DU, ac offerynnau statudol Cymreig sy'n rhan o'r gyfres o offerynnau statudol Cymreig). Felly bydd y gyfres gyntaf a chyfresi dilynol o offerynnau statudol Cymreig yn dechrau ar ddechrau blwyddyn galendr ac yn cynnwys blynyddoedd llawn.

**Adran 8 – Enw byr**

231. Mae adran 8 yn nodi enw byr y Bil, y gellir ei ddefnyddio wrth enwi'r Bil ac wrth gyfeirio ato. Caniateir defnyddio naill ai enw Cymraeg neu enw Saesneg y Bil, gan gynnwys fel cyfeiriad mewn deddfiadau eraill.

---

[58] Mae'r diwygiadau yn Atodlen 8 i Ddeddf 2023 yn ymwneud â Phennod 2 o Ran 3 o'r Ddeddf honno, sy'n cyflwyno system cynllun datblygu newydd yn Lloegr. Mae Llywodraeth y DU wedi nodi ei bod yn bwriadu gweithredu'r system newydd o haf neu hydref 2025: gweler ymgynghoriad y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, "Proposed reforms to the National Planning Policy Framework and other changes to the planning system" (30 Gorffennaf 2024), Pennod 12, paragraff 11.

## COFNOD Y TRAFODION YN Y SENEDD

232. Mae'r tabl canlynol yn nodi'r dyddiadau ar gyfer pob cyfnod o hynt y Bil drwy'r Senedd. Mae Cofnod y Trafodion a rhagor o wybodaeth am hynt y Bil hwn ar gael ar wefan Senedd Cymru yn: **[**Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru)**]**

| **Cymal** | **Dyddiad** |
|---|---|
| Cyflwyno | 21 Hydref 2024 |
| Cyfnod 1 – Dadl | 4 Mawrth 2025 |
| Cyfnod 2 – Pwyllgor Craffu – ystyried y gwelliannau | 31 Mawrth 2025 |
| Cyfnod 3 – Dadl yn y Cyfarfod Llawn – ystyried y gwelliannau | 13 Mai 2025 |
| Cyfnod 4 – Cymeradwyo gan y Senedd | [i'w fewnosod maes o law] |
| Y Cydsyniad Brenhinol | [i'w fewnosod maes o law] |

# Atodiad B – Tabl tarddiadau

Mae'r tabl yn dangos y tarddiadau o ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol yn achos darpariaethau perthnasol sydd i'w mewnosod yn Neddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 gan y Bil ac fe ddefnyddir y byrfoddau canlynol—

| | |
|---|---|
| 2006 | Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) |
| 2019 | Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4) |
| - | Drafftio newydd |

| ***Y ddarpariaeth yn Neddf 2019*** | ***Tarddiad*** |
|---|---|
| ***Rhan 2A – Y weithdrefn ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth Cymru*** | |
| a. 37G(1) | 2019, a. 40(1) |
| a. 37G(2) | |
| a. 37G(3) | 2019, a. 40(2) |
| a. 37G(4) | 2019, a. 40(3) |
| ***Rhan 2B – Cyhoeddi etc. ddeddfwriaeth Cymru*** | |
| a. 37J(1) | - |
| a. 37J(2) | 2006, a. 115(5A) |
| a. 37J(3) | 2006, a. 115(5B) |
| a. 37K(1) | 2006, a. 115(5C) |
| a. 37K(2)(a) | 2006, a. 115(5D) |
| a. 37K(2)(b) | 2006, a. 115(5E) |
| a. 37L | 2006, a. 115(5F) |

# Atodiad C – Eglurhad o effaith diwygiadau arfaethedig i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019

Diben yr Atodiad hwn yw dangos effaith diwygiadau arfaethedig i adrannau penodol o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru), sy'n deillio o adran 5 ac Atodlen 2 i Fil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru). Mae Atodlen 3 hefyd yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Ddeddf 2019, ond nid yw'r rhain yn cael eu dangos yma.

- Pan fwriedir i'r Bil **hepgor** testun, dangosir y testun ~~mewn coch â llinell drwyddo~~
- Pan fwriedir i'r Bil **fewnosod** testun, dangosir y testun <u>wedi ei danlinellu mewn glas</u>
- Mae rhif uwchben y llinell, er enghraifft [1, 2, 3], yn cyfeirio at y nodyn perthnasol yn y blwch sy'n dilyn pob adran o Ddeddf 2019 sy'n cael ei heffeithio.

I weld fersiwn gyfredol o Ddeddf 2019 (na fydd yn cynnwys y diwygiadau arfaethedig), ewch i wefan legislation.gov.uk.

**DYFYNIADAU O RAN 2 O**
**DDEDDF DEDDFWRIAETH (CYMRU) 2019 (dccc 4)**

…

**3 Deddfwriaeth y mae'r Rhan hon yn gymwys iddi**

(1) Mae'r Rhan hon yn gymwys i—

(a) y Ddeddf hon;

(b) Deddfau Senedd Cymru sy'n cael y Cydsyniad Brenhinol ar 1 Ionawr 2020 neu ar ôl y diwrnod hwnnw;

(c) is-offerynnau Cymreig a wneir ar 1 Ionawr 2020 neu ar ôl y diwrnod hwnnw.

(2) Ystyr "is-offeryn Cymreig" yw offeryn (pa un a yw'r offeryn hwnnw yn offeryn statudol ai peidio) nad yw ond yn cynnwys un neu ddau o'r canlynol—

(a) is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Ddeddf gan Senedd Cymru neu Fesur Cynulliad, pa un ai gan Weinidogion Cymru neu gan unrhyw berson arall;

(b) is-ddeddfwriaeth—

(i) a wneir o dan Ddeddf gan Senedd y Deyrnas Unedig neu ddeddfwriaeth uniongyrchol a gymathwyd,

(ii) nas gwneir ond gan Weinidogion Cymru neu unrhyw awdurdod Cymreig datganoledig arall (o fewn yr ystyr a roddir i “devolved Welsh authority” gan adran 157A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32)), a

(iii) nad yw ond yn gymwys o ran Cymru.

(3) Mae cyfeiriadau yng ngweddill y Rhan hon at Ddeddf gan Senedd Cymru neu is-offeryn Cymreig (oni ddarperir fel arall) yn gyfeiriadau at Ddeddf gan Senedd Cymru neu is-offeryn Cymreig y mae’r Rhan hon yn gymwys iddi neu iddo yn rhinwedd is-adran (1).

(3) Mae cyfeiriadau yn y Rhan hon at Ddeddf gan Senedd Cymru (oni ddarperir fel arall) yn gyfeiriadau at Ddeddf gan Senedd Cymru y mae’r Rhan hon yn gymwys iddi yn rhinwedd is-adran (1).

(3A) Mae cyfeiriadau yn y Rhan hon at is-offeryn Cymreig (oni ddarperir fel arall) yn gyfeiriadau at yr is-ddeddfwriaeth sydd wedi ei chynnwys mewn is-offeryn Cymreig y mae’r Rhan hon yn gymwys iddo yn rhinwedd is-adran (1).[1]

(4) Mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â physgota, pysgodfeydd neu iechyd pysgod ac a wneir ar ôl i adran 45 o Ddeddf Pysgodfeydd 2020 (p. 22) ddod i rym, mae'r cyfeiriad yn is-adran (2)(b)(iii) at Gymru yn cynnwys yr ardal o barth Cymru sydd y tu hwnt i derfynau atfor y môr tiriogaethol.

Nodiadau:

1 Amnewidiwyd gan baragraff 2 o Atodlen 2 i Fil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) (y fersiwn a gyflwynwyd i’r Senedd ar 21/10/24)

...

*Gosod dogfennau gerbron Senedd Cymru*

**12A Ystyr cyfeiriadau at osod dogfennau gerbron Senedd Cymru**

(1) Mae’r adran hon yn gymwys pan fo Deddf gan Senedd Cymru neu is-offeryn Cymreig yn awdurdodi neu’n ei gwneud yn ofynnol gosod unrhyw ddogfen (gan gynnwys offeryn statudol Cymreig) gerbron Senedd Cymru.

(2) Mae’r cyfeiriad at osod y ddogfen yn gyfeiriad at gymryd y camau a bennir mewn perthynas â gosod dogfen gerbron Senedd Cymru yn rheolau sefydlog y Senedd.[1]

Nodiadau:

1 Mewnosodwyd gan baragraff 2 o Atodlen 2 i Fil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) (y fersiwn a gyflwynwyd i’r Senedd ar 21/10/24)

…

**16 Arfer pŵer neu ddyletswydd nad yw mewn grym**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo pŵer neu ddyletswydd yn cael ei roi neu ei gosod—

~~(a) gan ddarpariaeth mewn Deddf gan Senedd Cymru a ddaw i rym—~~

~~(i) ac eithrio drwy orchymyn neu reoliadau, a~~

~~(ii) mwy nag un diwrnod ar ôl y diwrnod y caiff y Ddeddf y Cydsyniad Brenhinol, neu~~

(a) gan ddarpariaeth mewn Deddf gan Senedd Cymru na ddaw i rym ar y diwrnod y caiff y Ddeddf y Cydsyniad Brenhinol neu drannoeth y diwrnod hwnnw, neu[1]

(b) gan ddarpariaeth mewn is-offeryn Cymreig na ddaw i rym unwaith y caiff yr offeryn ei wneud.

(2) Caniateir arfer y pŵer neu'r ddyletswydd (a chaiff unrhyw offeryn a wneir o dan y pŵer neu'r ddyletswydd ddod i rym) yn ystod y cyfnod—

(a) sy'n dechrau pan gaiff y Ddeddf y Cydsyniad Brenhinol neu pan wneir yr offeryn, a

(b) sy'n gorffen pan ddaw'r ddarpariaeth sy'n rhoi'r pŵer neu'n gosod y ddyletswydd i rym.

(3) Ond yn ystod y cyfnod hwnnw ni chaniateir arfer y pŵer neu'r ddyletswydd ond i'r graddau y mae'n angenrheidiol neu'n hwylus at ddiben rhoi effaith lawn—

(a) i'r Ddeddf neu i'r offeryn sy'n rhoi'r pŵer neu'n gosod y ddyletswydd, neu

(b) i ddarpariaeth yn y Ddeddf honno neu'r offeryn hwnnw,

ar yr adeg neu ar ôl yr adeg y daw'r Ddeddf, yr offeryn neu'r ddarpariaeth i rym.

(3A) Nid yw is-adran (3) yn gymwys i arfer pŵer neu ddyletswydd i wneud is-ddeddfwriaeth oni bai bod yr is-ddeddfwriaeth i ddod i rym cyn y ddarpariaeth sy'n rhoi'r pŵer neu'n gosod y ddyletswydd.[2]

(4) Pan fo darpariaeth mewn Deddf gan Senedd Cymru neu is-offeryn Cymreig nad yw mewn grym—

(a) yn gysylltiedig â phŵer neu ddyletswydd, neu'n atodol i bŵer neu ddyletswydd, a arferir yn unol â'r adran hon, a

(b) yn dod i rym ac eithrio drwy orchymyn neu reoliadau,

mae'r ddarpariaeth honno i'w thrin fel pe bai mewn grym i'r graddau y mae'n angenrheidiol i arfer y pŵer neu'r ddyletswydd yn unol â'r adran hon.

(5) Mae arfer pŵer neu ddyletswydd yn unol â'r adran hon yn ddarostyngedig i unrhyw amodau neu gyfyngiadau a osodir gan y Ddeddf neu'r offeryn sy'n rhoi'r pŵer neu'n gosod y ddyletswydd (pa un a yw'r ddarpariaeth sy'n gosod yr amod neu'r cyfyngiad mewn grym ai peidio).

(6) Yn is-adran (1), mae'r cyfeiriadau at ddarpariaeth mewn Deddf gan Senedd Cymru neu is-offeryn Cymreig yn cynnwys darpariaeth sy'n diwygio deddfiad arall.

(7) Pan fo darpariaeth mewn Deddf gan Senedd Cymru neu is-offeryn Cymreig yn rhoi pŵer neu'n gosod dyletswydd drwy ddiwygio deddfiad arall, mae'r cyfeiriadau at Ddeddf neu offeryn yn is-adrannau (3)(a) a (b), (4) a (5) yn cynnwys y deddfiad arall fel y'i diwygiwyd.[3]

| Nodiadau: | |
|---|---|
| 1 | Amnewidiwyd gan baragraff 4(a) o Atodlen 2 i Fil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) (y fersiwn a gyflwynwyd i'r Senedd ar 21/10/24) |
| 2 | Mewnosodwyd gan baragraff 4(b) o Atodlen 2 i Fil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) (y fersiwn a gyflwynwyd i'r Senedd ar 21/10/24) |
| 3 | Mewnosodwyd gan baragraff 4(c) o Atodlen 2 i Fil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) (y fersiwn a gyflwynwyd i'r Senedd ar 21/10/24) |

…

**21 Cyfeiriadau at raniadau o ddeddfiadau, offerynnau a dogfennau**

(1) Pan fo Deddf gan Senedd Cymru neu is-offeryn Cymreig—

(a) yn disgrifio rhaniad o unrhyw ddeddfiad, offeryn neu ddogfen neu'n cyfeirio at raniad o unrhyw ddeddfiad, offeryn neu ddogfen, a

(b) yn gwneud hynny drwy gyfeirio at eiriau, adrannau neu rannau eraill y mae'r rhaniad yn ymestyn oddi wrthynt neu atynt (neu oddi wrthynt ac atynt),

mae'r rhaniad yn cynnwys y geiriau, yr adrannau neu'r rhannau eraill y cyfeirir atynt.

(2) Yn is-adran (1), mae "deddfiad" yn cynnwys deddfiad sy'n un o'r canlynol neu sydd wedi ei gynnwys mewn un o'r canlynol—

(a) Deddf gan Senedd yr Alban;

(b) deddfwriaeth Gogledd Iwerddon (o fewn yr ystyr a roddir i "Northern Ireland legislation" gan adran 24(5) o Ddeddf Dehongli 1978 (p. 30));

(ba) Mesur gan Gynulliad Eglwys Loegr neu gan Synod Cyffredinol Eglwys Loegr;[1]

(c) offeryn a wneir o dan ddeddfwriaeth a grybwyllir ym mharagraff (a) ~~neu (b)~~, (b) neu (ba)[2].

Nodiadau:

1 Mewnosodwyd gan baragraff 5(a) o Atodlen 2 i Fil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) (y fersiwn a gyflwynwyd i'r Senedd ar 21/10/24)

2 Amnewidiwyd gan baragraff 5(b) o Atodlen 2 i Fil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) (y fersiwn a gyflwynwyd i'r Senedd ar 21/10/24)

…

**25 Mae cyfeiriadau at ddeddfiadau yn gyfeiriadau at ddeddfiadau fel y'u diwygiwyd**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys—

(a) pan fo Deddf gan Senedd Cymru neu is-offeryn Cymreig yn cyfeirio at ddeddfiad ("A"), a

(b) pan fo A yn cael ei ddiwygio, ei estyn neu ei gymhwyso gan ddeddfiad ("B") ar unrhyw adeg (pa un ai cyn, ar neu ar ôl y diwrnod y caiff y Ddeddf y Cydsyniad Brenhinol neu y caiff yr offeryn ei wneud).

(2) Mae'r cyfeiriad at A yn gyfeiriad at A fel y'i diwygiwyd, y'i hestynnwyd neu y'i cymhwyswyd gan B.

(3) Nid oes dim yn adrannau 22 i 24 yn cyfyngu ar weithrediad yr adran hon.

(4) Yn is-adran (1), mae "deddfiad" yn cynnwys deddfiad sy'n un o'r canlynol neu sydd wedi ei gynnwys mewn un o'r canlynol—

(a) Deddf gan Senedd yr Alban;

(b) deddfwriaeth Gogledd Iwerddon (o fewn yr ystyr a roddir i "Northern Ireland legislation" gan adran 24(5) o Ddeddf Dehongli 1978 (p. 30));

(ba) Mesur gan Gynulliad Eglwys Loegr neu gan Synod Cyffredinol Eglwys Loegr;[1]

(c) offeryn a wneir o dan ddeddfwriaeth a grybwyllir ym mharagraff (a) ~~neu (b)~~, (b) neu (ba)[2].

Nodiadau:

1 Mewnosodwyd gan baragraff 6(a) o Atodlen 2 i Fil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) (y fersiwn a gyflwynwyd i'r Senedd ar 21/10/24)

2 Amnewidiwyd gan baragraff 6(b) o Atodlen 2 i Fil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) (y fersiwn a gyflwynwyd i'r Senedd ar 21/10/24)

…

**35 Effaith ailddeddfu**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo deddfiad ("A")—

(a) yn cael ei ddiddymu neu ei ddirymu gan Ddeddf gan Senedd Cymru neu is-offeryn Cymreig, a

(b) yn cael ei ailddeddfu (gydag addasiadau neu hebddynt) gan ddeddfiad ("B") sy'n Ddeddf gan Senedd Cymru neu'n is-offeryn Cymreig neu'n ddeddfiad sydd wedi ei gynnwys mewn Deddf gan Senedd Cymru neu is-offeryn Cymreig.

(2) Mae cyfeiriad at A mewn unrhyw ddeddfiad, offeryn neu ddogfen i'w ddarllen fel (neu fel pe bai'n cynnwys) cyfeiriad at B.

(3) I'r graddau y gallasai unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir o dan A neu sy'n cael effaith fel pe bai wedi ei gwneud o dan A gael ei gwneud o dan B, mae i gael effaith fel pe bai wedi ei gwneud o dan B.

(4) I'r graddau y gallasai unrhyw beth a wneir neu sy'n cael effaith fel pe bai wedi ei wneud o dan A gael ei wneud o dan B, mae i gael effaith fel pe bai wedi ei wneud o dan B.

(5) Nid yw is-adran (3) yn peri i adran 28 gael effaith mewn perthynas ag unrhyw is-ddeddfwriaeth pan nad oedd yn cael effaith yn flaenorol.[1]

Nodiadau:

1 Mewnosodwyd gan baragraff 8 o Atodlen 2 i Fil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) (y fersiwn a gyflwynwyd i'r Senedd ar 21/10/24)

**36 ~~Cyfeirio at Ddeddf gan Senedd Cymru yn ôl ei henw byr ar ôl iddi gael ei diddymu~~ Cyfeirio at Ddeddf gan Senedd Cymru ar ôl iddi gael ei diddymu neu is-offeryn Cymreig ar ôl iddo gael ei ddirymu**[3]

(1)[1] Caniateir parhau i gyfeirio at Ddeddf gan Senedd Cymru yn ôl yr enw byr a roddir iddi gan ddeddfiad er i'r deddfiad hwnnw gael ei ddiddymu.

(2) Caniateir parhau i gyfeirio at is-offeryn Cymreig yn ôl ei enw er i'r offeryn gael ei ddirymu.[2]

| Nodiadau: | |
| --- | --- |
| 1 | Rhifwyd gan baragraff 9(a) o Atodlen 2 i Fil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) (y fersiwn a gyflwynwyd i'r Senedd ar 21/10/24) |
| 2 | Mewnosodwyd gan baragraff 9(b) o Atodlen 2 i Fil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) (y fersiwn a gyflwynwyd i'r Senedd ar 21/10/24) |
| 3 | Ailenwyd gan baragraff 9(c) o Atodlen 2 i Fil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) (y fersiwn a gyflwynwyd i'r Senedd ar 21/10/24) |

## 37 ~~Ystyr~~ Dehongli darpariaethau ynghylch diwygio,[1] diddymu a dirymu yn y Rhan hon

(1) Yn y Rhan hon, mae cyfeiriadau at ddiddymu neu ddirymu deddfiad neu ddileu rheol gyfreithiol yn cynnwys—

(a) amnewid unrhyw beth am y deddfiad neu'r rheol (neu unrhyw ran ohono neu ohoni);

(b) cyfyngu ar gymhwysiad neu effaith y deddfiad neu'r rheol;

(c) darparu i'r deddfiad neu'r rheol beidio â chael effaith.

(2) At ddibenion adrannau 34 i 36 (ond nid adran 33)—

(a) pan ddaw Deddf dros dro gan Senedd Cymru i ben, mae hyn i'w drin fel pe bai'r Ddeddf wedi ei diddymu gan Ddeddf gan Senedd Cymru neu is-offeryn Cymreig;

(b) pan ddaw is-offeryn Cymreig dros dro i ben, mae hyn i'w drin fel pe bai'r offeryn wedi ei ddirymu gan Ddeddf gan Senedd Cymru neu is-offeryn Cymreig.

(3) Yn adrannau 32 i 35, ac yn is-adran (1) fel y mae'n gymwys at ddibenion yr adrannau hynny, mae "deddfiad" yn cynnwys deddfiad sy'n Fesur gan Gynulliad Eglwys Loegr neu gan Synod Cyffredinol Eglwys Loegr neu'n offeryn a wneir o dan Fesur o'r fath, neu sydd wedi ei gynnwys mewn Mesur neu offeryn o'r fath.[2]

| Nodiadau: | |
| --- | --- |
| 1 | Amnewidiwyd gan baragraff 7(a) o Atodlen 2 i Fil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) (y fersiwn a gyflwynwyd i'r Senedd ar 21/10/24) |
| 2 | Mewnosodwyd gan baragraff 7(b) o Atodlen 2 i Fil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) (y fersiwn a gyflwynwyd i'r Senedd ar 21/10/24) |